# BYRDDAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU



## ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21

Trosolwg o Amcanion a Chyflawniadau Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Amcanion Bwrdd Diogelu Rhanbarthol 2

Strwythur y Bwrdd 3

(a) Aelodaeth 7

(b) Camau a gymerwyd i gyflawni ein canlyniadau 9

(c) I ba raddau yr ydym wedi gweithredu ein cynlluniau blynyddol strategol 13

(d) Sut rydym wedi cydweithredu â chyrff eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amcanion y Byrddau 27

(e) Ceisiadau a wnaed i bersonau cymwys o dan A.137 (1) ac a gydymffurfiwyd â nhw ai peidio 31

(f) Yr hyn y gwnaethom ei gyflawni yn ystod y flwyddyn 32

(g) I ba raddau y mae asiantaethau wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y Byrddau 38

(h) Asesiad o sut mae'r Bwrdd yn defnyddio ei adnoddau 48

(i) Themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau Diogelu wedi ymarfer eu swyddogaethau 49

(j) Pryd a sut mae plant ac oedolion wedi cael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Byrddau 59

(k) Ceisiadau am Orchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion 64

(l) Gwybodaeth neu ddysgu y mae'r Byrddau wedi'i ledaenu a hyfforddiant a gafodd ei argymell neu ei ddarparu 65

(m) Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi gweithredu cyngor gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol 69

Rhestr Termau 70

# Cyflwyniad

**Mae'n bleser gennym gyflwyno ar y cyd Adroddiad Blynyddol CWMPAS a CYSUR Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn erbyn y canlyniadau a osodwyd gan CYSUR a CWMPAS fel rhan o'n Cynllun Strategol Blynyddol ar y cyd ar gyfer y flwyddyn 2020-21. Wrth inni symud ymlaen i gyhoeddi, rydym yn canfod ein hunain yn ymateb i adferiad o bandemig byd-eang COVID-19, sydd wedi cael effaith sylweddol ar yr holl wasanaethau cyhoeddus trwy gydol eleni.

Rydym yn falch fel Cadeiryddion Bwrdd nid yn unig o ymroddiad ein Byrddau a'u partneriaid i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i'r amrywiol risgiau a heriau a gafwyd o ganlyniad i'r pandemig, ond hefyd o'r cyflawniadau rhagorol a wnaed eleni er gwaetha'r heriau a wynebwyd. Rydym wedi gweithredu ar sail 'busnes fel arfer' trwy gydol y flwyddyn, gan gyflawni'r holl rwymedigaethau statudol, ac rydym wedi datblygu nifer o ffrydiau gwaith allweddol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau ein Bwrdd fel y'u nodwyd yn y Cynllun Strategol Blynyddol. Ymhellach, rydym wedi cofleidio'r heriau a gyflwynwyd i wella effeithlonrwydd yn ein harfer gwaith, gan ddefnyddio datrysiadau digidol a thechnoleg i barhau i gydweithio fel partneriaeth amlasiantaethol ranbarthol. Mae'r heriau digynsail eleni wedi dangos pwysigrwydd mawr y Byrddau Diogelu Rhanbarthol wrth sicrhau ymateb amlasiantaethol i heriau wrth ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. Hoffem ddiolch i aelodau Byrddau Canolbarth a Gorllewin Cymru ac is-grwpiau am eu diddordeb a'u hymrwymiad ac am y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.Mae CYSUR a CWMPAS yn dod yn eu blaenau yn dda, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Byrddau y flwyddyn nesaf i barhau i wella arferion ledled y rhanbarth i barhau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.



**Jonathan Griffiths (Cadeirydd CWMPAS)**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Sir Penfro



**Jake Morgan (Cadeirydd CYSUR)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Gâr

# Amcanion Bwrdd Diogelwch Rhanbarthol

Mae amcanion Byrddau Diogelu Rhanbarthol fel yr amlinellir hwy yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), 2014 yn cael eu nodi isod.

Amcanion a **Bwrdd Diogelu Plant** yw:

- **amddiffyn** plant yn ei ardal sy'n profi, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed, ac
- **atal** plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed.

Amcanion **Bwrdd Diogelu Oedolion** yw:

- **amddiffyn** oedolion yn ei ardal sydd ag -

1. anghenion am ofal a chefnogaeth (p'un a yw Awdurdod Lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio), ac sy'n
2. profi, neu sydd mewn perygl o, gamdriniaeth neu esgeulustod, ac

- **atal** yr oedolion hynny yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

## Canllawiau am swyddogaethau Byrddau Diogelu

Mae'r ffocws ar gyfer Byrddau Diogelu yn ddeublyg. Yr amcan yw **amddiffyn** plant ac oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, ac **atal** plant ac oedolion rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed. Dylai'r ddau amcan hyn lywio blaenoriaethau Byrddau Diogelu wrth iddynt ystyried eu rhaglenni gwaith a'u cynlluniau blynyddol, ac adolygu eu perfformiad.


Cyfrifoldeb pawb yw cadw plant ac oedolion a allai fod ag anghenion am ofal a chefnogaeth yn ddiogel. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel gyda'r rhai y maent yn byw gyda nhw ac sy'n eu cefnogi ac yn gofalu amdanynt, yn ogystal â bod yn ddiogel mewn amgylcheddau y tu allan i'r cartref lle gallant fyw, teithio, chwarae, dysgu, gweithio neu ymgymryd â chwaraeon, a gweithgareddau diwylliannol, hamdden ac eraill. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn gorwedd yn bennaf o fewn y teulu neu gyda gofalwyr ac yn y gymuned ehangach. Mae gan lawer o sefydliadau gyfrifoldeb am ddiogelu plant ac oedolion trwy'r gwasanaethau y maent yn eu darparu'n uniongyrchol iddynt, trwy'r help a'r gefnogaeth a ddarperir i deuluoedd a gofalwyr, neu trwy eu gwaith i ddatblygu a chryfhau cymunedau.



# Strwythur Y Bwrdd

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu cymunedau Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys, gan weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth mewn lleoliad amlasiantaethol. Nod y Byrddau yw codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu gydag aelodau'r cyhoedd a darparu cefnogaeth, cyngor ac arweiniad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein cymunedau lleol sy'n cynnig ystod o wasanaethau gwirfoddol a statudol. Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu gwasanaethau gan ddau Fwrdd Diogelu sy'n gweithredu fel chwaer fyrddau:

- **CWMPAS [Gweithio Cydweithredol a Chynnal Partneriaeth mewn Diogelu Oedolion]:** Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru, **a:**
- **CYSUR [Diogelu Plant ac Ieuenctid, Uno'r Rhanbarth]:** Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.




## Byrddau Gweithredol:

Mae'r Byrddau Gweithredol ar gyfer CYSUR a CWMPAS yn gweithio gyda'i gilydd fel Bwrdd rhanbarthol trosfwaol i fonitro a gwella gweithgaredd diogelu rhanbarthol ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Byrddau Gweithredol yn cynnwys uwch reolwyr o'r holl bartneriaid ac asiantaethau statudol allweddol (gweler adran A). Nod y Byrddau Gweithredol yw darparu arweinyddiaeth ac arweiniad i'w holl asiantaethau cyfansoddol trwy gyflawni cyfres o flaenoriaethau strategol ar gyfer gweithgaredd diogelu ac arfer. Mae'r ddau Fwrdd Gweithredol yn cefnogi, yn tywys ac yn cymryd cyngor gan yr is-grwpiau rhanbarthol.



*Cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd eleni gan ddefnyddio Microsoft Teams*

## Grwpiau Gweithredol Lleol:

Mae pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal Grwpiau Gweithredol Lleol (LOGs). Mae pwrpas, aelodaeth a strwythur yr LOGs hyn yn adlewyrchu pwrpas y Byrddau Gweithredol. Fodd bynnag, prif amcan LOGs yw monitro a dadansoddi arferion diogelu yn lleol, yn hytrach nag yn rhanbarthol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys Pennaeth y Gwasanaethau Plant ac Oedolion, sy'n cadeirio'r grwpiau, uwch reolwyr a rheolwyr canol asiantaethau statudol lleol, gan gynnwys Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf. Mae LOGs yn ceisio gwella arferion diogelu yn lleol trwy drafod gweithgaredd diogelu lleol mewn amgylchedd agored a thryloyw, rhannu a dadansoddi data perfformiad lleol a chwblhau archwiliadau ymarfer i lywio gwelliannau mewn arferion a nodi risg. Mae LOGs yn ceisio rhannu a chydnabod enghreifftiau o arfer diogelu da; yn ogystal, byddant yn herio ac yn dwyn asiantaethau i gyfrif yn broffesiynol pan fydd arferion diogelu yn is na'r safonau disgwyliedig.

> **"Adborth o'r Diwrnod Datblygu:**
> *Mae LOGs ac is-grwpiau yn effeithiol wrth ledaenu materion sy'n gysylltiedig ag ymarfer trwy asiantaethau"*

## Is-grwpiau Adolygu Ymarfer Rhanbarthol:

Mae'r Is-grwpiau Adolygu Ymarfer Oedolion (APR) ac Adolygu Ymarfer Plant (CPR) yn ystyried atgyfeiriadau gan asiantaethau lle mae plentyn neu oedolyn sydd mewn perygl naill ai wedi marw neu wedi dioddef nam sylweddol i iechyd a datblygiad o ganlyniad i gamdriniaeth a / neu esgeulustod. Mae'r Is-grwpiau APR / CPR rhanbarthol yn ystyried gwybodaeth yn erbyn meini prawf diffiniedig yn 'Cydweithio i Ddiogelu Pobl Cyfrol 3 - Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Cyfrol 2 - Adolygiadau Ymarfer Plant ac yn gwneud argymhelliad i Gadeirydd perthnasol y Bwrdd Gweithredol ynghylch a oes canlyniadau dysgu wedi'u nodi ac a ddylid ymgymryd ag APR / CPR i ddysgu gwersi. Gwneir Adolygiadau Ymarfer gan grŵp amlasiantaethol o weithwyr proffesiynol sy'n dadansoddi gwybodaeth ar y cyd ac yn nodi unrhyw themâu ymarfer a gwersi i'w dysgu. Yna cyhoeddir yr adroddiad fel Adolygiad o Ymarfer Plant / Oedolion ar wefan y Byrddau.

## Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol Rhanbarthol (FfPARh/MAPF)

Mae gan y Bwrdd Rhanbarthol Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol Rhanbarthol (FfPARh/MAPF) sefydledig hefyd, sy'n cefnogi ac yn goruchwylio dysgu amlasiantaethol o achosion a nodwyd nad ydynt wedi cyrraedd y trothwy ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant neu Oedolion cryno neu estynedig llawn. Mae'r cyfrifoldeb am reoli a goruchwylio FfPA/MAPFs yn gorwedd gyda LOGs, ond mae unrhyw themâu a dysgu rhanbarthol yn cael eu nodi a'u rhannu trwy'r fforwm rhanbarthol.

## Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol:

Mae'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau yn gweithredu ar y cyd ac mewn cysylltiad â'r Byrddau Gweithredol. Mae'r Grŵp yn ceisio darparu arweiniad i weithwyr proffesiynol trwy ddatblygu polisi a gweithdrefn ranbarthol. Mae'r Byrddau'n parhau i weithio tuag at ddatblygu protocolau lleol sy'n bodoli eisoes i fod yn bolisïau a gweithdrefnau rhanbarthol i helpu i hyrwyddo ymateb mwy cyson i arferion diogelu ledled y rhanbarth.

CYSUR

## Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol:

Mae'r Is-grŵp Hyfforddiant yn gweithredu ar y cyd ac mewn cydweithrediad â'r Byrddau Gweithredol. Mae'n ceisio cefnogi ac arwain y gwaith o ddarparu hyfforddiant a dysgu yn ymwneud â diogelu ar draws pedair ardal yr Awdurdod Lleol a sefydliadau asiantaethau partner. Gweithia'r Is-grŵp Hyfforddiant yn agos gydag adrannau hyfforddi partneriaid i sicrhau a hyrwyddo ansawdd a chysondeb hyfforddiant diogelu a'r dull o'i gyflwyno. Gall y grŵp gomisiynu hyfforddiant diogelu arbenigol, pwrpasol ledled y rhanbarth ac mae'n gweithio'n agos gydag is-grwpiau eraill fel yr Is-grwpiau APR / CPR i sicrhau bod unrhyw ganlyniadau dysgu a nodwyd o ganlyniad i Adolygiadau Ymarfer Plant / Oedolion yn cael eu lledaenu i staff.

Mae fforymau a grwpiau rhanbarthol pwrpasol eraill yn cefnogi ac yn cyd-fynd yn agos â chynllun a blaenoriaethau strategol blynyddol y Byrddau, ac maent yn cynnwys y Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol rhanbarthol (FfPARh/MAPF), Grŵp Arweinwyr Diogelu Oedolion amlasiantaethol rhanbarthol a grŵp rhanbarthol ar gyfer Cadeiryddion Cynadleddau Amddiffyn Plant.

## Grwpiau Strategol a Chyflenwi ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV):

Mae 'VAWDASV' yn effeithio ar holl ddinasyddion y rhanbarth ac yn ymgorffori pob math o drais yn erbyn menywod, trais ar sail anrhydedd, priodas dan orfod, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM), masnachu mewn pobl, trais rhywiol a cham-fanteisio, a cham-drin domestig. Mae Grŵp Strategol VAWDASV yn gydweithrediad amlasiantaethol sy'n gyrru gofynion Deddf VAWDASV, yn eu blaen, gan gynnwys gweithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Rhanbarthol, Bywydau Mwy Diogel, Teuluoedd Iachach. Mae Grŵp Cyflenwi VAWDASV yn cefnogi'r Grŵp Strategol ynghylch symud ymlaen a gweithredu blaenoriaethau rhanbarthol, yn ogystal â chynnal cysylltiadau allweddol â darparwyr arbenigol.

Live Fear Free Helpline
Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
**0808 80 10 800**

## Grŵp Gweithredol COVID-19

Er mwyn sicrhau ymateb effeithlon a chyson i'r pandemig COVID-19 ar draws gwasanaethau diogelu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, sefydlwyd Grŵp Gweithredol COVID-19 ym mis Mawrth 2020 i fynd i'r afael yn benodol â materion allweddol oedd yn ymwneud â'r pandemig. Mae'r aelodaeth yn cynnwys aelodau o'r Bwrdd Gweithredol ac Uwch Reolwyr Gweithredol ar draws y bartneriaeth amlasiantaethol. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn wythnosol i ddechrau, ac mae amlder y cyfarfodydd hyn wedi bod yn destun adolygiad a diwygiad parhaus yn unol â difrifoldeb y risg a'r galw ar wasanaethau. Cytunodd, datblygodd a gweithredodd y grŵp hwn nifer o bolisïau a gweithdrefnau, i sicrhau bod arferion diogelu ar draws holl asiantaethau'r Bwrdd yn gyson, a bod risgiau COVID-19 i'r gymuned yn ogystal ag i wasanaethau yn cael ymateb mewn modd amserol ac effeithiol. Mae'r grŵp hwn yn parhau i fod ar waith ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, gan weithredu yn llai aml yn gymesur â'r lefel risg a'r galw cyfredol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

# CADW: Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Iau

Mae Bwrdd CYSUR yn parhau i gomisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Tros Gynnal Plant (TGP)  i hwyluso ei Fwrdd Diogelu Iau rhanbarthol. Mae'r grŵp yn parhau i gynghori'r Byrddau Gweithredol ar faterion diogelu a phroblemau o safbwynt person ifanc trwy gyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau ymgynghori.




Mae Grŵp CADW yn cwrdd bob chwarter ac yn cael ei gefnogi gan dri grŵp diogelu iau lleol a phartneriaeth ieuenctid, sy'n cyd-fynd yn agos â'u Grwpiau Gweithredol Lleol priodol.



# (a) Aelodaeth

## CWMPAS
## (Bwrdd Gweithredol Diogelu Oedolion)

**Jonathan Griffiths (Cadeirydd)**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro

**Jayne Butler (Is-gadeirydd)**
Ditectif Uwcharolygydd, Heddlu Dyfed Powys

**Jake Morgan**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin

**Sian Howys**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ceredigion

**Alison Bulman**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Powys

**Sian Passey**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio Sicrwydd a Diogelu Nyrsio Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Avril Bracey**
Pennaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Caerfyrddin

**Donna Pritchard**
Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Gofal, Cyngor Sir Ceredigion

**Jason Bennett**
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Penfro

**Michael Gray**
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Powys

**Christine Harley**
Prif Weithredwr Cynorthwyol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

## CYSUR
## (Bwrdd Gweithredol Diogelu Plant)

**Jake Morgan (Cadeirydd)**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin

**Sian Passey (Is-gadeirydd)**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio Sicrwydd a Diogelu Nyrsio Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Jonathan Griffiths**
Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro

**Sian Howys**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ceredigion

**Alison Bulman**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Powys

**Jayne Butler**
Ditectif Uwcharolygydd, Heddlu Dyfed Powys

**Stefan Smith**
Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin

**Darren Mutter**
Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro

**Jan Coles**
Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys

**Christine Harley**
Prif Weithredwr Cynorthwyol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

**Mandy Rayani**
Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Mandy Rayani**
Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Alison Davies**
Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Mandy Nichols-Davies**
Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs a Enwir), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Jayne Wheeler-Sexton**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs a Enwyd), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Virginia Hewitt**
Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Nikki Harvey**
Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Hazel Lloyd-Lubran**
Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

**Chris Harrison**
Cynrychiolydd rhanbarthol ar gyfer Penaethiaid Comisiynu

**Alison Davies**
Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Mandy Nichols-Davies**
Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs a Enwir), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Jayne Wheeler-Sexton**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs a Enwyd), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Virginia Hewitt**
Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Nikki Harvey**
Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Hazel Lloyd-Lubran**
Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

**Steve Davis**
Cynrychiolydd rhanbarthol Rheolwyr Cyfiawnder Ieuenctid

**Regional Directors of Education**
Aelodaeth sy'n cylchdroi o Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys

**Dr Ingrid Prosser**
Meddyg a Enwir, Amddiffyn Plant, BIAP (PTHB)

**Dr Damitha Ratnasinghe**
Meddyg a Enwir, Amddiffyn Plant, BIPHDd (HDUHB)

## Uned Fusnes Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru • CWMPAS • Mid and West Wales Safeguarding Adults Board

**Julie Breckon**
Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

**Rebecca Reynolds**
Swyddog Datblygu Busnes

**Stuart Hicks**
Cydlynydd Busnes

Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru • CYSUR • Mid and West Wales Safeguarding Children Board

# (b) Camau gweithredu a gymerwyd i gyflawni ein deilliannau

## Datblygu a Gweithredu Trefniadau Rhanbarthol COVID-19

Fel y soniwyd o'r blaen, ailgyfeiriwyd cryn dipyn o amser ac adnoddau yn y flwyddyn flaenorol i gefnogi'r ymateb diogelu amlasiantaethol i'r pandemig COVID-19. O'r herwydd, mae nifer o drefniadau rhanbarthol dros dro wedi'u datblygu a'u gweithredu i gefnogi'r gwaith hwn.

Mae hyn yn cynnwys newidiadau dros dro i strwythur y Byrddau, gan gynnwys gweithredu Grŵp Gweithredol COVID-19, sydd wedi cyfarfod yn rheolaidd trwy gydol y pandemig, a datblygu a chyhoeddi nifer o strategaethau, protocolau a pholisïau penodol COVID-19.

## Datblygu a Gweithredu Grŵp Gweithredol COVID-19


> Yr adborth a rannwyd yn ystod Diwrnod Datblygu'r
> *Cafodd rhwystrau sefydliadol eu dileu i gyflawni nod ar y cyd.*

Cyflwynwyd Grŵp Gweithredol COVID-19 ar ddechrau'r pandemig, i ddarparu fforwm pwrpasol ar gyfer ymdrin â'r heriau amrywiol sy'n codi oherwydd COVID-19. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 16 Mawrth 2020, ac mae cyfanswm o 18 cyfarfod wedi'u cynnal hyd yma. Sefydlwyd y cyfarfodydd i ddechrau fel ymateb brys i'r goblygiadau posibl ynghylch gwasanaethau diogelu aml-asiantaeth critigol i'w gwneud yn bosibl i gael ymateb rhanbarthol cyson a chydweithredol i wasanaethau statudol sy'n hanfodol i fusnes. Ehangodd a datblygodd hwn yn fforwm yn gyflym i bartneriaid ddadansoddi ac ymateb ar y cyd i unrhyw risg uwch a nodwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth, rhannu arfer gorau a thrafod a datrys problemau cymhleth.

I ddechrau, canolbwyntiodd gwaith y Grŵp Gweithredol ar bartneriaid y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn datblygu cynlluniau parhad busnes ar gyfer gwasanaethau diogelu statudol allweddol. Cefnogodd pob asiantaeth ddull gweithredu **busnes fel arfer** yn unfrydol, a datblygu ffyrdd creadigol o barhau i ddarparu gwasanaethau allweddol. Roedd hyn yn cynnwys datblygu a rhannu nifer o wahanol declynnau asesu risg a phrotocolau Pyramid Angen, a gynorthwyodd i asesu'r rhai y nodwyd eu bod mewn risg uchel ac oedd â'r angen mwyaf. Datblygwyd a rhannwyd dulliau creadigol pellach i fodloni rhwymedigaethau statudol, gan gynnwys defnyddio technoleg a dulliau rhithwir i weld teuluoedd a chynnal asesiadau. Llwyddodd y Grŵp Gweithredol i oruchwylio, dadansoddi ac ymateb i sefyllfa a oedd yn esblygu ac yn newid yn gyflym mewn modd amserol a chydweithredol, yn enwedig yn ystod yr wythnosau a'r misoedd yn syth ar ôl y cyfnod clo cenedlaethol ac ar anterth y pandemig. Roedd materion o'r fath yn cynnwys argaeledd a defnydd o offer amddiffynnol personol (PPE) a'i oblygiadau posibl ar staff a defnyddwyr gwasanaeth, yn ogystal â heriau cysylltiedig mewn cartrefi gofal, cartrefi nyrsio a darpariaeth gofal cartref. Roedd yr angen i sicrhau bod gwasanaethau statudol rheng flaen allweddol yn dal i gael eu darparu ar gyfer plant ac oedolion oedd mewn perygl yn ganolog i'r gwaith hwn.

## Datblygu Polisïau Dros Dro COVID-19 ar gyfer Plant ac Oedolion mewn Perygl

Cydweithiodd yr Arweinwyr Diogelu Amlasiantaethol Rhanbarthol ar gyfer Plant ac Oedolion yn gyflym i lunio nifer o bolisïau dros dro rhanbarthol o fewn amserlen fer iawn, i gefnogi dull rhanbarthol o ymdrin â'r grwpiau mwyaf agored i niwed a nodwyd. Mae hyn wedi cynnwys canllawiau ar gyfer cynnal asesiadau DoLS, ymchwiliadau Adran 47, adolygiadau PDG (LAC) a Chynadleddau Amddiffyn Plant, Canllawiau Diogelu Data wedi'u diweddaru a fframwaith diogelu i gefnogi cyfarfodydd amlddisgyblaethol. Mae'r rhain i gyd yn parhau i fod yn ddogfennau gweithredol ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon ac fe'u cyhoeddwyd fel un ddewislen gyffredinol o bolisïau ar wefan y Byrddau o dan ei drefniadau COVID-19 rhanbarthol ym mis Awst 2020.




## Datblygu a Chyhoeddi Proses Uwchgyfeirio Ranbarthol a Pholisi Rheoli Risg COVID ar gyfer Cartrefi Gofal a Chartrefi Nyrsio

Darn allweddol o waith a oruchwyliwyd gan Grŵp Gweithredol COVID-19, mewn cydweithrediad a phartneriaeth â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru a Phowys, oedd datblygu a chyhoeddi Polisi Uwchgyfeirio a Rheoli Risg Rhanbarthol ar gyfer Cartrefi Gofal a Nyrsio. Mae cefndir yr angen am y gwaith hwn wedi'i gofnodi'n fanwl yn genedlaethol, ac mae'r heriau cysylltiedig a'r risg ychwanegol mae cartrefi gofal a nyrsio wedi'u profi wedi cael eu cydnabod yn llawn.

Pwrpas y polisi hwn oedd cefnogi cartrefi gofal a nyrsio ledled y rhanbarth i reoli rhai o'r materion hyn yn effeithiol, gan gynnwys achosion o heintiau a phwysau o ran staffio oherwydd absenoldebau hunan-ynysu. Cryfhaodd y polisi oruchwyliaeth amlasiantaethol o'r sector trwy ddatblygu proses uwchgyfeirio, lliniaru a rheoli risg glir, a sicrhaodd fod cynlluniau wrth gefn cadarn ar waith i helpu i atal marwolaethau y gellid eu hosgoi trwy broses a oedd yn cefnogi ymyriadau amserol, priodol.

> Adborth gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol:
> *Mae datblygu un pwynt mynediad ar gyfer cartrefi gofal wedi bod yn help mawr o ran creu sicrwydd*



## Development and Implementation of a COVID-19 Threshold Document

| PREVENTION<br>No harm or risk thereof<br>Low risk of harm | PREVENTION<br>Possible harm or risk thereof<br>Moderate risk of harm | REQUIRES CONSULTATION WITH:<br>• PUBLIC HEALTH WALES<br>• ENVIRONMENTAL HEALTH<br>• COMMISSIONING TEAMS<br>• CARE MANAGEMENT TEAMS<br>• CIW/HIW | PROTECTION<br>• REQUIRES CONSULTATION WITH DESIGNATED SAFEGUARDING PERSON/ TEAM IN YOUR ORGANISATION<br>• POLICE (potentially) |
|---|---|---|---|
| | | All issues in respect of infection control or access to/use of PPE will be dealt with via the appropriate Public Health/ Environmental Health / Commissioning/ Care Management Teams/CIW/HIW<br>The examples below may trigger Enforcement action, Regional Care Home Escalation Procedures, Complaints process | Safeguarding procedures will only be triggered in situations where an adult at risk (as defined in SSWBA), has knowingly been put at risk, abused, or neglected by an individual or organisation<br>The examples below may trigger the Wales Safeguarding Procedures, Regional Care Home Escalation Procedures (Police involvement |
| • One off occurrence of lack of access to PPE, all reasonable steps taken<br>• One off occurrence of inappropriate waste management, all reasonable steps taken | • One off occurrence of not wearing PPE that could cause risk but does not currently<br>• One off occurrence of inappropriate waste management that could cause risk but does not Currently | • Restricted/lack of PPE that may have caused harm.<br>• Inappropriate waste management that may have caused harm<br>• lack of and/or inappropriate use of PPE across a service<br>• Continued lack of timely response to PPE issues | • Knowingly restricting access to care or medical treatment for someone who lacks capacity to make that decision that has caused harm or likely to have caused harm<br>• Continued and Persistent disregard and failure to follow official advice and guidance and regulations in respect of COVID 19. |

Mid and West Wales Safeguarding Board 2020 2

*Dogfen Trothwy COVID-19*

Mae'r set unigryw o amgylchiadau, senarios pwrpasol a heriau sydd wedi deillio o bandemig COVID-19 wedi arwain at drafodaeth a dadl ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ynghylch pryd ac ar ba bwynt y dylid ystyried rhai sefyllfaoedd ac enghreifftiau o achosion o dan drefniadau diogelu yn hytrach na fframweithiau eraill, megis trefniadau Iechyd y Cyhoedd, Iechyd yr Amgylchedd a Chomisiynu Rhanbarthol.

Mae Dogfen Ganllaw Trothwy ranbarthol sy'n benodol i COVID-19 wedi'i datblygu a'i chyhoeddi i roi arweiniad i staff pan fydd senarios mor gymhleth ac anodd eu penderfynu weithiau yn ymddangos sy'n gofyn am ddefnyddio barn synhwyrol a chymesur. Arweiniwyd y gwaith hwn gan y grŵp arweinwyr Diogelu Oedolion Rhanbarthol mewn ymgynghoriad â phartneriaid amlasiantaeth, a gytunodd y byddai gweithdrefnau diogelu yn cael eu sbarduno dim ond pan oedd tystiolaeth amlwg o fwriad bwriadol i achosi niwed i'w weld.

## Parhau i Weithredu'r Strategaeth VAWDASV Ranbarthol

Fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, o dan Ddeddf VAWDASV 2015, cyhoeddodd rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru Strategaeth VAWDASV Bywydau Mwy Diogel, Teuluoedd Iachach ym mis Tachwedd 2018. Goruchwylir y Strategaeth Ranbarthol a'r Cynlluniau Cyflenwi Blynyddol gan yr Ymgynghorydd Rhanbarthol a Bwrdd Strategol VAWDASV sy'n atebol i'r Bwrdd Gweithredol Diogelu Rhanbarthol.

Fel yr amlinellwyd eisoes trwy gydol 2020-21, bu'n rhaid i'r rhanbarth wneud newidiadau sylweddol i'r cynllun cyflawni blynyddol a fwriadwyd o ganlyniad i'r pandemig, sy'n cynnwys gwaith VAWDASV rhanbarthol. Fodd bynnag, mae hefyd wedi ein galluogi i fod yn arloesol, yn greadigol a manteisio ar gyfleoedd wrth fynd i'r afael â rhwystrau i ddarparu gwasanaethau sy'n benodol i Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r darnau allweddol o waith a gwblhawyd mewn perthynas â VAWDASV yn 2020-21 yn cynnwys:

- Gwaith sy'n parhau ar ddatblygu Fframwaith Ymgysylltu â Goroeswyr ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan gynnwys cynnal dadansoddiad cynhwysfawr o arfer da presennol
- Cydweithio ag Arweinwyr Diogelu Addysg i sicrhau bod gan blant a theuluoedd bregus fynediad at TG ac offer hanfodol arall trwy gydol y cyfnod clo. Roedd hyn yn sicrhau bod prosesau diogelu a mynediad at gymorth arbenigol yn cael eu cynnal.
- Cyflwyno tri ymyriad arbenigol ar gyfer y sawl sydd wedi cyflawni cam-drin domestig ledled y rhanbarth. Roedd hyn yn cynnwys treialu opsiynau cyflwyno'n rhithwir ac ymyrraeth benodol i drin stelcio a ddatblygwyd gyda'r Athro Jane Monckton-Smith.
- Gweithio i sefydlu ymateb rhanbarthol cyson i Gam-drin Rhieni gan Blant (CPA), gan gynnwys polisi rhanbarthol, hyfforddiant rhanbarthol a dogfen ranbarthol ynghylch mynediad at gymorth.
- Edrych ar gynllun peilot rhanbarthol o'r rhaglen IRISi ar draws clystyrau meddygon teulu ledled Sir Gaerfyrddin mewn ymateb i Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs) rhanbarthol. Bydd hyn yn gymorth i adnabod Cam-drin Domestig yn gynharach a chysylltiadau rhwng gofal sylfaenol a darpariaeth cymorth VAWDASV arbenigol.
- Gweithio i sefydlu Manyleb Gwasanaeth VAWDASV ranbarthol a fydd yn sail i ac yn llywio gweithgaredd comisiynu VAWDASV ledled y rhanbarth. Bydd hyn yn cefnogi darpariaeth arloesol a chyfannol o gefnogaeth VAWDASV.
- Sicrhawyd dros filiwn o bunnoedd o gyllid ychwanegol ym mlwyddyn ariannol 2020-21. Fe wnaeth hyn ein galluogi i gynyddu'r capasiti ar draws gwasanaethau arbenigol VAWDASV i ateb y galw cynyddol am wasanaethau VAWDASV o ganlyniad i'r pandemig.

> *Adborth gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol:*
>
> *Mae yna gysondeb cryf rhwng ffrydiau gwaith Bwrdd VAWDASV a'n Bwrdd Gweithredol ni*

Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn archwilio cyfleoedd i weithio'n agos rhwng bwrdd strategol VAWDASV a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs) i helpu i sicrhau bod egwyddorion y strategaeth wedi'u hymgorffori yn ein rhaglen waith ac i hwyluso dysgu ar y cyd mewn meysydd allweddol fel comisiynu ac atal.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y VAWSAV yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru trwy'r ddolen ganlynol:
[www.cysur.wales/vawdasv/](www.cysur.wales/vawdasv/)



# (c) Y graddau yr ydym wedi gweithredu ein cynlluniau blynyddol strategol

## 1. Ymgysylltu a Chyfathrebu Effeithiol:

Gwella Ymgysylltiad ac Ymgynghori â Phlant, Oedolion mewn Perygl, Grwpiau sy'n Agored i Niwed, Gweithwyr Proffesiynol a Phartneriaethau.

### Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud:

- Cryfhau ein hymgysylltiad â phlant ac oedolion sydd mewn perygl a'n grwpiau a'n fforymau rhanbarthol
- Gwella cyfathrebu ag ymarferwyr
- Hyrwyddo gwell cyfathrebu wedi'i dargedu â'r cyhoedd, gan gynnwys ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd

### Pa welliannau rydym wedi'u gwneud:

Mae ymgysylltu'n uniongyrchol ag oedolion sydd mewn perygl mewn perthynas â'i waith yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Nid oes strategaeth sefydledig a model trosfwaol i gefnogi hyn wedi'u datblygu eto. Er bod hyn wedi parhau i fod yn gam gweithredu allweddol i'r holl Grwpiau Gweithredol Lleol fel rhan o'u cynllun gwaith wedi'i dargedu yn ystod y flwyddyn, ail-ganolbwyntiwyd ar ymateb i anghenion diogelu uniongyrchol ac acíwt oedolion sydd mewn perygl o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.

Mae Fframwaith Diogelu sy'n ceisio cael adborth ansoddol gan oedolion sydd wedi bod yn destun y broses ddiogelu neu ymholiad, a ddatblygwyd yng Ngheredigion y llynedd, wedi'i rannu a'i hyrwyddo ledled y rhanbarth trwy'r grŵp Arweinwyr Diogelu Oedolion rhanbarthol, a bydd yn cael ei ystyried a'i weithredu ymhellach yn y flwyddyn i ddod.

Bydd y model yn ceisio derbyn adborth o brofiadau defnyddwyr gwasanaeth gan ddefnyddio'r model ymgysylltu 'Arwyddion Diogelwch'. Bydd y wybodaeth yn cael ei gwerthuso

### Ymgysylltu â Grwpiau a Fforymau Rhanbarthol

Mae cysylltiadau cryf ac effeithiol sydd eisoes ar waith gyda Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru wedi'u cryfhau eleni. Mae meysydd o ddiddordeb i'r Grwpiau a Fforymau Rhanbarthol, megis cefnogi gweithlu cryf a gwydn ar draws y sector gofal cymdeithasol ac iechyd, wedi cael amlygrwydd ychwanegol trwy'r pandemig oherwydd y gwendidau ychwanegol sydd wedi'u hamlygu. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig yn y sector gofal, cartrefi nyrsio a gofal cartref, meysydd y nodwyd eisoes sydd yn arbennig o fregus, yr ychwanegwyd atynt gan heriau ychwanegol o ran staffio a recriwtio.

Cytunwyd ar gylch gorchwyl ar y cyd rhwng y ddau gydweithrediad rhanbarthol a bydd ymarferiad 'gwersi a ddysgwyd' ar y cyd yn cael ei gynnal yn y flwyddyn i ddod am yr hyn y gellir ei ddysgu yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru o'r pandemig. Bydd canfyddiad adolygiad John Bolton dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith hwn. Gwnaed gwaith pellach ar sefydlu sianeli cyfathrebu cliriach gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol priodol. Mae'r Gwasanaeth Prawf wedi arwain ymarferiad mapio ynghylch meysydd diddordeb cyffredin ac ar y cyd. Mae systemau bellach ar waith i rannu ac amlygu unrhyw wybodaeth berthnasol i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol o'r partneriaethau a'r fforymau hyn.

## Bwrdd Diogelu Iau

ae Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gefnogi Bwrdd Diogelu Iau Rhanbarthol (CADW), wedi'i hwyluso gan Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru. Mae'r Grŵp hwn wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn ac mae wedi hen ennill ei blwyf yn y rhanbarth. Mae'r Swyddog Datblygu Busnes yn y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn arwain y gwaith hwn ar ran y Bwrdd Rhanbarthol, gan weithio ochr yn ochr â gweithwyr TGP sy'n cydlynu'r cyfarfodydd rhanbarthol. Bydd cryfhau a datblygu'r gwaith hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn 2021-22.




*Llun o gyfarfod Zoom CADW gan un o'i aelodau ymroddedig*

Mae cyfarfodydd CADW wedi parhau i gael eu cynnal yn rheolaidd trwy Zoom trwy gydol y cyfnod clo. Er clod i'r bobl ifanc, maent wedi dangos creadigrwydd a gwytnwch rhyfeddol trwy gydol y cyfnod hynod heriol hwn, gan gadw ffocws clir a pharhau i gyflawni yn erbyn eu cynllun gwaith. Gweler adran J am fwy o fanylion am waith y bobl ifanc eleni.

Darn allweddol o waith eleni fu datblygu fideo / animeiddiad hyfforddi a fydd, pan fydd wedi'i gwblhau, yn cael ei gynnwys mewn hyfforddiant diogelu ymarferwyr amlasiantaethol. Mae'r darn hwn o waith wedi'i gomisiynu iddynt gan yr Is-Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol. Mae cynrychiolwyr wedi parhau i fynychu a chymryd rhan yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn rhithwir, ac mae Byrddau Iau lleol yn mewnbynnu ac yn mynychu Grwpiau Gweithredol Lleol yn rheolaidd i rannu eu pryderon a'u profiadau o arfer diogelu.

## Gwell cyfathrebu ag ymarferwyr

Mae profforma ar gyfer cylchlythyr y Bwrdd wedi'i ddatblygu o fewn yr Uned Fusnes a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol, a bydd yn cael ei lansio yn y flwyddyn i ddod. Bydd rhestr ddosbarthu bwrpasol o ymarferwyr yn cael ei chreu i gynnwys partneriaethau a grwpiau gwirfoddol lleol, a'r bwriad yw y bydd




*Templed cylchlythyr*

hon yn cael ei dosbarthu'n eang ar draws y rhanbarth cyfan yn uniongyrchol i ymarferwyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae dosbarthu negeseuon 7 munud yn rheolaidd ar faterion diogelu, polisi, deddfwriaeth, a negeseuon allweddol o Adolygiadau Ymarfer sydd wedi'u cyhoeddi wedi cyfrannu hefyd at ledaenu ein neges a'n cyfathrebu gwell ag ymarferwyr. Mae rhai themâu a negeseuon sydd wedi'u lledaenu eleni yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am sgamiau a cham-drin domestig mewn ymateb i bryderon cynyddol yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol am oedolion sydd mewn perygl. Mae negeseuon eraill a ddosbarthwyd yn eang yn cynnwys gwybodaeth am radicaleiddio, llinellau cyffuriau, anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM) a diogelu cyd-destunol.

> **Adborth o'r Diwrnod Datblygu**
>
> *Mae sesiynau briffio 7 munud yn cael derbyniad da. Gallwn fod yn hyderus iawn fod gwybodaeth yn cael ei derbyn*




*Briff 7 Munud (Trosolwg o'r Bwrdd)*

Mae'r Byrddau wedi ceisio codi ymwybyddiaeth o'u gwaith gydag ymarferwyr trwy amrywiaeth o sianeli. Buddsoddwyd adnoddau pellach i wella cynnwys gwefan y Byrddau, ac mae'r Hwb Adnoddau a ddatblygwyd y llynedd wedi'i boblogi ymhellach â gwybodaeth i'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys tudalen sydd wedi'i neilltuo'n benodol i bandemig COVID-19 ac adnoddau i ymarferwyr ar gyfer cam-drin plant a chamfanteisio'n rhywiol arnynt. Mae gwefan y Byrddau hefyd yn cynnwys dolenni i wefannau perthnasol eraill a fforymau defnyddiol, gan gynnwys y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Datblygwyd tudalen benodol i'r Bil Plant yng Nghymru (Diddymu'r Amddiffyniad o Gosb Resymol) i helpu i gefnogi a pharatoi ymarferwyr cyn y newid yn y gyfraith yng Nghymru ym mis Mawrth 2022.

## Hyrwyddo gwell cyfathrebu wedi'i dargedu â'r cyhoedd, gan gynnwys ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd

Trwy gydol y flwyddyn, mae nifer o ymgyrchoedd penodol sy'n defnyddio amrywiol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Byrddau wedi'u cynnal yn llwyddiannus, wedi'u cysylltu â themâu diogelu penodol gan gynnwys hyrwyddo diwrnodau o arwyddocâd ac ymgyrchoedd a nodwyd yn genedlaethol. **Ymhlith yr enghreifftiau mae:**

- Diwrnod Ymwybyddiaeth Stelcio
- Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Ymgyrch 'Stop it Now' CSA
- Ymgyrch 'Get Safe Online'
- Ymgyrch 'Home Shouldn't Be a Place of Fear'
- Diwrnod Atal Hunanladdiad y Byd
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
- 16 Diwrnod o Weithredu VAWDASV
- Wythnos Cwsg Mwy Diogel

Fel ymateb uniongyrchol i bryderon mewn perthynas â gostyngiad sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd yn dilyn y cyfnod clo cenedlaethol, comisiynwyd a datblygwyd hysbyseb radio i annog reportio gan aelodau'r cyhoedd a allai fod â phryderon am les plentyn neu oedolyn. Darlledwyd hyn ar draws yr holl orsafoedd radio lleol yn y rhanbarth a hyrwyddodd neges ymateb 'busnes fel arfer' gan holl bartneriaid y Bwrdd.

Roedd y neges sylfaenol yn rhoi sicrwydd y byddai pob adroddiad o bryderon a dderbynnir mewn perthynas ag unrhyw blentyn neu oedolyn a allai fod mewn perygl yn cael ymateb yn y ffordd arferol, ac nad oedd yr heriau oedd yn gysylltiedig â mesurau'r cyfnod clo a chadw pellter cymdeithasol a roddwyd ar waith wedi amharu o gwbl ar ansawdd yr ymyrraeth gan asiantaethau.

Cynhaliwyd gweithgaredd hyrwyddo eang hefyd ledled y rhanbarth fel rhan o Wythnos Genedlaethol Diogelu 2020, wedi'i gysylltu'n benodol â thema ranbarthol y Byrddau sef iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol. Roedd y cyfyngiadau a roddwyd ar bob Bwrdd oherwydd gofynion cadw pellter cymdeithasol yn gyfle i wneud gwell defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i ledaenu negeseuon allweddol i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.

Yn hynny o beth, cynhaliwyd ymgyrch ddyddiol hynod lwyddiannus trwy gydol yr Wythnos Diogelu Genedlaethol, gan hyrwyddo thema wahanol bob dydd yn gysylltiedig ag iechyd meddwl cadarnhaol, gan gynnwys buddion natur a chwsg. O ganlyniad, cyrhaeddodd tudalen Facebook CYSUR y nifer uchaf erioed o 8,000 o ddefnyddwyr ar gyfer ei bost mwyaf poblogaidd.



*Diwrnod Ymwybyddiaeth Stelcio Post Facebook CYSUR*

## Pa ganlyniadau rydyn ni wedi'u cyflawni a pha wahaniaeth rydyn ni wedi'i wneud:

- Mae llais plant a phobl ifanc yn parhau i ddylanwadu'n uniongyrchol ar flaenoriaethau'r Byrddau
- Bellach mae ymarferwyr yn fwy gwybodus am y Byrddau a'u gwaith
- Mae mwy o hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â negeseuon diogelu allweddol wedi gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch plant ac oedolion a allai fod mewn perygl

## Beth sy'n rhaid i ni ei wneud o hyd:

- Datblygu gwaith lleol a wnaed mewn perthynas ag ymgysylltu ag oedolion sydd mewn perygl a'i ddatblygu yn fframwaith rhanbarthol strategol ehangach

## 2. Dysgu Thematig a Datblygu Arfer Gorau:

Sicrhau Ymagwedd Thematig at Ddysgu a Gwerthuso Effaith Barhaus Gwaith y Bwrdd dros Amser, Caniatáu i Themâu Allweddol a Nodwyd lywio Blaenoriaethau Strategol. Parhau i Ddatblygu a Rhannu Arfer Gorau.

### Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud:

- Cryfhau ein prosesau Adolygu Ymarfer rhanbarthol a FfPA/MAPF
- Adolygu a gwella'r modd y ffurfir ein Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Adolygu Ymarfer
- Cynyddu nifer y FfPA/MAPFs a wneir ledled y rhanbarth
- Rhannu dysgu a gwersi thematig
- Parhau i gyflawni yn erbyn ein Strategaeth Hyfforddiant ranbarthol a chomisiynu hyfforddiant amlasiantaethol

### Pa welliannau rydym wedi'u gwneud:

#### Cryfhau ein prosesau Adolygu Ymarfer rhanbarthol a FfPA/MAPF

Mae mecanweithiau cadarn ar waith i gefnogi prosesau Adolygu Ymarfer o fewn strwythurau'r Byrddau, ac mae hyn bellach yn rhan o'n busnes craidd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r Is-grwpiau Ymarfer Plant ac Oedolion rhanbarthol yn parhau i weithredu i safon uchel. Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r ddau grŵp wedi parhau i gynyddu, a dechreuwyd sawl Adolygiad Ymarfer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r broses a'r fforwm FfPA/MAPF rhanbarthol. Pwrpas y fforwm yw hyrwyddo a chefnogi rhaglen barhaus o ddysgu gweithredol ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, cynnal goruchwyliaeth o ddigwyddiadau dysgu am achosion a lledaenu gwybodaeth, yn ogystal ag archwilio dysgu o archwiliadau, arolygiadau, adolygiadau ac ymchwil. Yn dilyn yr adolygiad proses hwn, gwnaed penderfyniad i gyfuno'r gwaith hwn â'r Is-grwpiau Adolygu Ymarfer rhanbarthol i gryfhau goruchwyliaeth ranbarthol ar pryd maent yn cael eu dechrau a'u cwblhau.

#### Adolygu a gwella'r modd y ffurfir ein Cynlluniau Gweithredu Adolygu Ymarfer

n ystod y flwyddyn ddiwethaf, oherwydd rhai heriau o ran olrhain a monitro pwyntiau dysgu yn deillio o Adolygiadau Ymarfer, mae templed cynllun gweithredu newydd wedi'i ddatblygu a'i weithredu.

Mae pwrpas yr ailgynllunio hwn yn ddeublyg; symleiddio ac ailffocysu'r gwaith o fonitro gweithredoedd o safbwynt gweinyddol er mwyn sicrhau bod unrhyw ganlyniadau dysgu yn haws i asiantaethau adrodd yn eu herbyn, a chreu cynllun sy'n pwysleisio perchnogaeth ac atebolrwydd gweithredoedd i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

**CYSUR X 20XX (Area Concise/Extended Child/Adult Practice Review)**
Brief description of the case
Action Plan approved 1st January 20XX
Click here to view the report

| LEARNING POINT | RECOMMENDATION | ACTION | RESPONSIBLE LEAD | TIMESCALE | AGENCY RAG: Cered | AGENCY RAG: Carms (Hywel Dda) | AGENCY RAG: Pembs (Hywel Dda) | AGENCY RAG: Powys (PTHB) | OVERALL RAG | COMMENTS/PROGRESS | DATE OF COMPLETION | QA MONITORING |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Learning Point | 1. Recommendation | 1.1 Action | LOGs | Mar-21 | On Track | Not Started | Underway | Not Started | Not Started or On Hold | | | |
| | | 1.2 Action | LOGs | Jun-21 | Complete | Not Started | Underway | Not Started | Not Started or On Hold | | | |
| | | 1.3 Action | LOGs | Mar-21 | Complete | Not Started | Underway | On Track | Not Started or On Hold | | | |
| | | 1.4 Action | LOGs | Jun-21 | Complete | Not Started | Underway | Not Started | Not Started or On Hold | | | |
| 2. Learning Point | 2. Recommendation | 2.1 Action | Health Boards | Mar-21 | Underway | | | Underway | Underway | | | |
| | | 2.2 Action | Health Boards | Jun-21 | Underway | | | Underway | Underway | | | |
| | | 3.1 Action | Regional Training Sub Group | Mar-21 | Complete | | | | Complete | | | |

*Templed Cynllun Gweithredu CYSUR*

ae'r math newydd hwn o gynllun wedi derbyn adborth cadarnhaol yn y rhanbarth, ac mae hefyd wedi'i rannu fel enghraifft o arfer da gyda Grŵp Hyfforddi a Dysgu yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl cenedlaethol, ac mae'n cael ei ystyried i'w ddefnyddio fel templed ar gyfer profforma cenedlaethol i gynorthwyo'r gwaith hwn.


## Cynyddu nifer y FfPA/MAPFs a wneir ledled y rhanbarth

Cymeradwyodd y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ffurfio grŵp FfPA/MAPF rhanbarthol ym mis Hydref 2017. Ers hynny, mae'r fforwm wedi cyfarfod ddwywaith y flwyddyn a than yn ddiweddar, fe'i mynychid gan arweinwyr diogelu rhanbarthol amlasiantaethol yn cynnwys oedolion a phlant. O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, roedd angen cael hiatws 12 mis mewn cyfarfodydd. Er bod diwylliant o rannu arfer da yn bodoli ledled y rhanbarth, mae'r modd mae FfPA/MAPFs yn gweithredu wedi arafu, gyda rhai ardaloedd yn y rhanbarth yn cael trafferth i gyrraedd targedau y cytunwyd arnynt yn rhanbarthol eleni.

Mae pandemig COVID-19, a'r angen i ganolbwyntio ar flaenoriaethau eraill, wedi cyfrannu'n sylweddol at hyn, ond mae pwysau ar adnoddau ac amser hefyd wedi ychwanegu at yr her hon. Beth bynnag am hyn, mae'r  dull o weithredu wedi cyflymu yn ystod y misoedd diwethaf ac mae nifer o FfPA/MAPFs wedi symud ymlaen a chwblhau eu gwaith. Mae uno'r fforwm hwn â'r Is-grwpiau CPR / APR fel yr amlinellwyd uchod wedi gwella'r gwaith o fonitro rhanbarthol a goruchwylio cynnydd, ac mae cynllun clir ar waith bellach i symud ymlaen ag unrhyw MAPFs sydd wedi'u gohirio ac sydd heb eu cwblhau.

## Rhannu dysgu a gwersi thematig

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, comisiynodd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ymgynghorydd annibynnol i gynnal adolygiad thematig o'r themâu a'r negeseuon allweddol sydd wedi codi o adolygiadau cenedlaethol, yn ogystal â CPR / APRs a FfPA/MAPFs yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg o'r gwaith hwn, gan gynnwys yr angen i rannu gwybodaeth yn well ar draws asiantaethau, tystiolaeth o gydymffurfiad cudd a'r angen i ymarferwyr ddangos chwilfrydedd proffesiynol mewn gwaith achos. Dosbarthwyd y negeseuon a'r gwersi o'r gwaith hwn trwy nifer o seminarau ymarferwyr




*Taflen Hyfforddiant Adolygu Thematig yn cynnwys Barbara Firth*

a rheolwyr amlasiantaethol a gynhaliwyd ledled y rhanbarth fel rhan o weithgareddau'r Wythnos Ddiogelu Genedlaethol a thu hwnt ym mis Tachwedd 2020 a dechrau 2021. Cyflwynwyd canfyddiadau ac adborth staff i aelodau'r Bwrdd Gweithredol, ac mae themâu perthnasol wedi ymddangos yng nghynllun strategol blynyddol eleni. Mae rhai seminarau i ymarferwyr a rheolwyr pwrpasol lleol wedi'u cyflwyno ar lwyfannau rhithwir i gynulleidfaoedd amlasiantaethol yn dilyn cyhoeddi Adolygiadau Ymarfer, gydag un digwyddiad ym Mhowys wedi'i gyflwyno i 120 o ymarferwyr o sawl disgyblaeth ac asiantaeth. Mae'r system a'r prosesau sydd ar waith o fewn strwythurau'r Byrddau yn sicrhau bod unrhyw themâu allweddol yn cael eu rhannu'n awtomatig mewn modd amserol gan yr Is-grwpiau Polisïau a Gweithdrefnau a Hyfforddiant rhanbarthol. Mae mecanweithiau'n bodoli o fewn strwythurau'r Byrddau i sicrhau bod unrhyw adolygiadau a gyhoeddir gan Fyrddau eraill, ac unrhyw ymchwil genedlaethol gysylltiedig berthnasol, yn cael eu rhannu'n brydlon gyda phartneriaid.

## Cynnydd yn erbyn y Strategaeth Hyfforddi Ranbarthol a hyfforddiant amlasiantaethol

Mae Strategaeth Hyfforddiant Ranbarthol Pob Oed Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i ddarparu fframwaith i gynorthwyo asiantaethau partner i gyflawni eu cyfrifoldebau ar y cyd fel aelodau o'r Bwrdd Diogelu, fel yr amlinellir yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.




Mae hyn wedi gosod y seiliau ar gyfer parhau â gwaith amlasiantaethol uchelgeisiol a chydweithredol. Mae'r cynllun gweithredu 3 blynedd cysylltiedig yn parhau i gael ei ddatblygu trwy'r Is-grŵp Hyfforddi rhanbarthol. Er i grwpiau tasg a gorffen rhanbarthol sy'n gweithredu'r cynllun hwn gael eu hatal y llynedd oherwydd effaith y pandemig, mae'r strategaeth yn parhau i fod yn ddogfen weithredol ac yn ffocws i'r Is-grŵp rhanbarthol. Mae nifer o ddigwyddiadau hyfforddi amlasiantaeth wedi'u cyflawni'n llwyddiannus eleni, ac mae mwy o wybodaeth mewn perthynas â'r digwyddiadau hyn o dan adran L.

## Pa ganlyniadau rydyn ni wedi'u cyflawni a pha wahaniaeth rydyn ni wedi'i wneud:

- Mae'r dulliau ar gyfer rhannu gwersi ag ymarferwyr wedi'u cryfhau, ac mae dysgu gan ymarferwyr wedi'i ehangu a'i gyfoethogi
- Mae'r prosesau i gefnogi'r broses FfPA/MAPF ranbarthol wedi'u cryfhau
- Mae adroddiadau asiantaeth yn erbyn cynlluniau gweithredu adolygiadau ymarfer wedi gwella oherwydd bod eu ffurf wedi gwella

## Beth sy'n rhaid i ni ei wneud o hyd:

- Cwblhau unrhyw FfPA/MAPFs sy'n weddill
- Argymell grwpiau tasg a gorffen hyfforddiant rhanbarthol i gwblhau gweithredoedd sydd heb eu cwblhau yn erbyn Cynllun Cyflawni Strategaeth Hyfforddiant Ranbarthol Pob Oed Canolbarth a Gorllewin Cymru

# 3. Cryfhau'r Gweithlu a Rheoli Risg:

Datblygu a Gweithredu Mentrau Strategol a fydd yn Galluogi Cadw Mwy o Weithwyr a Recriwtio i'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol, a Nodi ac Ymateb i Risgiau Sylweddol Eraill yn yr Arena Diogelu.

## Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud:

- Dyfeisio a gweithredu strategaethau ar draws asiantaethau sy'n cynyddu cadw aelodau'r gweithlu
- Sicrhau bod strategaethau recriwtio a llwybrau gyrfa effeithiol ar waith i sicrhau staff diogelu medrus
- Sicrhau bod llwybrau mynediad ar gyfer rolau diogelu yn ei gwneud yn bosibl i recriwtio staff medrus, gan ganolbwyntio'n benodol ar fentrau "tyfu eich staff eich hun" a chynlluniau noddi staff
- Cefnogi sefydlogrwydd ar draws yr holl asiantaethau ar lefel Bwrdd sy'n gallu gwrthsefyll cyfnodau o ansefydlogrwydd
- Sicrhau bod risg yn cael ei nodi'n brydlon mewn perthynas â lefelau staffio ar lefel leol a rhanbarthol mewn perthynas â chartrefi gofal a nyrsio a darpariaeth gofal cartref
- Dyfeisio teclyn dangosfwrdd rhanbarthol i fonitro gwasanaethau a chefnogi'r gwaith o adnabod ac uwchgyfeirio risg
- Cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr trwy arweiniad polisi clir a chyfleoedd datblygu
- Cydnabod arfer diogelu rhagorol

## Pa welliannau rydym wedi'u gwneud:

### Y Gweithlu

Cymerwyd camau i gryfhau'r gweithlu mewn ardaloedd a allai fod yn fregus ledled y rhanbarth. Mae strategaethau i gefnogi gwell recriwtio a chadw staff wedi cael eu symud ymlaen trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, sy'n arwain ynghylch y llif gwaith hwn, ac y mae gan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol gysylltiadau cryf â hwy. Mae gan bob un o'r pedwar Awdurdod Lleol yn y rhanbarth strategaethau recriwtio mewnol ar waith i gefnogi model recriwtio a chadw ar gyfer staff gofal cymdeithasol sy'n gynaliadwy yn y tymor hir.

### Ymarferiad recriwtio, mentrau tyfu eich staff eich hun a chysylltiadau â Phrifysgolion

Mae mentrau a chynlluniau tyfu eich staff eich hun ar waith ledled y rhanbarth. Mae Cyngor Sir Powys, er enghraifft, wedi buddsoddi'n helaeth yn y maes hwn mewn ymdrech i ddatrys yr heriau recriwtio yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi llwyddo i recriwtio hyfforddeion gwaith cymdeithasol ychwanegol. Er enghraifft, cynigiwyd gradd Prifysgol Agored noddedig i 11 aelod staff ar draws Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Yn 2021, cynigir 12 lle, a bydd y rhai a ddewisir yn cael cyflog gweithiwr cymorth ac yn cael ffioedd y cwrs wedi'u talu. Cydnabuwyd y cynnydd a'r ymdrechion a wnaed fel rhan o arolygiad diweddar ym Mhowys gan AGC (CIW).


> Adborth o Arolygiad AGC ar Bowys:
>
> *Mae buddsoddiad yr Awdurdod Lleol yn natblygiad proffesiynol ei weithlu... yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd*

Mewn blynyddoedd blaenorol, canolbwyntiwyd sylw yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ar risgiau a nodwyd yn y sector gofal a chartrefi nyrsio a gofal cartref, meysydd yr oedd pobl yn gwybod eisoes eu bod yn rhai bregus, yn enwedig mewn perthynas â recriwtio a chadw staff. Gwnaed cryn dipyn o waith yn rhanbarthol yn y maes hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dan arweiniad y partneriaethau comisiynu rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys datblygu teclyn dangosfwrdd rhanbarthol i fonitro gwasanaethau a chefnogi adnabod ac uwchgyfeirio risg. Fe'i cefnogir gan gynlluniau wrth gefn cadarn y gellir eu gweithredu'n gyflym os bydd cartref preswyl neu gartref nyrsio yn methu, gan roi sicrwydd i breswylwyr ac oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth neu a allai fod mewn perygl, y byddant yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn. Mae datblygu fframwaith uwchgyfeirio pryderon rhanbarthol ymhellach yn helpu i ddarparu ymyrraeth a chefnogaeth amserol i leoliadau preswyl a allai fod yn ei chael hi'n anodd cynnal safonau gofal uchel. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae effaith annisgwyl y pandemig byd-eang wedi dod â heriau annisgwyl ychwanegol yn y maes hwn. Mae llawer o dystiolaeth fod pandemig COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar gartrefi gofal, ac mae gan leoliadau o'r fath gyfran uwch o bobl sydd mewn perygl o gael cymhlethdodau difrifol o ganlyniad i heintiau.  Yn amlwg, mae'r pandemig wedi parhau i roi pwysau penodol ar gartrefi gofal, gan effeithio ar y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.

O ganlyniad, mae cynllun Adferiad COVID-19 rhanbarthol wedi'i ddatblygu gan y cydweithfeydd comisiynu rhanbarthol. Mewn ysbryd o weithio amlasiantaethol cydweithredol, mae'r cynllun wedi canolbwyntio ar faterion lle mae dull rhanbarthol cyson yn cael ei nodi fel un y mae angen amdano. Mae rhan o'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar gynnal gweithlu cynaliadwy, gyda ffocws penodol ar ddatblygu strategaeth gweithlu ranbarthol. Er mwyn gwella sefydlogrwydd a gwytnwch y sector, cynhaliwyd asesiad cychwynnol o sefydlogrwydd y farchnad mewn perthynas â chartrefi gofal. Mae hyn wedi blaenoriaethu cartrefi gofal i bobl hŷn i ddechrau, gan y cydnabyddir mai'r rhain a brofodd yr effaith fwyaf yn ystod y pandemig. I grynhoi, mae cynlluniau effeithiol ar waith ledled y rhanbarth i gefnogi a chynnal gweithlu iach tymor hir ac i ymdrin â, a monitro, heriau ychwanegol mewn meysydd sydd mewn perygl, sydd wedi dod o dan bwysau ychwanegol trwy gydol pandemig COVID-19.

## Cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr trwy arweiniad polisi clir a chyfleoedd datblygu

Yn dilyn archwiliad ac adolygiad rhanbarthol a gynhaliwyd i arfer adran 47 rhanbarthol y llynedd, cynhaliwyd diwrnod datblygiad proffesiynol amlasiantaethol i wneud gwaith. Oherwydd cyfyngiadau COVID parhaus, cynhaliwyd y digwyddiad yn rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams. Hwyluswyd y digwyddiad gan ymgynghorydd annibynnol, gyda rheolwyr gweithredol o'r holl asiantaethau statudol ac aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan. Nod y diwrnod oedd rhoi cyfle i ystyried deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru,




*Sleid teitl digwyddiad Diwrnod Datblygu Adran 47*

adrannau perthnasol o Ddeddf Plant 1989 a pholisïau a gweithdrefnau rhanbarthol CYSUR mewn perthynas â phrosesau Adran 47. Roedd hyn yng ngoleuni'r anghysondebau sylweddol ymddangosiadol yn nangosyddion y fframwaith perfformiad rhanbarthol, mewn perthynas â throthwyon ac arfer Adran 47 ar draws y rhanbarth. Roedd cyfle hefyd i gyfranogwyr ystyried arfer gorau, deall pwysigrwydd asesiadau risg effeithiol a chymhwyso gwybodaeth ac arfer lleol wrth drafod sawl enghraifft o achosion 'go iawn'.

Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr, gyda rhyngweithio da gan y rhai a ymunodd â'r sesiwn. Roedd y dechnoleg yn galluogi pawb i gymryd rhan o bell, ac roedd y sesiynau ymneilltuo yn caniatáu i drafodaethau grŵp bach gael eu cynnal yn canolbwyntio ar sut y byddai'r cyfranogwyr yn ymateb i sawl senario o blith yr achosion. Cyflwynwyd y rhain gan ystod o ymarferwyr cyn y digwyddiad, ac roeddent yn ddefnyddiol yn ymdrin ag ystod lawn o bryderon a oedd yn cynrychioli gwahanol lefelau o anghenion fel y nodwyd hwy yn y canllaw trothwy rhanbarthol. Roedd canlyniad a chasgliadau'r diwrnod yn cyfateb â chanfyddiadau'r adolygiad a'r archwiliad blaenorol, ac yn cyflwyno darlun calonogol parhaus o arfer proffesiynol ar draws y rhanbarth. Nid oedd hyn yn dangos gwahaniaeth enfawr neu anghymesur mewn dull nac ymarfer. Roedd yn amlwg bod y cyfranogwyr hynny a gymerodd ran yn y diwrnod datblygu yn glir ynghylch beth yw 'niwed sylweddol', roeddent yn deall rolau gwahanol asiantaethau wrth gyfrannu at asesu risgiau a beth i'w wneud os oeddent yn teimlo nad oedd pryderon yn cael sylw priodol. Nid oedd unrhyw beth i awgrymu bod unrhyw un o'r asiantaethau o wahanol ranbarthau yn gweithredu y tu allan i'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt, nac yn arddangos penderfyniadau neu arfer a oedd yn anniogel neu'n anghymesur. Oherwydd llwyddiant y digwyddiad hwn, mae'r Byrddau wedi cytuno i gynnal digwyddiadau thematig tebyg sy'n berthnasol i ymarfer yn flynyddol.

Mae'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau rhanbarthol wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn, gyda nifer o brotocolau a pholisïau wedi'u datblygu i gynorthwyo ymarferwyr i gyflawni eu rolau. Yn ogystal â chwblhau nifer o bolisïau (gweler adran F am wybodaeth bellach), mae gwaith datblygu ac ymgynghori sylweddol wedi digwydd mewn perthynas â'r gwaith rhanbarthol ar ymddygiadau risg uchel a hunan-esgeuluso. Bydd hwn yn cael ei gwblhau yn y flwyddyn i ddod gyda chynllun i lansio'r gwaith hwn yn ffurfiol fel rhan o Wythnos Genedlaethol Diogelu 2021.

## Pa ganlyniadau rydyn ni wedi'u cyflawni a pha wahaniaeth rydyn ni wedi'i wneud:

- Mae gennym gynlluniau clir ar waith i gefnogi arferion cadarn i recriwtio a chadw staff ac rydym yn deall lle mae ein gwendidau.
- Mae'r ymatebion i heriau ychwanegol o fewn y gweithlu ddaeth yn sgil pandemig COVID-19 wedi bod yn amserol, yn gymesur ac yn gydweithredol, gan sicrhau mesurau diogelwch digonol i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.
- Rhoddir sicrwydd bod ymarfer proffesiynol mewn perthynas â phlant sydd mewn perygl yn ddiogel, a bod y rhai sydd mewn perygl yn cael eu gwarchod a'u diogelu'n briodol.

## Beth sy'n rhaid i ni ei wneud o hyd:

- Datblygu seremoni wobrwyo staff amlasiantaethol flynyddol sy'n nodi ac yn cydnabod arfer a chyflawniad diogelu rhagorol.

# 4. Arweinyddiaeth, Gwelededd a Her:

Parhau i Ddarparu Arweinyddiaeth Weladwy a Dylanwadu ar yr Agenda Genedlaethol mewn perthynas â Blaenoriaethau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Galluogi Her Adeiladol ac Ymgysylltu Gweithredol gan bob Asiantaeth yn ein Partneriaeth.

## Yr hyn y dywedasom y byddem yn ei wneud:

- Gwneud gwell defnydd o dechnoleg ac atebion digidol
- Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru mewn ffordd sy'n gyson ac yn cydymffurfio yn rhanbarthol
- Cefnogi Grwpiau Gweithredol Lleol i uwchgyfeirio risg
- Parhau i weithio a chydweithio â Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a fforymau eraill ar faterion o bwysigrwydd cenedlaethol

## Pa welliannau rydym wedi'u gwneud:

### Gwell defnydd o dechnoleg ac atebion digidol


Mae gofynion pellhau cymdeithasol a gyflwynwyd fel rhan o'r pandemig byd-eang ym mis Mawrth 2020, er eu bod yn heriol, hefyd wedi creu cyfleoedd ar gyfer hyblygrwydd a chreadigrwydd o ran y ffordd y mae'r Byrddau rhanbarthol yn gwneud eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae maint daearyddol rhanbarth Canolbarth Cymru wedi cyflwyno heriau hirsefydlog i sefydliadau partner, yng nghyd-destun y gofynion ar amser a'r pellteroedd y mae'n rhaid eu teithio i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol.

> Adborth o'r Diwrnod Datblygu:
> *Gall cyfarfodydd rhithwir wella cysylltedd a chyfleoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth a dysgu. Gall staff ganolbwyntio mwy ar y cyfarfodydd heb y pwysau teithio ychwanegol.*

Er bod cyfleusterau cynadledda fideo wedi cael eu defnyddio ers blynyddoedd lawer i alluogi cydweithwyr i fynychu eu cyfarfodydd lleol, mae'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig wedi arwain at ddarparu a hwyluso'r holl gyfarfodydd rhanbarthol yn rhithwir. Mae hyn yn cynnwys holl gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol, cyfarfodydd Gweithredol COVID, Is-grwpiau'r Bwrdd, Grwpiau Gweithredol Lleol, cyfarfodydd y Panel Adolygu Ymarfer, a grwpiau tasg a gorffen. Erbyn hyn, barn gyfunol asiantaethau partner yw bod buddion defnyddio'r dull hwn o weithio yn gorbwyso unrhyw heriau neu anfanteision cysylltiedig, a hynny o bell ffordd. Yn ogystal â buddion sylweddol o ran rheoli amser a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, mae cyflymder y modd mae'r dechnoleg hon wedi galluogi'r rhanbarth a'i bartneriaid i ymateb i frys y pandemig wedi'i gydnabod yn eang, a gellir gweld tystiolaeth glir ohono yng ngwaith ac allbwn y Byrddau eleni. Mae'n debygol y bydd y ffordd hon o weithio yn parhau ar gyfer llawer o fusnes beunyddiol y Byrddau a llawer o'i ffrydiau gwaith, a fydd yn parhau i gyfrannu at ddarparu gwaith diogelu yn fwy effeithlon ac effeithiol ledled y rhanbarth yn y flwyddyn i ddod.

## Gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru mewn ffordd sy'n gyson ac yn cydymffurfio yn rhanbarthol

Buddsoddwyd cryn dipyn o amser ac adnoddau i weithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru eleni. Mae nifer o weithdai amlasiantaethol wedi'u darparu ledled y rhanbarth, wedi'u goruchwylio gan grŵp tasg a gorffen rhanbarthol pwrpasol. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru bellach wedi'u hymgorffori mewn arferion diogelu bob dydd ac yn cael eu defnyddio'n helaeth gan staff amlasiantaethol ledled y rhanbarth. Mae'r grŵp tasg a gorffen wedi cefnogi a goruchwylio dehongliad a gweithrediad rhanbarthol cyson o'r Gweithdrefnau. Cyfeiriwch at adran L am ragor o wybodaeth mewn perthynas â hyfforddiant a dysgu.




*Cyfarfod Microsoft Teams i drafod cyflwyno hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Cymru ledled y rhanbarth*

## Parhau i weithio a chydweithio â Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a fforymau eraill ar faterion o bwysigrwydd cenedlaethol

Blaenoriaeth y Byrddau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn anochel fu'r ymateb i bandemig byd-eang COVID-19. Er bod pob asiantaeth wedi bod yn gyfrifol ac yn atebol am eu cynlluniau a'u hymatebion unigol, mae'r Byrddau Rhanbarthol wedi arwain a llywio asiantaethau lle bu angen ymateb ar y cyd, cydweithredol ar faterion pwysig i'r ddwy ochr. Mae cadeiryddion Byrddau CYSUR a CWMPAS a Rheolwr y Bwrdd Rhanbarthol wedi mynychu a chymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd a fforymau ffurfiol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol mewn ymateb i'r llu o heriau brys ac annisgwyl sy'n gysylltiedig â'r pandemig. Mae'r fforymau hyn wedi rhoi cyfle i Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru rannu a hyrwyddo rhai arferion da ac enghreifftiau creadigol o'r gwaith a wneir yn y rhanbarth hwn, gan gynnwys y protocol cynyddu risg ar gyfer cartrefi gofal a nyrsio.

## Plant a Addysgir yn Ddewisol yn y Cartref (EHE)

Ystyriwyd bod cyhoeddi canllaw statudol drafft ar gyfer plant a Addysgir yn Ddewisol yn y Cartref yn 2019 gan Lywodraeth Cymru yn un o gyflawniadau tymor hir allweddol y Byrddau, ar ôl sawl blwyddyn o waith yn y rhanbarth hwn i dynnu sylw at yr angen am ddeddfwriaeth gryfach yng Nghymru ar gyfer y grŵp hwn o blant. Fodd bynnag, roedd Bwrdd Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn siomedig iawn gyda phenderfyniad dilynol Llywodraeth Cymru i atal cyhoeddi'r canllaw hwn yn ffurfiol yn 2020, gan nodi heriau mewn perthynas â COVID-19 fel y rheswm am hyn. Fel Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol, rydym wedi croesawu penderfyniad Comisiynydd Plant Cymru i ddefnyddio ei phwerau statudol i adolygu gweithredoedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r mater polisi hwn. Er ein bod yn derbyn yr heriau a'r galwadau a roddwyd ar Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r pandemig, ein barn ar y cyd yw bod hwn yn fater a ddylai aros ar yr agenda, er gwaethaf her ychwanegol COVID-19. Yn wir, rydym yn gweld hwn fel mater sy'n mynd at graidd hawliau dynol plant yng Nghymru ac sy'n un na ddylid ei oedi mwyach. Mae'r cynnydd sylweddol yn nifer y plant a addysgir yn ddewisol yn y cartref ar draws y rhanbarth trwy gydol y pandemig, a'r pryderon

cysylltiedig ynghylch ynysu a gwelededd plant i weithwyr proffesiynol, yn ychwanegu pwysau at y farn hon. Bydd gwaith yn parhau yn y flwyddyn i ddod i gefnogi'r angen i gyhoeddi'r canllawiau cenedlaethol hanfodol hyn y mae mawr angen amdanynt. Mae cyhoeddi Adolygiad Ymarfer Plant pellach, CYSUR 6 2018, yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Tachwedd 2020, gydag addysg ddewisol yn y cartref fel thema gref, yn cefnogi ymhellach yr angen i gryfhau trefniadau diogelu ar gyfer y grŵp hwn o blant yng Nghymru.

## Prinder gwelyau mewn llety diogel yng Nghymru

Yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig CYSUR 2 2018, mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ceisio tynnu sylw at brinder gwelyau mewn llety diogel yng Nghymru. Mae'r amgylchiadau'n ymwneud â marwolaeth drasig merch ifanc 18 oed a oedd wedi bod â chysylltiad helaeth gyda sawl asiantaeth trwy gydol ei phlentyndod, ac yn y misoedd cyn ei marwolaeth, roedd wedi bod ar y gofrestr amddiffyn plant a'r Plant sy'n Derbyn Gofal. Amlygodd yr adolygiad nifer o faterion cymhleth y mae gweithwyr proffesiynol yn eu hwynebu wrth gefnogi pobl ifanc ag anghenion lluosog a chymhleth. Yn ogystal â nodi sawl maes o arfer da, amlygwyd diffygion sylweddol o ran argaeledd ac o ran darparu lleoliadau sy'n cynnig llety diogel priodol a dewisiadau amgen priodol i hyn yng Nghymru yng nghanfyddiadau'r arolwg. Fel ymateb uniongyrchol i'r dysgu a nodwyd, cychwynnodd y Byrddau drafodaethau a gohebiaeth ffurfiol ag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, a chadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar y mater hwn. Er y rhoddwyd rhywfaint o sicrwydd ynghylch mentrau sydd ar y gweill yn genedlaethol i ymdrin â'r mater hwn, erys peth rhwystredigaeth bod y cynnydd o ran sicrhau'r ddarpariaeth hon wedi bod yn rhy araf, a bod angen symud yn gyflymach i ymdrin â'r bwlch annerbyniol hwn yn y ddarpariaeth. Bydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cadw llygad barcud ar gynnydd yn y maes hwn fel sy'n briodol yn y flwyddyn i ddod, ac yn parhau i eiriol lle bo hynny'n briodol dros well darpariaeth ar gyfer y grŵp o blant hynod fregus hwn.

## Pa ganlyniadau rydyn ni wedi'u cyflawni a pha wahaniaeth rydyn ni wedi'i wneud:

- Mae gwneud y defnydd gorau o dechnoleg wedi galluogi partneriaid y Bwrdd i ddiwallu anghenion ei ddinasyddion mwyaf agored i niwed ac ymateb i heriau pandemig COVID-19 mewn modd amserol a chydweithredol.
- Gwell effeithlonrwydd a mwy o allbwn o ganlyniad i lai o amser teithio
- Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus ar sail amlasiantaethol gan gynyddu gwybodaeth a sgiliau ymarferwyr ar gyfer ymateb i adroddiadau ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl.

## Beth sy'n rhaid i ni ei wneud o hyd:

- Parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ac eiriol dros yr angen i gryfhau deddfwriaeth, polisi a chanllawiau diogelu cenedlaethol allweddol pan nodir diffygion a bylchau.
- Datblygu cofrestr risg ranbarthol i uwchgyfeirio risg amlasiantaethol lefel uchel i'r Bwrdd Gweithredol
- Sefydlu aelodau newydd i'r Byrddau yn briodol a darparu gwybodaeth mewn perthynas â'u rôl trwy gyfrwng pecyn i aelodau newydd

South East Wales Safeguarding Children Board
Working Together For Children

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
North Wales Safeguarding Board

PAVS

WBSAB
Safeguarding and keeping safe
Western Bay Safeguarding Adult Board

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

CGGSG ~ CAVS

C&VRSAB
Cardiff & Vale of Glamorgan
Regional Safeguarding Adults Board

PAVO
Powys Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

CTSB
CWM TAF SAFEGUARDING BOARD

Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol
Caerdydd a Bro Morgannwg
Cardiff and Vale of Glamorgan
Regional Safeguarding Children Board

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**PWY RYDYM WEDI CYDWEITHIO Â HWY AC WEDI EU CYNNWYS YN EIN CAMAU GWEITHREDU I FODLONI EIN HAMCANION**

- Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill
- Llywodraeth Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru
- Cymdeithasau Sefydliadau Gwirfoddol
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol
- Gofal Cymdeithasol Cymru

Western Bay Safeguarding Children Board
Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
CAVO
Ceredigion Association of Voluntary Organisations

truth project
INDEPENDENT INQUIRY CHILD SEXUAL ABUSE

DYFED-POWYS DIOGEL
SAFER DYFED-POWYS

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership
Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd
Delivering Change Together

Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru Wales
Community Rehabilitation Company
PRAWF PROBATION

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
National Probation Service

Powys

Heddlu Police
DYFED-POWYS

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Cyngor Sir Penfro
Pembrokeshire County Council

GIG Cymru NHS Wales
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
University Health Board

GIG Cymru NHS Wales
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

# (d) Sut rydym wedi cydweithio gyda chyrff eraill sy'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud ag amcanion y bwrdd

## Llywodraeth Cymru

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru (LlC) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, trwy fynychu cyfarfodydd briffio rheolaidd gyda swyddogion y Llywodraeth i drafod gwaith y Byrddau. Eleni, mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd ychwanegol yn ymwneud â phandemig COVID-19, lle mae Cadeiryddion y Bwrdd a Rheolwr y Bwrdd Rhanbarthol wedi cynrychioli'r rhanbarth. Cyfeiriwyd at y cyfraniad y mae Bwrdd Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi'i wneud at ddatrys problemau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r pandemig, er enghraifft, mynediad at PPE ac ymarfer mewn perthynas â rhyddhau cleifion o'r ysbyty i gartrefi gofal, trwy wahanol adrannau o'r adroddiad hwn. Mae materion pellach a nodwyd yn y rhanbarth hwn hefyd wedi'u nodi a'u hadrodd i swyddogion y Llywodraeth; mae hyn yn cynnwys yr angen i hyrwyddo dealltwriaeth glir o briodoldeb o ddefnyddio hysbysiadau peidio â dadebru (DNRs) ymhlith ymarferwyr meddygol, yn ogystal â'r angen i wella dealltwriaeth o gyfrifoldeb Unigolion Cofrestredig mewn cartrefi gofal a chartrefi nyrsio mewn perthynas â'r pandemig.

Mae'r Byrddau hefyd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r prosiect Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, gyda'r nod o ddatblygu un broses adolygu diogelu hollgynhwysol i ddisodli Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, DHRs ac adolygiadau Iechyd Meddwl. Mae nifer o grwpiau wedi'u sefydlu i gyflawni'r darn hwn o waith, a chynrychiolir aelodau'r Bwrdd ar sawl un o'r rhain.
Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i fod yn aelod o'r Grŵp Gweithredu Strategol ar gyfer y Bil Plant yng Nghymru, a elwir hefyd yn Fil Diddymu Amddiffyn Cosb Rhesymol (Cymru). Fel Bwrdd, rydym wedi cefnogi a gweithio'n agos gyda chwmni cysylltiadau cyhoeddus a gomisiynwyd i'r prosiect hwn i gynorthwyo i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r newid sydd ar ddod mewn deddfwriaeth yn y rhanbarth, a gyda Byrddau Diogelu eraill yng Nghymru, gan gynnwys hyrwyddo ymgyrch hysbysebu dros yr haf sydd ar ddod, gan dargedu pobl ar eu gwyliau a allai ymweld â Chymru eleni.

## Comisiynydd Plant Cymru

Mae Cadeirydd CYSUR, Jake Morgan, yn parhau i gysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru ar unrhyw faterion priodol mewn perthynas â lles a diogelu plant yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Fel yr amlinellwyd eisoes, mae trafodaeth a deialog adeiladol wedi digwydd mewn perthynas â meysydd buddiol i'r ddwy ochr, gan gynnwys plant a addysgir yn ddewisol yn y cartref, yn dilyn penderfyniad y Comisiynwyr i gynnal adolygiad ffurfiol i fethiant Llywodraeth Cymru i weithredu i

ddeddfu canllawiau statudol a chyflawni ymrwymiadau blaenorol yn y maes polisi hwn. Ymhlith y meysydd eraill sydd wedi ymddangos mewn trafodaeth a deialog gyda'r Comisiynydd Plant mae'r prinder llety diogel i blant bregus iawn yng Nghymru yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig CYSUR 2 2018, a nododd y diffyg hwn ledled Cymru ac yn y DU.

## Chwaraeon Cymru

Mae gwaith cydweithredol a wnaed yn flaenorol ar brosiect i gwblhau pecyn cymorth ar gyfer grwpiau a chlybiau chwaraeon a hamdden heb fod yn rhai ymgysylltiol wedi cael ei oedi yn ystod y pandemig. Mae hwn yn faes sydd wedi'i amlygu o'r blaen gyda risgiau diogelu cynyddol posibl i blant, yn enwedig oherwydd nad yw'n ofynnol i glybiau gydymffurfio ag unrhyw ofynion a chanllawiau cenedlaethol, fel sy'n wir am chwaraeon rheoledig yng Nghymru. Bydd pecyn cymorth drafft a ddatblygwyd o'r blaen yn cael ei gwblhau ac ymgynghorir yn ei gylch yn ystod y flwyddyn i ddod.

Bydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi arfer diogelu ar gyfer grwpiau heb eu rheoleiddio yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Y gobaith yw y bydd y gwaith hwn yn gosod y sylfeini ar gyfer gwaith cenedlaethol a chanllawiau a gefnogir ac a hyrwyddir gan Chwaraeon Cymru.

## Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Er nad yw Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn bartneriaid statudol nac yn aelodau ffurfiol o Fyrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae cysylltiadau cadarnhaol yn parhau rhwng y ddwy bartneriaeth ranbarthol mewn meysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Mae Rheolwr Diogelu MAWWFR wedi cydweithredu a chefnogi gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu polisi a fframwaith rhanbarthol i reoli ymddygiadau risg uchel a hunan-esgeulustod, ac mae wedi trefnu ymgynghoriad yn fewnol mewn perthynas â'r gwaith hwn. Mae hi'n parhau i fynychu Grwpiau Gweithredol Lleol o bryd i'w gilydd i roi diweddariadau ac ar gyfer eitemau penodol perthnasol ar yr agenda, ac mae wedi cyfrannu lle bo hynny'n berthnasol at gyfarfodydd yr Arweinwyr Diogelu Oedolion rhanbarthol.

## Byrddau Diogelu Rhanbarthol Eraill ledled Cymru

Mae holl Reolwyr y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cwrdd yn rheolaidd i rannu arfer da, trafod meysydd datblygu a nodi tueddiadau diogelu cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau i weithio ar y cyd â Byrddau Diogelu rhanbarthol eraill yng Nghymru i gynllunio Wythnos Genedlaethol Diogelu, gan ddatblygu themâu rhanbarthol i ddosbarthu'r gwaith a rhannu arfer da. Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gael eu cynrychioli ar y bwrdd prosiect cenedlaethol ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ac maent yn chwarae rhan weithredol iawn yn y gwaith o'u gweithredu a'u datblygu yn barhaus.

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

Mae cysylltiadau a chyfathrebu cryf a sefydlwyd gyda Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru wedi'u cryfhau eleni. Mae'r Bwrdd hwn yn parhau i ddatblygu ffrydiau gwaith allweddol sy'n canolbwyntio ar gryfhau a chefnogi'r gweithlu, sy'n cyd-fynd â blaenoriaeth strategol y Byrddau yn y maes hwn.

wwcp
Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
West Wales Care Partnership
Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd
Delivering Change Together

Mae dull cydgysylltiedig yn cael ei ddefnyddio gyda Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru ynghylch y pandemig, gyda gwaith ar y cyd wedi'i gynllunio i adolygu'r gwersi a ddysgwyd yn ystod yr ymateb i COVID-19 ac adferiad ohono. Bydd y gwaith hwn yn rhoi mewnwelediad defnyddiol i'r dysgu sydd ar gael o'r ymateb rhanbarthol, yn ogystal â chryfhau'r berthynas gydweithredol sydd ar waith gyda'r Bwrdd Partneriaeth.

## Gofal Cymdeithasol Cymru

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymgysylltu a gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, sydd wedi cynnal adolygiad o drefniadau amlasiantaethol ar gyfer cyflwyno hyfforddiant diogelu ledled Cymru. Cynrychiolir Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y grŵp datblygu cenedlaethol sy'n arwain ar ddatblygu safonau hyfforddi amlasiantaeth cenedlaethol.

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC/CIW)

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Rydym wedi gweithio gydag AGC i ddarparu gwybodaeth ar gyfer yr amrywiol arolygiadau a gynhaliwyd ledled y rhanbarth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys y gwiriadau sicrwydd cysylltiedig â COVID-19. Yn anochel, mae deialog a gohebiaeth well eleni wedi canolbwyntio'n anochel ar y pandemig, ac mae cadeiryddion y Bwrdd wedi ymateb yn ffurfiol i wybodaeth a sicrwydd mewn perthynas â nifer o faterion yn ymwneud â safonau ac arfer proffesiynol ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal, sy'n cynnwys adroddiadau o lai o fynediad i ofal sylfaenol mewn rhai ardaloedd, carfanu pobl yr amheuid neu y cadarnhawyd eu bod yn dioddef o COVID-19 gyda'i gilydd mewn rhai sefydliadau, ac ymarfer mewn perthynas â gwirio marwolaethau mewn cartrefi gofal.

## Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA)

Mae Bwrdd CYSUR wedi parhau i gefnogi gwaith yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol trwy hyrwyddo gwybodaeth a digwyddiadau perthnasol ar wefan y Byrddau a lledaenu bwletinau i bartneriaid rhanbarthol, yn ogystal â hyrwyddo digwyddiadau lledaenu gwybodaeth a gynhaliwyd trwy Lywodraeth Cymru.

IICSA
INDEPENDENT INQUIRY INTO CHILD SEXUAL ABUSE

## Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gynnal cysylltiadau cryf â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn y rhanbarth. Eleni mae deialog, trafodaeth a gwaith wedi bod yn canolbwyntio ar faes sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr: prosiect yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Mae Cynrychiolydd Diogelu Addysg y Byrddau yn Sir Benfro wedi gweithio ar y cyd â rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin ar ddatblygu nifer o broffiliau rôl i gefnogi'r gwaith cenedlaethol hwn.


## Barnardo's Cymru – Prosiect Gwella

Daeth prosiect Gwella i ddiwedd ei dymor pedair blynedd ym mis Mawrth 2020. Nod y prosiect yw dangos bod mwy o gefnogaeth gynharach yn lleihau'r angen am ymyrraeth yn ystod llencyndod hwyrach, pan allai gwendidau ddod i'r amlwg trwy risg uwch o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) neu arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.

Mae'r Byrddau Rhanbarthol wedi hyrwyddo a lledaenu gwybodaeth amrywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn perthynas â'r prosiect hwn, gan gynnwys y gwerthusiad cenedlaethol. Cynhaliwyd digwyddiad i gefnogi a hyrwyddo'r gwaith hwn, a gyflwynwyd gan Sophie Hallet o gyfleuster ymchwil Cascade a Phrifysgol Caerdydd, gan Bowys yn ystod y flwyddyn, ac roedd ar gael i holl asiantaethau partner y Bwrdd ledled y rhanbarth.

## Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Mae Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i fod â pherthynas adeiladol â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB), ac mae aelodau'n mynychu ac yn cyfrannu at gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol yn rheolaidd. Mae trafodaethau a deialog trwy gyfarfodydd Rheolwyr Bwrdd â Llywodraeth Cymru a'r NISB wedi digwydd yn rheolaidd trwy'r pandemig, yn ogystal â chyfarfodydd atodol gyda Chadeiryddion y Byrddau. Mae'r Byrddau wedi cefnogi adolygiad cenedlaethol o drefniadau diogelu amlasiantaethol sy'n cael eu harwain ar hyn o bryd gan yr NISB, trwy fynychu amrywiol gyfarfodydd a digwyddiadau a drefnwyd gan yr ymchwilydd Michelle McManus o Brifysgol John Moores Lerpwl, sydd bellach yn arwain cam 2 y gwaith hwn ar ran yr NISB.




**Adborth o'r Diwrnod Datblygu:**

*Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi parhau i fod â phresenoldeb yn ein cyfarfodydd, a ninnau yn eu cyfarfodydd hwythau*

# (e) Ceisiadau a wnaed i bersonau cymwys dan adran 137 (1) ac a gydymffurfiwyd â hwy

Er mwyn galluogi neu gynorthwyo'r Byrddau i gyflawni eu swyddogaethau, mae Adran 137 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn caniatáu i Fyrddau Diogelu ofyn i berson neu gorff cymwys gyflenwi gwybodaeth benodol.

Ni wnaeth Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru unrhyw geisiadau o'r fath eleni.



# (f) Cyflawniadau a wnaed gennym yn y flwyddyn

## Ymateb i Bandemig COVID-19

> **Adborth o'r Diwrnod Datblygu:**
> *Mae'r ymateb rhanbarthol i COVID-19 wedi atgyfnerthu'r ffocws ar bwysigrwydd diogelu a'r angen i ddiogelu - pwy oedd angen bod yn graidd, pwy sydd fwyaf*

Mae'r ymateb amlasiantaethol cydgysylltiedig i'r ystod eang o risgiau a berir i wasanaethau diogelu a'r cyhoedd trwy COVID-19 wedi bod yn dyst i'r arfer da a'r cydweithredu a sefydlwyd eisoes yn y Byrddau. Llwyddodd y Byrddau i gynnull Grŵp Gweithredol COVID-19 ar unwaith i nodi, ymateb i, a monitro materion a heriau allweddol yn barhaus ar ddechrau'r pandemig, gan ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau arfer gorau i sicrhau dull cyson ac effeithiol ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd y Byrddau hefyd yn gallu gweithredu ar lefel busnes fel arfer i raddau helaeth trwy COVID-19 yn ei gyfanrwydd, gan gyflawni ei holl rwymedigaethau statudol yn ystod pob cam o'r pandemig, a dim ond atal nifer fach o grwpiau tasg a gorffen a ffrydiau gwaith nad oedd yn rhai brys rhag gweithredu, hyd yn oed ar anterth y risg a'r galw. Mae'r cyflawniadau a wnaed eleni er gwaethaf yr heriau digynsail a wynebwyd yn destun balchder mawr yn y Byrddau, y mae eu swyddogaeth fel cydweithrediad amlasiantaethol wedi bod o'r pwys mwyaf yn yr ymateb diogelu i COVID-19 dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ymhlith y cyflawniadau sy'n benodol i ymateb COVID-19 mae datblygu'r polisïau, y gweithdrefnau a'r canllawiau canlynol:

- Swydd Dros Dro COVID-19 ar gyfer Rheoli Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant
- Trefniadau Dros Dro COVID-19 ar gyfer Rheoli Adolygiadau PDG (LAC)
- Proses Dros Dro Ymweliadau Statudol Adran 47 a Rhanbarthol yn ystod COVID-19
- COVID-19 - Canllawiau Diogelu Amddifadu Rhyddid (DoLS)
- Canllawiau Diogelu Data ar gyfer Gweithio yn y Cartref yn ystod ymateb COVID-19
- Dogfen Trothwy COVID-19



## Cwblhau a Chyhoeddi Strategaethau a Pholisïau Rhanbarthol

Cwblhawyd nifer o brosiectau allweddol yn 2020-21, gan arwain at gyhoeddi nifer o bolisïau a llwybrau rhanbarthol allweddol.


> Adborth gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol:
> *Mae'r Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau yn parhau i fod o safon uchel, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ymarfer*

- Polisi Cofnodi Cyfarfodydd gan Rieni a Defnyddwyr Gwasanaeth
- Gweithdrefn ar gyfer Rheoli Anafiadau Amheus mewn Plant nad ydynt yn gallu Symud
- Prawf Meddygol Amddiffyn Plant - Profion: Gwybodaeth i Rieni
- Prawf Meddygol Amddiffyn Plant - Gwybodaeth i Rieni
- Llwybr Cyn Geni Amlasiantaethol
- Polisi Cwynion Rhanbarthol

Mae'r holl brosiectau hyn wedi'u cwblhau o fewn grwpiau ac is-grwpiau amrywiol y Byrddau, gan gynnwys grŵp Cadeiryddion Cynadleddau Rhanbarthol. Mae pob asiantaeth bartner wedi cael cefnogaeth helaeth i ddatblygu'r polisïau hyn, gyda nifer o'r prosiectau hyn yn cael eu harwain gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r holl adnoddau yn rhoi arweiniad i staff, ac yn ceisio cefnogi a gwella arfer diogelu proffesiynol, sy'n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau strategol y Byrddau.

## Diwrnod Datblygu Rhithwir y Bwrdd Gweithredol

Er i bandemig COVID-19 yn anffodus atal CYSUR a CWMPAS rhag cynnal y Diwrnod Datblygu arferol, sy'n digwydd bob blwyddyn, llwyddodd y Byrddau i gwrdd yn rhithwir i fyfyrio ar y cynnydd a wnaed yn 20-21, ac i ddatblygu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer 2021-22.



*Diwrnod Datblygu'r Bwrdd Gweithredol 2021*

Roedd y diwrnod yn galluogi trafodaeth adeiladol rhwng asiantaethau, ac yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol a wnaed yn erbyn y Cynllun Blynyddol blaenorol er gwaetha'r adnoddau sylweddol yr oedd eu hangen i ymateb i COVID-19. Roedd effaith gadarnhaol y gwaith hwn hefyd yn amlwg trwy gynnal yr ymarfer adolygu amlasiantaethol hwn, a arweiniodd at nodi nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, datblygu ar y gwaith rhagorol a gwblhawyd eisoes, a dechrau ystyried meysydd newydd i'w datblygu. Yng ngoleuni'r awydd hwn i ddatblygu ar y gwaith a wnaed yn barod, mae'r Byrddau wedi cadw eu blaenoriaethau strategol allweddol, sef gwell ymgysylltu a chyfathrebu, cryfhau'r gweithlu a rheoli risg, dysgu thematig, ac arweinyddiaeth, gweledigaeth a her. Cytunwyd ar flaenoriaeth ychwanegol eleni hefyd, sef, blaenoriaethu'r ymateb i COVID-19 ac adferiad ohono ar draws ein rhanbarth.


Gellir gweld canlyniad llawn y dydd a blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod yng Nghynllun Strategol Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2021-22.

## Hwyluso Digwyddiad Dysgu Adolygiad Ymarfer Plant o Bell

Ym mis Rhagfyr 2020, cynhaliwyd digwyddiad dysgu o bell mewn perthynas ag Adolygiad Ymarfer Plant Cryno, CYSUR 7 2018, sydd bellach wedi'i gyhoeddi. Roedd hon yn her newydd i'r Byrddau, sydd hyd yma wedi cynnal y digwyddiadau hyn fel sesiynau wyneb yn wyneb ar raddfa fawr. Roedd cefnogaeth **Coleg Sir Benfro** yn allweddol i lwyddiant digwyddiad dysgu o bell cyntaf y Byrddau, wrth ddarparu lleoliad i'r adolygydd, cadeirydd a staff yr Uned Fusnes i gynnal y sesiwn rithwir, y gwnaeth y mynychwyr ddeialu i mewn iddi trwy Microsoft Teams. Roedd cefnogaeth TG hefyd ar gael trwy gydol y dydd i gynorthwyo gydag unrhyw anawsterau, ac roedd cwnselydd y Coleg ei hun ar gael ar ôl y digwyddiad ar gyfer unrhyw fynychwyr a oedd angen cefnogaeth, yng ngoleuni'r pwnc emosiynol a heriol a drafodwyd. Nodwyd bod y digwyddiad hwn wedi bod yn hynod lwyddiannus, a derbyniwyd adborth rhagorol gan y mynychwyr.  Mae ei strwythur a'i fformat bellach wedi bod yn sail i ganllaw rhanbarthol ar gyfer cynnal digwyddiadau dysgu o bell ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion a FfPARh/MAPFs, proses allweddol i  fod ar waith wrth i gyfyngiadau barhau i wahardd digwyddiadau wyneb yn wyneb trwy gydol y flwyddyn.

## Cydweithredu Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol ar gyfer yr Wythnos Diogelu Genedlaethol (NSGW20)

Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaeth Uned Fusnes y Bwrdd, mewn cydweithrediad â'r pedwar Grŵp Gweithredol Lleol, gydlynu a chefnogi rhaglen ranbarthol o ddigwyddiadau i gefnogi'r Wythnos Diogelu Genedlaethol. Cytunwyd ar thema iechyd meddwl a lles yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, gydag ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a gwefan yn cael ei chreu a'i harwain gan y Byrddau yn ystod yr wythnos yn tynnu sylw at y conglfeini i les meddyliol cadarnhaol a sut y gellir gweithio tuag at y rhain. Roedd themâu fel natur, hamdden a chwsg yn cael sylw bob dydd, gyda negeseuon yn cyrraedd cymaint ag 8,000 o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn ystod yr wythnos.




*Post o ymgyrch cyfryngau cymdeithasol NSGW*

*Dyfyniad o raglen Wythnos Diogelu Genedlaethol 2020*


## Cynadleddau Rhanbarthol

Llwyddodd gweithgareddau'r Wythnos Diogelu Genedlaethol i fynd ymlaen yn rhithwir eleni, gyda Microsoft Teams yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno nifer o weithdai i ymarferwyr ledled y rhanbarth. Cynhaliwyd gweithdai yn ystod yr wythnos ar thema hunan esgeulustod a dysgu thematig o Adolygiadau Ymarfer. Hwyluswyd y gweminarau hyn gan Post Michael Preston-Shoot a Barbara Firth yn y drefn honno. Roedd natur rhithwir y digwyddiadau hyn yn ei gwneud yn bosibl i gyrraedd cynulleidfa eang, fel y gwnaeth hyblygrwydd llawer o'r sesiynau. Parhaodd y ddwy set hon o weithdai y tu hwnt i'r wythnos i gynnwys sesiynau ychwanegol yn gynnar yn 2021 i ateb y galw mawr a gafwyd. Nodwyd ac adolygwyd yr adborth a roddwyd gan ymarferwyr yn ystod y digwyddiadau i fod yn sail i arferion a blaenoriaethau yn y dyfodol.

## Sesiwn Holi ac Ateb Hwb Bregusrwydd Heddlu Dyfed Powys

Hwylusodd cydweithwyr yr Heddlu'r Byrddau ddigwyddiad rhithwir yn ystod Wythnos Diogelu Genedlaethol 2020, gan roi trosolwg manwl o'r Hwb Bregusrwydd a chynnig platfform i'r mynychwyr ofyn cwestiynau am ei ddatblygiad a'i weithrediad. Cyflwynwyd y sesiwn gan DS Victoria Wall a T/DI Steve Lewis, y ddau ohonynt wedi'u lleoli yn yr Hwb Bregusrwydd.

Mae'r Hwb Bregusrwydd yn ased gwerthfawr i Heddlu Dyfed Powys, ac yn ehangach i Ganolbarth a Gorllewin Cymru, ac roedd y digwyddiad hwn yn gyfle gwych i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch sut mae'r Hwb yn cael ei ddefnyddio a'r rôl y mae'n ei chwarae mewn ymyrraeth gynnar ac atal o fewn y maes diogelwch.


Guest speakers:
Detective Sergeant
Victoria Wall &
Temporary Detective
Inspector
Steve Lewis

**DS Victoria Wall**
Is a Detective Sergeant at Dyfed-Powys Police's Vulnerability Hub. Her current role is as the Offender Management Supervisor for the Force, providing a central function of support for four Divisional Offender Management Teams. Her portfolios include the management of Registered Sex Offenders and Violent Offenders. Domestic Offenders. CSE perpetrators and those individuals subject to serious crime prevention orders.

DS Wall's previous roles include neighbourhood-policing duties in Carmarthen, Cross Hands and Llwynhendy, a child abuse and adult abuse investigator and the Management of Sexual and Violent Offenders Department.

**T/DI Steve Lewis**
Is a Temporary Detective Inspector in Dyfed Powys Police's new Vulnerability Hub.

Steve has held multiple roles in the investigation of criminality against children and vulnerable adults. which includes time as a Detective Sergeant in the Central Referral Role and as part of Major Crime Team and supported murder investigations throughout the force.

*Taflen sesiwn Holi ac Ateb Hwb Bregusrwydd Heddlu Dyfed*

## Gweithgareddau'r Bwrdd Diogelu Iau

Mwynhaodd y Byrddau gyfraniad actif gan eu Bwrdd Iau unwaith eto eleni, er iddynt gael eu hatal rhag ymgymryd â'r gweithgareddau personol arferol. Dyluniodd **Diogelwyr Iau Sir Benfro** fodiwl diogelu ar-lein y gellid ei rannu gydag ysgolion uwchradd, colegau AB a sefydliadau ieuenctid eraill. Dyrannwyd cyllid i'r grŵp a buont yn gweithio gyda Garrett Creative i gynhyrchu adnodd ar-lein Cadw Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn Ddiogel yn Sir Benfro a gefnogwyd gyda rhestr o adnoddau.



*Cynlluniwr Wal Sêr Diogel TGP Ceredigion*

Hyrwyddwyd yr wybodaeth hon ar Wythnos Nesaf, cylchlythyr Addysg Sir Benfro, a thrwy rwydweithiau amrywiol. Mae'r grŵp yn bwriadu cynnal lansiad ffurfiol yn y flwyddyn i ddod i barhau i hyrwyddo defnydd o'r adnodd.

Nododd **Sêr Diogel Ceredigion** yr Wythnos Diogelu Genedlaethol trwy ddatblygu a lansio calendr wal 2021. Mae'r calendr yn cynnwys lluniau o natur i hyrwyddo negeseuon lles yn ystod y cyfnod clo, ac mae'n rhestru diwrnodau ymwybyddiaeth diogelu sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, i hyrwyddo ymgyrchoedd o bwys o fewn y maes diogelu plant. Cynhyrchwyd copïau ffisegol o'r calendr i'w rhannu ag aelodau a staff y grŵp, gyda staff yr Uned Fusnes hefyd yn derbyn copïau yn garedig iawn gan y bobl ifanc.

# Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill roedd:

- Gweminar **Ymarfer yn Seiliedig ar Drawma** wedi'i gyflwyno gan Margot Sutherland i gynulleidfa ranbarthol eang trwy Microsoft Teams
- **Rhieni'n Amddiffyn: Sesiwn Hyfforddiant Cyhoeddus ar Gam-drin Plant yn Rhywiol** wedi'i hwyluso gan Gyngor Sir Powys a'i gyflwyno i'r cyhoedd trwy Zoom.
- **Sesiwn Ymwybyddiaeth Ofalgar** a gynhaliwyd o fewn Cyngor Sir Powys, fel rhan o'u sesiynau rhithwir wythnosol.
- **Ymgyrchu cydgysylltiedig ar y cyfryngau cymdeithasol** ar draws y Byrddau a'u hasiantaethau partner, gyda negeseuon lleol yn canolbwyntio ar amrywiaeth o themâu gan gynnwys trawma, lles a dysgu o Adolygiadau Ymarfer.
- **Canllawiau ynghylch delweddau rhywiol a gynhyrchwyd gan ieuenctid** a gyflwynir trwy sesiynau ABCh ar draws Powys.
- Cafodd **Cynadleddau Cenedlaethol** eu hyrwyddo'n eang ledled y rhanbarth, gan gynnwys:

1. Eiriolaeth Rhieni - Cynhadledd Datblygu wedi'i hwyluso gan y Rhwydwaith Rhieni, Teulu a Chynorthwywyr
2. Llunio Dyfodol Diogelu yng Nghymru - gyda chyflwyniadau gan Dr. Michelle McManus, Pennaeth Cyfiawnder Troseddol, Prifysgol John Moores Lerpwl, ac Amaladipa Remigio,

   Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol - Cymru
3. Cynhadledd Genedlaethol Gofal Cymdeithasol 2020 - digwyddiad deuddydd am ddim i bawb sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol



# Rhai lluniau o Wythnos Diogelu Genedlaethol 2020 ac ymgyrch gysylltiedig ar y cyfryngau chymdeithasol















# (g) i ba raddau mae asiantaethau wedi cyfrannu at effeithiolrwydd y bwrdd

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi parhau i wneud cyfraniad cryf a gweithredol at waith Byrddau CYSUR a CWMPAS, a datblygiad parhaus ymarfer diogelu ar lefel ranbarthol a lleol. Mae cynrychiolwyr Hywel Dda yn cael eu cynrychioli fel mater o drefn ac yn cyfrannu at y Byrddau Gweithredol, Grwpiau Gweithredol Lleol ac is-grwpiau rhanbarthol, ac maent wedi ymgysylltu â, a chefnogi nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion. Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio a Nyrsio Corfforaethol Diogelu yw Is-gadeirydd Bwrdd Gweithredol CYSUR. Mae'r Pennaeth Diogelu yn cyflawni rôl Is-gadeirydd yr Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion rhanbarthol.
Yn ychwanegol at y cyfraniad cyffredinol hwn i'n Byrddau, mae Meddyg a Enwyd a Nyrs Arweiniol Hywel Dda ar gyfer Diogelu Plant wedi arwain y gwaith o ddatblygu gweithdrefn ranbarthol newydd ar gyfer rheoli anafiadau mewn plant nad ydynt yn gallu symud.

Mae Nyrs Arweiniol PDG/LAC Hywel Dda yn adrodd yn weithredol i'r Paneli Rhianta Corfforaethol rhanbarthol, gan roi sicrwydd o amseroldeb ac ansawdd asesiadau iechyd ar gyfer PDG, ac mae'n aelod gweithredol o'r tri grŵp MACE. Mae staff gweithredol hefyd yn mynychu cyfarfodydd strategaeth CPRh (CSE), ac mae Hywel Dda fel sefydliad yn cyfrannu'n weithredol at Rwydwaith Diogelu GIG Cymru a'r cynllun gwaith cysylltiedig, gyda Nyrs Arweiniol PDG/LAC yn arwain y gwaith o ddatblygu fframwaith asesu iechyd PDG/LAC GIG Cymru.

Eleni, mae Hywel Dda hefyd wedi arwain y gwerthusiad o ddarparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu o fewn GIG Cymru, yn ogystal â nodi a rhannu lle gellir sicrhau arfer gorau a chysondeb ar sail "Unwaith i Gymru".

**Uchafbwynt Ymarfer Diogelu**

*Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** wedi creu swydd newydd Nyrs PDG/LAC ar gyfer Cartrefi Preswyl, sy'n swydd unigryw o fewn GIG Cymru. Roedd y Nyrs PDG/LAC yn arloesol wrth sefydlu a chynnal cyswllt â phlant a phobl ifanc yn y cartrefi hyn yn ystod y pandemig.*

Mae Hywel Dda wedi datblygu dulliau trylwyr a chadarn o ymgysylltu â phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl. Mae hyn yn cynnwys adborth gan Blant sy'n Derbyn Gofal am y gefnogaeth a ddarperir trwy swydd newydd, bwrpasol Nyrs y PDG/LAC ar gyfer cartrefi preswyl. Mae'r Meddyg a Enwir ar gyfer Diogelu Plant yn ymgysylltu'n weithredol â rhieni a gofalwyr plant ag anghenion cymhleth i gytuno ar gynlluniau gofal a chymorth priodol, ac yn ehangach, mae Hywel Dda wedi sefydlu grŵp amlasiantaeth Lleisiau Plant a Phobl Ifanc i'w gwneud yn bosibl i gael adborth ac i ymgysylltu. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed Powys, Swyddfa Dyfed Powys Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Thân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i ddatblygu siarter hawliau plant 'golau glas' wedi'i llywio gan blant a phobl ifanc ar draws ardal Dyfed Powys.

Darperir dadansoddiad thematig o atgyfeiriadau at ddiogelu oedolion ynghylch gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd bob chwarter i Weithgor Diogelu Strategol y BIP. Mae rhyddhau o'r ysbyty wedi bod yn thema oedd yn codi dro ar ôl tro dros y 12 mis diwethaf. Mae gan y gwasanaethau acíwt Gynllun Gwella Rhyddhau o Ysbyty Acíwt, sy'n cael ei fonitro trwy Grŵp Cyflenwi Diogelu'r Gwasanaethau Acíwt. Mae Matrics Diogelu Aeddfedrwydd GIG Cymru yn nodi bod Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) wedi'i hysbysu fel maes allweddol ar gyfer Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru. Mae'r modiwl diogelu plant yn electronig yn caniatáu i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'u heffaith gael eu nodi o naratif y MARF.

Mae proses o gyflwyno cyflwyniadau i hysbysu Gweithgor Diogelu Strategol y Bwrdd Iechyd am argymhellion amlasiantaethol ac iechyd o Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig yn lleol ac o bob rhan o Gymru wedi'u hymgorffori yn yr arfer.

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP)

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) yn parhau i gyfrannu'n llawn at Fyrddau CYSUR a CWMPAS. Mae cynrychiolwyr BIAP yn cael eu cynrychioli fel mater o drefn yn y Byrddau Gweithredol, y Grŵp Gweithredol Lleol a holl gyfarfodydd yr is-grwpiau ac maent yn cefnogi datblygiad parhaus ymarfer diogelu ar lefel ranbarthol a lleol.

Mae BIAP yn parhau i fod yn bartner gweithredol yn Rhwydwaith Diogelu Cenedlaethol GIG Cymru, gan gymryd rhan yn ei is-grwpiau, ffrydiau gwaith sy'n ymddangos a grwpiau tasg a gorffen. Yn nodedig, ysgrifennodd aelod o Dîm Diogelu BIAP ar y cyd yr e-Ddysgu Lefel 2 Cenedlaethol ynghylch Diogelu Plant, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
Mae BIAP yn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol fel aelod o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Powys, yn ogystal â pharhau i secondio nyrs CAMHS i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

### Uchafbwynt Ymarfer Diogelu

*Mae **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** wedi datblygu a darparu pecyn hyfforddi ynghylch y Ddeddf Galluedd Meddwl ar gyfer hyfforddiant modiwlaidd ac wyneb yn wyneb. Cyflwynwyd 10 sesiwn yn 2020-21 a threialwyd sesiwn Holi ac Ateb gan ddefnyddio'r hyfforddiant modiwlaidd. Mae pecyn hyfforddi DoLS hefyd wedi'i ddatblygu a'i recordio.*

Mae'r tîm diogelu wedi datblygu hyfforddiant ac adnoddau diogelu yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant modiwlaidd, sydd wedi galluogi staff i gael mynediad at hyfforddiant mewn ffordd wahanol, ac i ennill cymwyseddau mewn diogelu. Lansiwyd cylchlythyr hefyd ym mis Mai 2020 i ledaenu negeseuon allweddol i staff diogelu ar ystod o bynciau. Yn ogystal, mae Briffiau Diogelu wedi'u cyhoeddi bob mis ers mis Hydref 2020 i rannu'r holl wybodaeth ac adnoddau diogelu a dderbyniwyd yn ystod y mis blaenorol mewn un bwletin cyfleus.
Roedd cylchlythyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cynnwys cyfweliad ar ffurf sgwrs a gynhaliwyd gan Nyrs PDG/LAC gyda pherson ifanc mewn perthynas â'r pandemig. Mae'r graffig dros y dudalen yn cyfleu barn, myfyrdodau a theimladau'r Plentyn oedd yn Derbyn Gofal hwn.




## Iechyd Cyhoeddus Cymru (Tîm Diogelu Cenedlaethol)

Public Mae Tîm Diogelu Cenedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i wella diogelu ledled GIG Cymru. Mae gweithwyr proffesiynol dynodedig y Tîm Diogelu Cenedlaethol yn aelodau o'r holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol (oedolion a phlant) ledled Cymru. Mae'r Nyrsys Dynodedig wedi cyfrannu'n gyson at waith y Bwrdd trwy ddarparu arbenigedd annibynnol ar bob lefel i gefnogi asiantaethau ar draws y rhanbarth, ac mae cynrychiolydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynychu nifer o is-grwpiau'r Bwrdd, yn ogystal â chyfrannu at y Diwrnod Datblygu Rhithwir eleni a mynychu grwpiau cenedlaethol i sicrhau cynnydd ffrydiau gwaith yr Adolygiad Diogelu Sengl Unedig.

## Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST)

Cynrychiolir Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) ym Mwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac maent yn cymryd rhan mewn is-grwpiau a Grwpiau Gweithredol Lleol yn ôl yr angen.

Maent yn parhau i gefnogi'r agenda diogelu strategol ehangach ledled y rhanbarth. Maent yn aelodau o Grŵp Llywio Rhanbarthol MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol) ac yn cefnogi'r gwaith VAWDASV parhaus a wneir ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Blaenoriaeth allweddol yn WAST eleni fu gweithredu system a phroses atgyfeirio awtomataidd Doc Works, y dechreuodd Cam 2 y cynllun ym mis Gorffennaf 2020. Mae dros 65% o staff gofynnol WAST wedi'u

cofrestru i ddefnyddio'r system ddigidol newydd i gyflwyno adroddiadau diogelu. Mae ymgyrch recriwtio sylweddol hefyd wedi digwydd yn WAST eleni, gan arwain at gynnydd o 63% yn y galw am hyfforddiant staff. Mae WAST yn sicrhau ansawdd eu harfer trwy nodi a rhannu themâu o gwynion a phryderon o fewn y sefydliad, a chynhwysir pryderon am ddiogelu yn yr Adroddiad Diogelu Blynyddol i'r Bwrdd. Nodir y dysgu a chymerir camau priodol. Cynhelir adolygiadau cymheiriaid ac archwiliadau misol o atgyfeiriadau hefyd.

**Uchafbwynt Ymarfer Diogelu**

***Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru***

*Mae'r tîm Ymgysylltu â Chleifion a Chynnwys y Gymuned wedi gweithio gyda phlant a phobl hŷn i lunio siarter ar gyfer y ddau grŵp, sy'n cyflwyno disgwyliadau'r unigolion hyn sy'n defnyddio ein gwasanaeth i staff a gweithwyr gwirfoddol. Maent hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r gymuned fyddar, grwpiau anabledd dysgu ac ar hyn o bryd gyda gofalwyr ar sut y gallai WAST eu cefnogi i gael mynediad i'r gwasanaeth.*

## Heddlu Dyfed-Powys

Mae Heddlu Dyfed-Powys (DPP) yn parhau i gyfrannu'n weithredol at Fyrddau Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn amlwg trwy bresenoldeb a chyfranogiad swyddogion yn rheolaidd ar bob lefel o'r Bwrdd, gan gynnwys y Byrddau Gweithredol, Grwpiau Gweithredol Lleol a phob is-grŵp. Mae cefnogaeth sylweddol yn parhau i gael ei dangos i'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer rhanbarthol, ac mae swyddogion Heddlu Dyfed-Powys wedi ymgymryd â rôl Cadeirydd y Panel ar gyfer nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion sy'n parhau a rhai sydd wedi eu cwblhau. Mae cynrychiolydd Bwrdd Uwcharolygwyr Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i ddal swydd Is-gadeirydd Bwrdd CWMPAS, ac mae Arweinydd Diogelu'r Heddlu wedi cadeirio cyfarfodydd COVID MAWWSB a alwyd ynghyd ar ddechrau'r pandemig.

Yn 2020, lansiodd yr Heddlu'r Hwb Bregusrwydd fel cam cyntaf prosiect i ennyn gwell perthnasoedd gwaith gyda sefydliadau partner, er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cyflwyno trafodaethau dyddiol yn llwyddiannus.

**Uchafbwyntiau Ymarfer Diogelu**

*Mae'r ffocws ar ymddygiad gorfodol a rheoli wedi arwain at gydnabod mwy o ymddygiadau stelcio. Mae hyn wedi bod yn amlwg mewn cynnydd mewn erlyniadau a'r defnydd o orchmynion sifil megis caniatau Gorchymyn Diogelu Stelcio llawn cyntaf y rhanbarth.*

Mae'r trafodaethau hyn yn ceisio darparu asesiad cyflym o risg i Ddioddefwyr Cam-drin Domestig, gan leihau'r oedi i'r achosion gael eu trafod yn MARAC. Darpara hyn fforwm i asiantaethau ymchwilio a rhannu gwybodaeth yn gyflym fel bod ymgysylltiad cynnar â dioddefwyr a bod cynlluniau rheoli risg mwy deinamig ac ymatebol wedi'u sefydlu. Mae'r rhaglen waith Trafodaeth Ddyddiol wedi lleihau'r oedi cyn i achosion gael eu clywed yn MARAC o bob mis i dair gwaith yr wythnos. Mae hyn wedi gwella'r broses o ymgysylltu â dioddefwyr a chynllunio diogelwch.

Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd wedi dod â gwahanol linynnau Rheoli Troseddwyr ynghyd i'r Hwb Bregusrwydd, felly mae gwell dealltwriaeth ar draws disgyblaethau a sefydliadau ynghylch y cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n ymwneud â throseddu a allai elwa o fonitro a chefnogaeth ychwanegol i'w dargyfeirio o weithgaredd troseddol. Mae swyddogion arbenigol ar Gam-drin Domestig, yr SRAU a goruchwylwyr rheoli troseddwyr wedi derbyn hyfforddiant gan yr Athro Jayne Monckton-Smith ynghylch yr "8 cam tuag at ddynladdiad".

Mae hyn yn symud grym risg o drais i ymddygiad gorfodol a rheoli. Mae Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn parhau i flaenoriaethu ei ymateb i Gam-drin Domestig, gan weithio'n agos gyda'r holl asiantaethau statudol a rhai'r trydydd sector.

Mae Heddlu Dyfed Powys wedi hyfforddi 80 o staff rheng flaen ychwanegol i ddarparu gwell cefnogaeth i achosion o Ymelwa'n Droseddol ar Blant (CCE). Mae'r rhain yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer yr ymateb tactegol. Mae Dyfed Powys hefyd wedi datblygu a hyfforddi tîm (INTACT) sy'n cwmpasu'r pedair ardal awdurdod lleol i ddatblygu llwybrau a chyflawni ymyriadau cynnar.

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Dyfed-Powys

Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cyfrannu at y Byrddau Diogelu trwy bresenoldeb rheolaidd a chyson yn y Byrddau Gweithredol a'r Grwpiau Gweithredol Lleol ac is-grwpiau. Mae Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir Benfro yn parhau i gynrychioli buddiannau Cyfiawnder Ieuenctid rhanbarthol yn y Byrddau Gweithredol a'r is-grwpiau, gan ledaenu gwybodaeth i gydweithwyr ar draws ardal Dyfed-Powys trwy Gyfarfodydd Cyfiawnder Ieuenctid rhanbarthol. Mae gan y pedwar gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid rhanbarthol gynrychiolaeth gref ar draws ystod o bartneriaethau rhanbarthol, ac ar lefel genedlaethol trwy Reolwyr Timau Troseddau Ieuenctid Cymru. Mae hyn yn cynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Rhanbarthol, Bwrdd Strategol MAPPA, Grŵp Llywio Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) ac yn fwy diweddar, aelodaeth o'r Grŵp Llywio Trais Difrifol a Throsedd Gyfundrefnol (SVOC). Mae'r cysylltiadau partneriaeth rhanbarthol cryf hyn yn hwyluso gwell gwybodaeth ac ymateb mwy ystwyth i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg fel Ymelwa'n Droseddol ar Blant a Llinellau Cyffuriau.

Mae adborth gan bobl ifanc yn rhan o fframwaith asesu ASSET Plus y System Cyfiawnder Ieuenctid. Trefnir ymyriadau i ddiwallu anghenion pobl ifanc. Mae'r fframwaith asesu yn cynnwys dealltwriaeth o berthnasoedd teuluol a threfniant byw y person ifanc a thrwy ddiffiniad ymgysylltiad â rhieni a gofalwyr.

## Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)

National Probation Service

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) bellach wedi uno i greu un corff, a gynrychiolir ar y Byrddau Gweithredol, Grwpiau Gweithredol Lleol a rhai is-grwpiau. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi mynychu Grŵp Gweithredol COVID-19 ac wedi cyfarfod â chydweithwyr yn yr heddlu yn ddyddiol yn y pedair ardal awdurdod lleol. Maent wedi datblygu cysylltiad â'r Hwb Bregusrwydd ym Mhencadlys Heddlu Dyfed Powys, a rheolir pob trosglwyddiad i Ddyfed Powys trwy'r Hwb hwn gyda staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol wedi'u lleoli yn yr Hwb i gryfhau'r cysylltiadau hynny. Eleni, mae Tasglu Digartrefedd wedi'i sefydlu, sy'n darparu tai ar gyfer rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar. Gwnaed gwaith gydag adrannau tai Awdurdodau Lleol i sicrhau bod materion diogelu yn cael sylw o ran gwiriadau ar gyfeiriadau a phenderfyniadau ar addasrwydd.

## Cyngor Sir Caerfyrddin

Mae Cyfarwyddwr Cymunedau Statudol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadeirio Bwrdd CYSUR ac wedi cyflawni'r rôl hon ers nifer o flynyddoedd, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol gyson i'r Bwrdd Gweithredol a'i Grwpiau Gweithredol Lleol a'i is-grwpiau. Mae Gwasanaethau Oedolion Sir Gaerfyrddin wedi arwain nifer o brosiectau allweddol gan y Bwrdd eleni, gan gynnwys datblygu Dogfen Trothwy COVID-19 ranbarthol i sicrhau cysondeb yn yr ymagwedd at risgiau cysylltiedig â COVID-19 o fewn gwasanaethau diogelu ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae Gwasanaethau Oedolion Sir Gaerfyrddin hefyd wedi parhau i wneud cynnydd tuag at lansio protocol rhanbarthol i gwmpasu ymddygiadau risg uchel, gan gynnwys hunan-esgeulustod. Mae'r darn cymhleth hwn o waith bron wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei gadarnhau yn y flwyddyn i ddod.

Cynrychiolir Gwasanaethau Oedolion Sir Gaerfyrddin mewn nifer o fforymau rhanbarthol a chenedlaethol. Er enghraifft, roedd Arweinydd Diogelu Oedolion Sir Gaerfyrddin yn cynrychioli'r Byrddau yng ngrŵp adolygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn ogystal â grwpiau rhanbarthol a chenedlaethol a oedd yn canolbwyntio ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Mae Arweinydd Diogelu Gwasanaethau Oedolion Sir Gaerfyrddin hefyd yn cadeirio grŵp Arweinwyr Diogelu Oedolion Cymru Gyfan.

Gwnaed cais APSO llwyddiannus hefyd eleni o fewn Gwasanaethau Oedolion Sir Gaerfyrddin. Mae gwaith datblygu helaeth wedi'i wneud o fewn Grŵp Gweithredol Lleol Sir Gaerfyrddin (LOG) eleni, er mwyn cynyddu effeithiolrwydd monitro ac i ddod yn fwy rhagweithiol wrth gyflwyno datblygiadau mewn arferion diogelu.

Datblygodd Cyngor Sir Caerfyrddin fideo hyfforddi ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Cymru newydd, gyda ffocws ar ddiogelu oedolion. Cyhoeddir yr adnodd hwn ar wefan y Bwrdd ac mae'n hygyrch i staff diogelu ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru fel adnodd hyfforddi defnyddiol sy'n ymdrin â chanllawiau lefel uchel ar y Gweithdrefnau newydd a'u heffaith ar arfer diogelu.
Yn ystod y pandemig, cyflwynwyd systemau newydd ar gyfer adrodd. Cafodd gwaith monitro cymdeithasol ac ymweliadau tîm ataliol eu cynnal yn wythnosol er mwyn tynnu sylw ac ymateb i unrhyw fylchau neu broblemau o ran argaeledd gwasanaeth. Fe wnaeth pob tîm hefyd roi sgôr RAG i achosion i sicrhau bod ymweliadau'n cael eu targedu at y rhai mwyaf agored i niwed.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer Iechyd Meddwl ac Anawsterau Dysgu yn parhau i gadeirio'r Grŵp Rhanbarthol ar Hunanladdiad a Hunan-niweidio a'r Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion. Mae'r arweinydd strategol a gweithredol ar gyfer Diogelu Oedolion yn arwain y Grŵp Rhanbarthol ar gyfer Arweinwyr Diogelu Oedolion, sy'n ymdrechu i wella a sefydlu arfer diogelu oedolion cyson ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae'n cadeirio'r Grŵp Cyflawni VAWDASV fel rhan o'r strwythur rhanbarthol diwygiedig.

### Uchafbwynt Ymarfer Diogelu

*Mae **Gwasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin** wedi cynnwys pobl ifanc yn ei Banel Rhianta Corfforaethol i hysbysu Cynghorwyr, Cyfarwyddwyr ac asiantaethau eraill am eu profiadau o ymwneud â'r adran. Mae Echo Group, sef Grŵp Gadael Gofal pobl ifanc a drefnir gan Wasanaethau Plant Sir Gaerfyrddin a Lleisiau o Ofal, yn parhau i roi cyngor i'r Adran am eu profiadau o Ddiogelu fel y gall eu profiad lywio a gwella arfer yr Adran. Siaradir â phlant a phobl ifanc hefyd yn y Gwiriad Iechyd Ysgolion, a defnyddir y safbwyntiau hyn i fod yn sail i ymarfer.*

## Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Penfro yw'r awdurdod sy'n gweithredu fel gwesteiwr rhanbarthol ar gyfer Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae'n hwyluso Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Cyfarwyddwr Statudol cyfredol y Gwasanaethau Cymdeithasol yw Cadeirydd Bwrdd CWMPAS. Mae Sir Benfro yn parhau i elwa o Dîm Diogelu Integredig, sy'n cyfuno gwaith strategol diogelu plant ac oedolion yn un gwasanaeth unedig.

Yn rhanbarthol, mae Sir Benfro yn parhau i chwarae rhan lawn a gweithredol yn is-grwpiau a ffrydiau gwaith amrywiol y Byrddau, ac mae wedi arwain ar ddatblygu'r Strategaeth Gynadledda ranbarthol ar Amddiffyn Plant ar ddechrau'r pandemig. Mae'r Uwch Reolwr Diogelu (sydd ar secondiad i'r gyfarwyddiaeth Addysg ar hyn o bryd) yn arwain ac yn cadeirio'r Is-grŵp Rhanbarthol ar Adolygu Ymarfer Plant, ac mae wedi cyfrannu at nifer o adolygiadau rhanbarthol, yn fwyaf diweddar yn swydd yr Ail Adolygydd. Cydnabyddir a nodir hyn fel ymrwymiad sylweddol o ran amser ac adnoddau gan Sir Benfro.

Mae uno'r fforwm MAPF â'r Is-grwpiau Adolygu Ymarfer, yn ogystal â gwaith ar y gweill i uno'r Is-grwpiau Adolygu Ymarfer Plant ac Oedolion fel un fforwm pob oed, yn ffrydiau gwaith eraill sy'n cael eu harwain gan Uwch Reolwr Diogelu Sir Benfro.

**Uchafbwynt Ymarfer Diogelu**

*Mae **Sir Benfro** wedi cynnal Digwyddiad Dysgu amlasiantaethol yn llwyddiannus mewn perthynas â FfPARh/MAPF lleol eleni, er gwaethaf cyfyngiadau COVID-19. Derbyniwyd hyn yn gadarnhaol iawn a chafwyd adborth amlasiantaethol rhagorol.*

Cyfrannodd Sir Benfro yn sylweddol unwaith eto at weithgaredd rhanbarthol yr Wythnos Diogelu Genedlaethol eleni, gyda'u Pobl Ifanc Iau oedd yn cael eu Diogelu yn lansio hyfforddiant diogelu rhyngweithiol ar-lein ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed (gweler Adran F). Yn ogystal, datblygodd tîm Cynadledda Amddiffyn Plant Sir Benfro fideo hyfforddi yn rhoi trosolwg o Weithdrefnau Diogelu Cymru o safbwynt diogelu plant, sydd ar gael ar wefan CYSUR fel adnodd hyfforddi rhithwir am ddim.

## Cyngor Sir Powys

Mae Cyngor Sir Powys wedi parhau i wneud cyfraniad cyson i Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru a'i ffrydiau gwaith ar bob lefel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae mwy o sefydlogrwydd ar lefel uwch o fewn y Gwasanaethau Plant wedi sicrhau ymgysylltiad cyson mewn cyfarfodydd ac is-grwpiau rhanbarthol. Yn nodedig, mae Uwch Reolwr Gwasanaethau Plant Powys bellach yn cadeirio'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol, gan arwain y fforwm i hwyluso a darparu cynigion hyfforddi rhanbarthol, yn ogystal â datblygu yn yr arena hyfforddi yn ei chyfanrwydd. Mae'r Uwch Reolwr hwn yn rhoi cefnogaeth bellach i'r rhanbarth wrth gadeirio Adolygiad Ymarfer Plant rhanbarthol.

Mae Gwasanaethau Plant Powys wedi arwain adolygiad rhanbarthol o'r cylch gorchwyl ar gyfer cyfarfodydd MACE, sy'n ddarn allweddol o waith y cytunwyd yn rhanbarthol ei fod o bwysigrwydd a gwerth uchel. Mae'r cyfarfodydd hyn bellach wedi datblygu ffocws strategol cynyddol, ac wedi ehangu i adlewyrchu'r rhyng-gysylltiad rhwng mathau ehangach o gamfanteisio.

Mae Powys wedi datblygu ymhellach ar eu gwaith clodwiw yn ystod y flwyddyn flaenorol ar greu gweithlu cryf a chadarn, gyda'u rhaglen gweithwyr cymdeithasol "Tyfu Rhai Eich Hun" yn recriwtio hyfforddeion gwaith cymdeithasol ychwanegol yn llwyddiannus. (gweler Adran C).
Mae swydd ychwanegol wedi'i chreu eleni ar lefel uwch, gyda'r Rheolwr Datblygu Ymarfer sydd newydd ei benodi yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a meysydd datblygu ymarfer eraill ym Mhowys. Mae Powys hefyd wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i fodel Arwyddion Diogelwch ar gyfer Cynadleddau Amddiffyn Plant eleni, dan arweiniad grŵp amlasiantaeth tasg a gorffen trwy gydol y broses gloi. Datblygwyd agenda glir ac agenda safonol, a arweiniodd at ddigwyddiad hyfforddi rhithwir ar-lein ar gyfer pob asiantaeth, a fynychwyd gan oddeutu 130 o staff. Mae'r adborth ers y cyflwyniad wedi bod yn gadarnhaol iawn.

### Uchafbwynt Ymarfer Diogelu

*Mae **Gwasanaethau Plant Powys** wedi ymdrechu i ddatblygu Cymuned Ymarfer, sy'n dod â staff ynghyd i ddysgu a datblygu sgiliau sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth ynghylch camfanteisio ar blant ac ymateb i hynny. Eleni, cyflwynwyd sesiynau gan Dr Beckett, y Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, Dr Hallet, NSPCC a PACE. Ymhlith y pynciau a drafodwyd mae beio dioddefwyr, diogelwch ar y we a chefnogi rhieni nad ydyn nhw'n cam-drin.*

Eleni, mae Powys wedi datblygu ar eu cyflawniadau sylweddol yn ystod y flwyddyn flaenorol, er eu bod wedi gorfod wynebu'r heriau cymhleth a ddaeth yn sgil COVID-19. Mae ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu coleddu yng Ngwasanaethau Oedolion Powys, gyda chyfarfodydd sgrinio diogelu ar-lein dyddiol bellach yn cael eu cynnal i benderfynu sut i ddelio orau ag ymholiadau sy'n dod i mewn. Mae'r alwad sgrinio hon wedi dod yn fwyfwy amlddisgyblaethol ei natur, gyda'r rheolwr tîm ar gyfer iechyd meddwl yn mynychu'r cyfarfodydd sgrinio hyn, yng ngoleuni'r rhyngwyneb rhwng iechyd meddwl ac oedolion sydd mewn perygl.

Gweithiodd Powys yn rhagweithiol hefyd i gysylltu ag unigolion a oedd yn hysbys i'r Gwasanaethau Oedolion i sicrhau bod eu lles yn cael ei gynnal a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu ar hyn o bryd. Yn Chwarter 1, cysylltwyd â 2275 o unigolion. O'r rheini, cyfeiriwyd 1210 at sefydliadau'r trydydd sector am gefnogaeth, a chyfeiriwyd 87 at Lywodraeth Cymru fel rhai oedd angen parsel bwyd.
Ar draws Gwasanaethau Plant ac Oedolion, mae Powys wedi hyrwyddo cefnogaeth i bobl a allai fod â phryderon ynghylch cam-drin, esgeulustod a thrais domestig. Gan weithio gyda chydweithwyr Cyfathrebu, fe wnaethant drefnu i wybodaeth gael ei chyhoeddi yn y wasg leol a chreu negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i gefnogi'r ymgyrch diogelu a cham-drin domestig.

## Cyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i gyfrannu at y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar bob lefel. Mae uwch swyddogion wedi mynychu ac wedi cymryd rhan ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol, ac mae cynrychiolaeth gyson briodol yn yr holl is-grwpiau rhanbarthol a nodwyd.

Mae Ceredigion yn y broses o ddatblygu Model Lles Pob Oed, gan gynnwys Gwasanaeth Diogelu Pob Oed. Mae hyn yn adlewyrchu ysbryd ac ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r dull pob oed o Ddiogelu Pobl. Eleni, mae Ceredigion wedi gwneud cynnydd i ddatblygu strategaeth drosfwaol, yn ogystal â'r swyddogaethau a'r strwythurau ym mhob rhan o'r model. Fel trawsnewidiad tymor hir, ar raddfa lawn ar draws y gwasanaeth, mae'r gwaith hwn yn

parhau, ond mae Ceredigion eisoes wedi gallu tystio i ddatblygiad pellach arfer da o ran gwaith pob oed a datblygu cymorth o ran ymyrraeth gynnar ac atal.

Mae'r dull pob oed hefyd wedi'i gymhwyso i gyd-fynd â'r Broses Pryderon Proffesiynol (Rhan 5; Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol) ar draws prosesau Diogelu Plant ac Oedolion yng Ngheredigion, sydd wedi cynyddu cysondeb mewn prosesau lleol.

**Uchafbwynt Ymarfer Diogelu**

*Mae* ***Holiadur Adborth Ansoddol Sicrhau Ansawdd*** *wedi'i ddatblygu gan y Tîm Diogelu Oedolion ar y cyd â Thîm Ymchwil i Ymarfer Prifysgol Abertawe. Gweithredir hyn wrth ddychwelyd at lacio mwy ar y cyfyngiadau, er mwyn gallu cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb fel ffordd o gynyddu ystyr a gwerth cyffredinol.*

Mae swydd ychwanegol wedi'i chreu yng Ngheredigion eleni, o fewn y Gwasanaeth Lles Meddwl ond yn gweithio gyda phlant / teuluoedd mewn achosion lle mae plant ar fin dod i mewn i ofal. Mae'r rôl hon yn canolbwyntio ar gysylltu â gwasanaethau iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), addysg, gofal cymdeithasol, y trydydd sector ac asiantaethau gwirfoddol.

## Cyfarwyddwyr Addysg Rhanbarthol

Mae gan bob partner addysg rhanbarthol fframwaith cyson ar gyfer sicrhau ansawdd diogelu mewn ysgolion, trwy broses hunan-werthuso flynyddol ac archwiliad allanol bob tair blynedd. Rhennir unrhyw themâu sy'n codi o wiriadau iechyd ar ddiogelu, megis diogelwch safle, hyfforddiant, cysondeb â pholisi a chysondeb ymarfer, â Phrifathrawon a Llywodraethwyr.

Cynrychiolir addysg ar yr holl Grwpiau Gweithredol Lleol ac is-grwpiau'r Bwrdd. Rhoddir sicrwydd ynghylch arfer diogelu trwy gyflwyno adroddiad blynyddol Adran 175 i'r Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol, sy'n asesiad cynhwysfawr o holl brosesau'r systemau diogelu o fewn Addysg ar draws y rhanbarth. Cynrychiolir staff addysg ym mhob is-grŵp Rhanbarthol ac maent yn rhoi cyfraniad llawn a gweithredol i ffrydiau gwaith y Bwrdd.

**"Adborth o'r Diwrnod Datblygu:**

*Mae gweithio'n agosach rhwng Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod ymateb COVID-19 wedi caniatáu i waith atal wedi'i gyd-gysylltu gael ei wneud"*

Ar hyn o bryd, mae pob Cyfarwyddwr Addysg Statudol lleol yn mynychu'r Bwrdd Gweithredol ar sail cylchdro. Cymerwyd y cam hwn yn syth ar ôl ymadawiad y Cyfarwyddwr Statudol blaenorol yn Sir Benfro, ac ef oedd y cynrychiolydd rhanbarthol ar y Bwrdd yn y flwyddyn flaenorol. Datblygwyd perthynas waith dda gyda'r holl gydweithwyr Addysg lleol, ac mae gan bawb ddiddordeb mewn datblygu ar hyn yn y flwyddyn i ddod.

Mae addysg wedi cyfrannu'n weithredol at Grŵp Gweithredol COVID-19 eleni. Mae pandemig COVID-19 wedi tystio i'r rôl sylweddol y mae addysg yn ei chwarae wrth ddiogelu, ac wedi tynnu sylw at werth cryfhau cysylltiadau â'r gwasanaeth, yn enwedig o ran atal ac ymyrraeth gynnar. O ganlyniad, un o nodau allweddol y Byrddau yn y flwyddyn i ddod yw datblygu ar y cydweithredu sydd eisoes yn digwydd gyda chydweithwyr Addysg rhanbarthol.

## Addysg Bellach Rhanbarthol (AB)

Mae'r colegau Addysg Bellach (AB) yn y rhanbarth wedi cefnogi gwaith y Byrddau ac wedi cydymffurfio'n llawn wrth fabwysiadu eu polisïau. Maent hefyd wedi cefnogi gwaith y Byrddau trwy ddarparu lleoliadau ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd, ac eleni maent wedi rhoi cefnogaeth dechnegol i hwyluso digwyddiad dysgu rhithwir hynod lwyddiannus ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant Cryno, CYSUR 7 2018. Fe'u cynrychiolir ar is-grwpiau'r Byrddau gan yr Uwch Arweinydd Dynodedig ar gyfer Diogelu yng Ngholeg Sir Benfro, sef cyswllt dynodedig rhanbarthol y Bwrdd ar gyfer Colegau AB. Mae'r Arweinydd AB hefyd wedi arwain ar yr ymateb rhanbarthol parhaus i ganllawiau Llywodraeth Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 270/2021, ac mae'n cyd-gadeirio Grŵp Diogelu mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Yn ddiweddar maent wedi ymuno â'r Grŵp Adolygu Unedig Sengl i gynrychioli'r Byrddau, ac yn parhau i ddarparu mewnbwn allweddol i'r gwaith parhaus ynghylch cynllunio trosglwyddo a hunanladdiad.

Mae colegau AB ledled y rhanbarth wedi parhau â'u gwaith partneriaeth sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a lles dysgwyr, ac wedi bod yn llwyddiannus mewn dau brosiect adeiladu ar gyfer iechyd meddwl gwerth dros filiwn o bunnoedd i Lywodraeth Cymru, sydd wedi sicrhau cefnogaeth sylweddol i ddysgwyr a staff yn y Colegau AB yn rhanbarth y Byrddau. Mae adnoddau prosiect 2019/20 wedi'u llwytho ar safle Hwb Llywodraeth Cymru.

Mae hyfforddiant gloywi ar ddiogelu wedi'i ddarparu ar draws y colegau rhanbarthol o bell eleni, yn gyson â'r modiwlau diogelu wedi'u diweddaru, ac mae hyfforddiant diogelu newydd wedi'i ysgrifennu gan Uwch Arweinydd Dynodedig Coleg Sir Benfro ar gyfer Diogelu i Fyrddau Corfforaethol Colegau AB.  O fewn yr holl Golegau AB, mae timau diogelu cryf a rhagweithiol wedi'u sefydlu a'u datblygu ymhellach eleni, sydd wedi chwarae rhan ganolog mewn gweithio amlasiantaeth. Maent hefyd yn darparu cefnogaeth ôl-16 i waith gweithredu Rhagofalon Diogelu Rhyddid Awdurdodau Lleol.

## Cynrychiolydd Comisiynu Rhanbarthol

Cynrychiolir Partneriaeth Comisiynu Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y Byrddau Gweithredol ac mae'n cysylltu â Phartneriaeth Comisiynu Powys ar gyfer cydweithredu rhanbarthol.
Mae comisiynu wedi bod yn glodwiw fel gwasanaeth trwy gydol y pandemig COVID-19. Mae eu mewnbwn i ddyletswyddau a ffrydiau gwaith cyffredin y Byrddau, yn ychwanegol at eu cyfraniad nodedig i Grŵp Gweithredol COVID-19, wedi bod yn werthfawr iawn ac wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y Byrddau.


Darn allweddol o waith a wnaed eleni, fel y cydnabuwyd eisoes, yw'r Polisi Rheoli Risg ac Uwchgyfeirio. Mae'r adnodd hwn yn datblygu ar y Polisi Uwchgyfeirio Pryderon presennol a ddatblygwyd y llynedd, gyda ffocws ar berfformiad darparwyr, dadansoddiad o uwchgyfeirio risg pellach sy'n gysylltiedig â COVID-19, a gweithredu protocolau a phrosesau uwchgyfeirio i liniaru risg. Roedd y dull system gyfan cydgysylltiedig tuag at risg yn sicrhau cysondeb o ran dull a pherchnogaeth gyfun o her COVID-19. Gwneir gwaith pellach yn y flwyddyn i ddod i ddatblygu dull polisi ar gyfer gofal cartref.

# (h) Asesiad o sut mae'r bwrdd yn defnyddio ei adnoddau


Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn defnyddio'r fformiwla ariannu genedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau partner statudol. Mae'r graffiau a'r siartiau isod yn dangos sut mae'r Byrddau wedi defnyddio'u hadnoddau ariannol yng nghyd-destun incwm, gwariant a chyfraniadau partneriaid yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae holl bartneriaid statudol Byrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyfrannu'n ariannol at gynnal y Byrddau, ac eithrio Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r cyfraniad hwn yn seiliedig ar ardaloedd poblogaeth yn y rhanbarth ar draws y sefydliadau amrywiol. Cyfanswm yr incwm i'r Byrddau Diogelu eleni oedd £148,120, sef yr isaf ar draws Cymru.

## Incwm 2020-2021




## Gwariant 2020 - 2021




Cydnabyddir nad yw'r adnoddau a ddefnyddir i gefnogi gwaith y Byrddau Diogelu Rhanbarthol wedi'u cyfyngu i gyfraniadau ariannol gan asiantaethau partner statudol. Mae Cadeiryddion y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, Aelodau'r Bwrdd Gweithredol, Cadeiryddion Is-grwpiau ac aelodau yn rhoi cryn dipyn o'u hamser i gefnogi'r Byrddau a'u gwaith. Mae hyn yn aml yn ychwanegol at eu rolau proffesiynol a nodwyd a'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Mae natur amrywiol gwaith y Byrddau yn ei gwneud hi'n anodd adrodd arno o fewn cyd-destun adnoddau mesuradwy, ac nid yw bob amser yn amlwg weladwy i weithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill. Dim ond rhai enghreifftiau o waith y Bwrdd yw proses, rheoli a chyhoeddi Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion, datblygu protocolau a pholisïau rhanbarthol, yn ogystal â phrosiectau sy'n gofyn am lefelau uchel o fewnbwn, gwybodaeth ac arbenigedd proffesiynol.

Yn 2020-21, roedd mwyafrif gwariant y Byrddau wedi'i neilltuo i gostau cynnal cyffredinol, gan gynnwys staffio'r Uned Fusnes (69%). Roedd comisiynu gwasanaethau a hyfforddiant hefyd yn gyfrifol am swm sylweddol o wariant y Bwrdd (21%), sy'n adlewyrchiad o'r allbwn cynyddol o'r Is-grŵp Hyfforddi i gyflawni'r Strategaeth Hyfforddi a'r Cynllun Cyflenwi 3 blynedd cysylltiedig. Cyfanswm y costau gweinyddol a TG oedd 7% eleni, gyda chostau cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a chyfieithu yn cynyddu i 4%, gan adlewyrchu'r ffaith fod mwy o adnoddau a chynnwys wedi'u cynhyrchu i ymarferwyr a'r cyhoedd.

> **Adborth gan aelod o'r Bwrdd Gweithredol:**
> *Mae'r adroddiad data rydyn ni'n ei dderbyn bob chwarter yn gynhwysfawr ac o ansawdd uchel*

# (i) Themâu yn y modd mae'r byrddau diogelu wedi ymarfer eu swyddogaethau

## Yr Ymateb Amlasiantaethol i'r Pandemig COVID-19

Mae'r ymateb amserol, prydlon a chreadigol gan bartneriaid Byrddau Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i'r argyfwng cenedlaethol hwn wedi'u dangos yn ddigonol trwy gydol yr adroddiad hwn gyda llawer o enghreifftiau wedi'u darparu. Fel Byrddau, rydym yn falch o'r gwaith cydweithredol a wnaed ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae'n anochel fod yr ymateb a'r adferiad i'r pandemig dros y 12 mis diwethaf wedi bod yn un o'r themâu sylfaenol mwyaf arwyddocaol i'r gwaith amlasiantaethol a wnaed gan bartneriaid, dan arweiniad nifer o is-grwpiau, gweithgorau a grwpiau tasg a gorffen pwrpasol y Byrddau.

Mae'r goblygiadau tymor hwy i wasanaethau iechyd meddwl i blant ac oedolion sydd mewn perygl, o ganlyniad uniongyrchol i'r cyfnodau clo cenedlaethol, wedi bod yn faes ffocws a thrafodaeth ar lefel y Bwrdd Gweithredol a'r Grŵp Gweithredol Lleol, a bydd yn ymddangos yn nhrosolwg y Byrddau o gynlluniau adfer asiantaethau partner yn y flwyddyn i ddod. Mae mwy o wybodaeth am waith a phrosiectau parhaus ledled y rhanbarth i gefnogi'r gwaith hwn i'w gweld isod o dan Iechyd Meddwl, Hunan-niweidio ac Atal Hunanladdiad. Mae'r defnydd hynod effeithiol o dechnoleg a llwyfannau digidol i gefnogi a galluogi'r gwaith hwn eisoes wedi'i drin o dan adran C.

Yn ychwanegol at yr uchod, ac yn unol â swyddogaethau a chyfrifoldebau allweddol y Byrddau Diogelu Rhanbarthol i amddiffyn ac atal pobl yn eu hardal rhag profi niwed a dioddef camdriniaeth ac esgeulustod, mae nifer o gamau gweithredu a digwyddiadau eraill wedi digwydd i gefnogi ei ganlyniadau yn y maes hwn. Mae datblygiad parhaus, aeddfedrwydd a strwythurau llywodraethu presennol y Byrddau wedi eu galluogi i gefnogi a chwblhau nifer o ddarnau gwaith rhanbarthol ac asiantaeth-benodol eraill ochr yn ochr â'i ymateb i'r pandemig.  Amlinellir enghreifftiau o'r gwaith hwn isod.



## Ymdrin â Chamfanteisio

Mae'r Bwrdd wedi arwain nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ymdrin â chamfanteisio ar blant. Mae adolygiad a diweddariad cynhwysfawr o gylch gorchwyl cyfarfod Rhanbarthol Aml-Asiantaeth Camfanteisio Rhywiol ar Blant (MACE) wedi digwydd, a datblygwyd a gweithredwyd model rhanbarthol newydd. Goruchwyliwyd y gwaith hwn gan grŵp tasg a gorffen rhanbarthol, ac mae wedi ystyried yr ymchwil fwyaf diweddar i gamfanteisio ar blant. Mae'r model newydd yn cymryd agwedd strategol tuag at y gwaith hwn ac mae bellach yn ystyried plant sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio'n ehangach, gan gynnwys camfanteisio troseddol. Mae set ddata gynhwysfawr yn y broses o gael ei datblygu i gefnogi a gwella'r gwaith hwn ymhellach. Mae'r gwaith i ddatblygu strategaeth camfanteisio ranbarthol yn parhau, gyda chyhoeddi'r gwaith hwn ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod. Hyrwyddwyd thema camfanteisio ymhellach yn ystod cyflwyniad i aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn y flwyddyn adrodd flaenorol gan Heddlu Dyfed-Powys ar Llinellau Cyffuriau. Rhoddwyd sicrwydd ynghylch dull yr heddlu, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau penodol o blant ac oedolion y gwyddys eu bod yn arbennig o agored i niwed a thargedau posibl ar gyfer gangiau sy'n cynllunio drygioni yn y rhanbarth. Mae gwaith pellach i godi ymwybyddiaeth ledled y rhanbarth wedi'i hyrwyddo trwy nifer o weithdai dan arweiniad yr Heddlu, sydd wedi cynnwys ysgolion a staff addysg ledled y rhanbarth.

## Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Ymateb i Gam-drin Rhywiol Plant a'i Daclo

Yn unol â'r gofynion i bob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru oruchwylio a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol hwn, mae gwaith amlasiantaeth helaeth a chynhwysfawr wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gefnogi hyn. Mae hyn yn cynnwys gwaith i gefnogi ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus, ac mae wedi cynnwys hyrwyddo'r Ymgyrch Stop it Now! yn eang mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol ac adnoddau cysylltiedig ar draws asiantaethau partner y Bwrdd, gan dargedu gwasanaethau ataliol yn benodol. Mae Byrddau Iechyd ledled y rhanbarth wedi hyrwyddo amrywiaeth o wybodaeth, hyfforddiant ac adnoddau cysylltiedig i staff, gan gynnwys ysbytai a lleoliadau cymunedol, gan wneud defnydd llawn o'r cyfryngau cymdeithasol, y fewnrwyd a gwefannau, sesiynau briffio staff a chylchlythyrau. Mae hyn wedi cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â Cham-drin Plant yn Rhywiol a chamfanteisio, y Prosiect Truth a'r ymgyrch Mae'n bryd i ni siarad amdano. Mae Arweinwyr Diogelu Addysg wedi gweithio'n agos gydag ysgolion i hyrwyddo ymwybyddiaeth, sydd wedi cynnwys hyrwyddo amrywiol adnoddau perthnasol a mynediad at becynnau hyfforddi, sy'n cynnwys llyfryn What's the Problem? gan Sefydliad Lucy Faithfull, canllaw i rieni plant a phobl ifanc sydd wedi mynd i drafferthion ar-lein; Child Sexual Abuse prevention: what we all need to know a sesiynau Parents Protect i gynorthwyo rhieni i amddiffyn plant rhag y risg o gam-drin plant yn rhywiol.

Mae Grwpiau Strategol a Chyflenwi Rhanbarthol VAWDASV wedi gwneud gwaith sylweddol mewn perthynas â hyrwyddo gwybodaeth i blant, rhieni a gofalwyr ynghylch perthnasoedd iach. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag Arweinwyr Cwricwlwm ledled y rhanbarth i ddechrau paratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm Perthynas ac Addysg Rhyw (RSE) newydd a sicrhau bod pynciau sy'n ymwneud â VAWDASV yn cael eu cyflwyno'n gyson a gyda hyder. Mae'r rhanbarth wedi cyflwyno

cais mewn partneriaeth ag Inspiring Minds i gyflwyno darpariaeth ranbarthol o'r rhaglen 'Iachau Gyda'n Gilydd'. Mae'r rhaglen hon wedi'i hanelu'n benodol at weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi profi neu fod yn dyst i VAWDASV a'u teuluoedd. Mae'n ddull sy'n seiliedig ar drawma ac mae'n gweithio ar ymwybyddiaeth emosiynol. Mae'r Byrddau Iechyd wedi cymryd rhan mewn sawl ymgyrch cyfryngau cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar CSA, SV a chysylltiadau iach / afiach, gan gynnwys yr ymgyrch genedlaethol Dyw hyn ddim yn iawn. Datblygwyd tudalen fewnrwyd bwrpasol ar gyfer Ymddygiad Rhywiol Niweidiol gyda dolenni i Hyfforddiant HSB Barnado's ar-lein, ynghyd ag adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, rhieni a gofalwyr.

O fewn Addysg, datblygwyd rhaglen hyfforddi ddiogelu bwrpasol gan y Diogelwyr Iau ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed yn Sir Benfro. Adnodd hyfforddi ar-lein rhyngweithiol yw hwn gyda sgript a deunyddiau ategol ar gyfer hwyluswyr. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys perthnasoedd iach, cydsyniad a cham-drin plant yn rhywiol. Mae'r hyfforddiant yn rhad ac am ddim, ac mae wedi'i hyrwyddo i bob ysgol a staff addysg. Mae sesiwn hyrwyddo wedi'i ddiweddaru ar y gweill ar gyfer Medi 2021. Mae gwaith sylweddol pellach wedi'i wneud ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru i gefnogi ymarferwyr i ddysgu am Gam-drin Plant yn Rhywiol, Camfanteisio Rhywiol ar Blant, Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a Cham-drin Ar-lein. Ymhlith yr enghreifftiau mae hyrwyddo a rhannu adnoddau yn eang a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r materion hyn, yn ogystal â hyrwyddo'r diweddariadau "cadw'n ddiogel ar-lein" sy'n cynnwys y 'Pecyn cymorth 'Codi llaw a chodi llais'. Rydym wedi sicrhau bod Briff 7 munud ar Ymddygiad Rhywiol Niweidiol ar gael, sydd wedi'i hyrwyddo'n eang yn rhanbarthol a'i roi ar wefan y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, y gall ymarferwyr a'r cyhoedd ei gyrchu.

Mae nifer o ddarnau eraill o waith a wnaed gan ein Byrddau Iechyd a'n Harweinwyr Diogelu Addysg yn cynnwys cyflwyno tri sesiynau gan Sarah Walton, Stop it Now! Gweithiwr Prosiect Cymru ar Ddeall Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, Mae Gweithwyr Proffesiynol yn Amddiffyn, a Gwytnwch Digidol, gyda staff gofal cymunedol a gofal sylfaenol wedi'u targedu'n benodol ar gyfer yr hyfforddiant hwn. Yng Ngheredigion mae llawer o'r Unigolion Diogelu Dynodedig (DSPs) eilaidd wedi cael eu cefnogi a'u hannog i fynychu hyfforddiant yr Heddlu mewn perthynas â Llinellau Cyffuriau a chamfanteisio troseddol ar blant.






# Iechyd Meddwl, Hunan-niweidio ac Atal Hunanladdiad

Mae iechyd meddwl, hunan-niweidio a hunanladdiad yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r Bwrdd a'i asiantaethau partner, ac mae gwaith sylweddol yn parhau i ddigwydd ar draws y rhanbarth. Penodwyd cydlynydd rhanbarthol y llynedd i helpu i weithredu'r Strategaeth Genedlaethol Atal Hunanladdiad Siarada â mi 2, a fydd yn bwysig yn y flwyddyn i ddod wrth yrru'r agenda gydweithredol hon yn ei blaen. Mae Cydlynydd Cenedlaethol newydd yn arwain ar nifer o fentrau gan gynnwys data gwyliadwriaeth mewn amser real, sy'n cael ei groesawu yng ngoleuni pryderon ynghylch cyfraddau uwch posibl o hunanladdiad a hunan-niweidio yn ystod COVID.

Mae cefnogaeth i oroeswyr a gwasanaethau profedigaeth i bobl y mae'r materion hyn wedi effeithio arnynt hefyd yn flaenoriaeth barhaus. Mae cyllid ar gael ledled y rhanbarth, yn enwedig ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector, ar gyfer y mater hwn. Mae adroddiad a gyhoeddwyd y llynedd wedi tynnu sylw at y risg uwch i bobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn, yn enwedig rhai 18-24 oed, sy'n cael meddyliau am hunanladdiad ar gyfradd sy'n ddwbl cyfradd y boblogaeth yn gyffredinol.
Felly, ystyrir bod ymyrraeth ac atal cynnar yn hanfodol o ran y gefnogaeth sydd ei hangen, ac mae hyn yn parhau i gael ei hyrwyddo ledled y rhanbarth.

Mae enghreifftiau o'r hyn sy'n digwydd i gefnogi'r gwaith hwn yn rhanbarthol yn cynnwys Grŵp Cyflenwi Gorllewin Cymru (ôl troed Hywel Dda), sy'n parhau i gwrdd yn rheolaidd ac mae presenoldeb da ymysg y gwahanol asiantaethau. Mae nifer o brosiectau ar waith i gefnogi iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc trwy bandemig COVID-19.  Mae Gwasanaethau Plant, Addysg a'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â phlant sy'n agored i niwed, a rhannwyd adnoddau lles gyda disgyblion a staff.



Mae'r timau Ysgolion Iach yn Sir Gaerfyrddin wedi rhannu matrics o wybodaeth ar gyfer teuluoedd ac ysgolion. Gwneir y defnydd mwyaf posibl o gyfathrebu digidol hefyd. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cyflwyno llwybr iechyd meddwl gwell mewn cydweithrediad â'r sector iechyd a'r trydydd sector, i ymateb i'r cynnydd a ragwelir mewn atgyfeiriadau yn ystod COVID-19. Yn dilyn y prosiect llwyddiannus i wella iechyd meddwl a lles yn Llanelli, mae'r prosiect hwn bellach yn cael ei gyflwyno ledled Sir Gaerfyrddin ac roedd ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Gofal Cymdeithasol. Sefydlwyd grŵp i ddatblygu strategaeth ymyrraeth gynnar gydweithredol hefyd i ymateb i anghenion iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc. Ar hyn o bryd cadeirir y grŵp hwn gan y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae ffocws y grŵp hwn a'i waith yn cynnwys cyflwyno Cynorthwywyr Cefnogi Llythrennedd Emosiynol mewn ysgolion i gefnogi ymarfer sy'n seiliedig ar drawma a rheoli pryder, ac i roi hwb i'r capasiti staffio presennol trwy arian grant i helpu i ddarparu ymyriadau yn uniongyrchol i ddisgyblion, gan gynnwys mwy o allu i gwnsela.

Mae Gweithredu dros Iechyd Meddwl Gorllewin Cymru (WWAMH) wedi cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth ynghylch hunanladdiad a sesiynau ymwybyddiaeth iechyd meddwl i grwpiau a sefydliadau cymunedol ledled Gorllewin Cymru trwy Zoom. Mae Ardal 43 wedi bod yn darparu gwasanaeth cwnsela ar-lein i helpu i gynyddu mynediad at gwnsela mewn ardaloedd gwledig. Darparwyd arian ychwanegol o grant LlC i gefnogi'r prosiect hwn. Parhaodd Sefydliad DPJ a Thir Dewi i dyfu a datblygu a darparu cefnogaeth iechyd meddwl i gymunedau ffermio gwledig Gorllewin Cymru, gan gynnwys Ceredigion. Mae Sefydliad DPJ wedi darparu Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i grwpiau ffermio yng Ngorllewin Cymru, ac mae hyn yn cynnwys adran ar ymwybyddiaeth o hunanladdiad. Sicrhaodd Partneriaeth Iechyd Meddwl Powys gyllid LlC ar wahân y llynedd ar gyfer swydd Cydlynydd i archwilio'r anghenion ym Mhowys o ran hunanladdiad a hunan-niweidio. Yn ystod COVID-19, mae gwaith partneriaeth gyda'r Arolygydd Heddlu lleol ac eraill wedi canolbwyntio ar archwilio achosion a thueddiadau dros y pum mlynedd diwethaf, gan gysylltu â data'r crwner yn ogystal â data cyhoeddus. O ran gwaith sy'n benodol i Geredigion, mae'r gwasanaeth peilot Ysgolion o fewn Cyrraedd Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) wedi bod yn gweithredu yng Ngheredigion ers cryn amser, ac mae'n rhoi cefnogaeth i ddisgyblion ac athrawon, gan gynnwys sesiynau grŵp a hyfforddiant ar iechyd meddwl. Mae'r Prosiect Amethyst wedi bod yn cyflwyno gweithdai drama i bobl ifanc ynghylch hunan-niweidio ac iechyd meddwl gyda Theatr y Byd Bach yn Aberteifi.

Y nod yw gwella dealltwriaeth ynghylch iechyd meddwl, cefnogi pobl ifanc a gwrando ar eu straeon a'u profiadau. Mae Hyrwyddwyr Amser i Newid Cymru hefyd wedi bod yn cyflwyno sgyrsiau ymwybyddiaeth iechyd meddwl yng Ngheredigion pan ofynnir amdanynt, ac mae Mind Aberystwyth wedi cyflwyno Monitro Gweithredol (cwrs ffôn chwe wythnos ar hyn o bryd) i helpu gyda phryder, iselder ysbryd a rheoli iechyd meddwl ar lefel sylfaenol a chymunedol. Cynhaliodd Fferm Gofal Clynfyw y Prosiect Mynydd i'r Mor i gefnogi Sefydliad DPJ ac i godi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl gwledig. Digwyddodd hyn dros bum niwrnod, pan gafwyd dros 100 o bobl yn cerdded ac yn padlo, gan arwain at ffurfio fflotila dynol ar y môr, a oedd yn bwerus iawn. Yn Sir Benfro, mae grŵp tasg a gorffen yn ymwneud â hunanladdiad wedi'i sefydlu ac mae'n cynnwys datblygu pecyn E-Ddysgu ar gyfer holl staff y cyngor, aelodau etholedig a gwirfoddolwyr. Mewn partneriaeth â'r Samariaid, daeth y grŵp o hyd i arian yr heddlu i gael arwyddion gyda rhif y Samariaid a neges gefnogol wedi'u gosod mewn lleoliadau allweddol yn Sir Benfro. Codwyd arwyddion ar rai pontydd, gan gynnwys Pont Cleddau, yn ogystal â safleoedd eraill sydd â hanes o risg uchel o hunanladdiad.

Mae'r Modiwl Hyfforddi Diogelu Pobl Ifanc, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Diogelu Iau, yn gwrs hyfforddi pwrpasol sy'n adlewyrchu'r modiwl haen un 'Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion', ond mae wedi'i addasu i fod yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged o bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed. Daw'r modiwl gyda sgript, ffilmiau a gweithgareddau cyfranogi fel y gall unrhyw athro neu weithiwr ieuenctid sy'n gweithio gyda phobl ifanc ei gyflwyno. Mae'r hyfforddiant yn helpu pobl ifanc i nodi pryderon diogelu mewn eraill ac yn eu harfogi â sgiliau i gefnogi ac i geisio cymorth, gan helpu i gadw ei gilydd yn ddiogel.




*Modiwl Hyfforddi Diogelu Pobl Ifanc*

Mae cytundeb gwaith ar droed i Goleg Sir Benfro alw cyfarfod strategaeth pan fydd myfyriwr coleg yn marw'n annisgwyl dros 18 oed. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u strwythuro'n debyg i gyfarfod PRUDIC (a gynhelir ar gyfer plant o dan 18 oed), a chefnogir y coleg gan bartneriaid amlasiantaethol i gynllunio ymateb cydgysylltiedig i'r teulu yn eu colled, a nodi a chefnogi unrhyw bobl ifanc eraill a allai fod wedi dod yn agored i niwed.

Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg (EPS) wedi cynhyrchu Protocol Digwyddiadau Trawmatig ar gyfer Ysgolion wedi'i adnewyddu a'i ddiweddaru. Mae'r protocol hwn wedi'i gynllunio i sicrhau gweithredu cynnar cymesur yn dilyn argyfwng neu achos brys, i leihau difrifoldeb straen trawmatig yn sylweddol a'r risg o ganlyniadau iechyd ac emosiynol tymor hir i ddisgyblion a staff fel ei gilydd. I gyd-fynd â'r protocol ceir hyfforddiant penodol a ddarperir gan Seicolegwyr Addysg, ar gyfer uwch reolwyr a nodwyd ym mhob ysgol yn Sir Benfro, y dyrennir rôl  Cydlynydd Digwyddiadau Trawmatig (TEC) iddynt.

Mae'r grŵp Tîm Gweithredu Atal Hunanladdiad (SPAT) yn bartneriaeth rhwng Iechyd ac Awdurdod Lleol Sir Benfro, ac fe'i sefydlwyd yn ystod haf 2008. Mae wedi parhau i gwrdd bob tymor ers hynny. Nod y grŵp yw darparu hyfforddiant ac arweiniad i'r rheini sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, i ddarparu Offeryn Llwybr Atgyfeirio Atal Hunanladdiad y cytunwyd arno a phecyn hyfforddi cysylltiedig.

# Ymddygiadau Risg Uchel i Oedolion sydd mewn Perygl (gan gynnwys celcio a hunan-esgeuluso)


*Cyflwyniad i Dân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar y Protocol Ymddygiad Risg Uchel i Oedolion mewn Perygl*

Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru yn darparu fframwaith cadarn a chynhwysfawr i asiantaethau ddarparu ymyrraeth gynnar i oedolion sy'n dangos ymddygiadau risg uchel, gan gynnwys y rhai sy'n celcio ac yn hunan-esgeuluso. Beth bynnag am hyn, mae nifer anghymesur o uchel o achosion i'w gweld mewn atgyfeiriadau i'r Bwrdd Adolygiadau Ymarfer Oedolion a'r FfPARh/MAPFs, lle yn anffodus mae oedolion naill ai wedi marw neu wedi dioddef niwed difrifol lle mae pryderon o'r natur hon yn hysbys ac yn cael eu deall gan weithwyr proffesiynol sy'n aml yn teimlo'n ddi-rym i ymyrryd yn effeithiol i atal niwed neu leihau risg. Mae'r maes gwaith hynod gymhleth a heriol hwn wedi bod yn ffrwd waith allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i'r Grŵp Arweinwyr Diogelu Oedolion amlasiantaethol rhanbarthol, sydd wedi datblygu protocol a fframwaith aml-asiantaeth rhanbarthol i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth sy'n dod o fewn y categori hwn. Y gobaith yw y bydd y fframwaith yn helpu i wella dealltwriaeth ymarferwyr o'r ddeddfwriaeth yng Nghymru, ochr yn ochr â gwell dealltwriaeth o sut y gellir gweithredu deddfwriaeth galluedd meddyliol i gefnogi oedolion mewn dull amlasiantaethol mwy creadigol sy'n canolbwyntio ar atebion. Mae protocol drafft wedi'i gymeradwyo a fydd yn cael ei lansio a'i weithredu fel rhan o weithgareddau'r Wythnos Diogelu Genedlaethol ym mis Tachwedd 2021.

## Llety i'r rheini ag Anghenion Cymhleth

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gwaith wedi dechrau ar draws y rhanbarth o ran darparu ar gyfer y rhai ag anghenion cymhleth. Arweiniwyd y gwaith trwy grŵp tasg a gorffen arbenigol dan gadeiryddiaeth Pennaeth Oedolion a Gofal Cymdeithasol Sir Gaerfyrddin. Mae materion a nodwyd yn ymwneud â bwlch a nodwyd mewn adnoddau yn y system cyfiawnder troseddol i oedolion gyda gwahanol lefelau o anghenion iechyd meddwl, sydd hefyd yn cyflwyno ymddygiadau a allai fod yn niweidiol i eraill. Ymhlith yr enghreifftiau mae oedolion ag anabledd dysgu a /neu awtistiaeth, sydd hefyd yn cyflwyno ymddygiad heriol a llawn risg yn y gymuned. Nodwyd yn aml bod anghenion gofal a chymorth ar gyfer yr unigolion hyn yn aneglur, ond mae'r pecyn cymorth sydd ei angen yn aml yn sylweddol yng ngoleuni'r risg a berir, ac mae diffyg adnoddau a darpariaeth breswyl arbenigol yn y system cyfiawnder troseddol yn aml yn hidlo drwodd i ofal cymdeithasol trwy geisiadau am becynnau gofal costus. Ystyrir bod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu defnyddio yn yr achosion hyn fel ffordd o fonitro troseddwyr risg uchel yn y gymuned. Mae hyn yn codi cwestiynau a heriau pellach yng nghyd-destun hawliau dynol a chydraddoldeb i'r unigolion hyn. Mae'r grŵp tasg a gorffen a sefydlwyd wedi canolbwyntio ar yr angen i asiantaethau gydweithredu i ddatblygu ymateb system gyfan, sy'n darparu'r gefnogaeth gywir yn y lle iawn wrth ddiogelu'r unigolion hyn yn effeithiol a diogelu'r cyhoedd. Mae gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio'n benodol ar anghenion tai, gan gefnogi ymateb amlasiantaethol rhanbarthol i'r maes cymhleth hwn.

# Hwb Bregusrwydd - Heddlu Dyfed-Powys

Arweiniodd creu desg fregusrwydd o fewn Heddlu Dyfed-Powys ym mis Ebrill 2019 ar gyfer dioddefwyr Cam-drin Domestig at ddatblygu ymateb llawer ehangach ledled yr heddlu i fregusrwydd, sy’n cynnwys pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl wedi’u nodi a’r rhai y nodwyd eu bod mewn perygl o gael eu hecsbloetio. Ym mis Mawrth 2020, lansiwyd yr Hwb Bregusrwydd. Wedi’i leoli ym Mhencadlys yr Heddlu yng Nghaerfyrddin, mae’r Hwb wedi dwyn ynghyd wasanaethau diogelu canolog yr heddlu gan gynnwys yr Uned Atgyfeirio Ganolog (Diogelu Plant ac Oedolion), Hwb Amddiffyn y Cyhoedd (Rheoli Troseddwyr - MAPPA ac IOM), y Tîm Brysbennu Iechyd Meddwl, a’r Uned Lleihau Troseddu a Niwed Plismona Cymdogaeth (sy’n ymateb i fregusrwydd cymunedol ac unigolion ar lefel is) i Hwb Bregusrwydd ehangach.

Mewn partneriaeth ag asiantaethau VAWDASV, mae’r Hwb Bregusrwydd bellach yn cynnwys uned asesu risg eilaidd. Mae’r tîm hwn yn darparu adolygiad eilaidd o’r holl ddigwyddiadau cam-drin domestig i nodi troseddau ymddygiad a gollwyd fel gorfodaeth a rheolaeth neu stelcio. Mae’r asiantaethau wedi sefydlu proses ‘Trafodaeth Ddyddiol’ lle mae pob digwyddiad Cam-drin Domestig sy’n cwrdd â meini prawf MARAC yn cael ei ystyried gan banel amlasiantaethol o fewn 48 awr. Mae hyn wedi gwella’n sylweddol ar yr amserau y mae goroeswyr yn derbyn ymgysylltiad a chefnogaeth ynddynt.


Er mwyn cefnogi’r arferion gwaith newydd, defnyddiwyd £350,000 o arian cyfalaf i sicrhau bod lleoliadau a nodwyd ym mhob un o’r pedair ardal awdurdod lleol yn derbyn yr offer fideo-gynadledda diweddaraf. Oherwydd y pandemig, ataliwyd datblygiad pellach yr Hwb dros dro ond ail-ddechreuwyd ar y gwaith ym mis Ionawr 2021. Ers yr amser hwnnw, sicrhawyd secondiad iechyd meddwl amser llawn i gefnogi’r plismona a’r ymatebion ar y cyd i heriau iechyd meddwl.
Mae gan yr Hwb Bregusrwydd gynllun cyflawni Cam 2 sefydledig, a fydd yn ceisio gwella’r ymateb i gamfanteisio trwy greu desg camfanteisio a gwella llwybrau i ymyriadau cymorth cynnar mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.



# Diogelu Pobl


## • Cefnogi her effeithiol ac atebolrwydd proffesiynol wrth ddarparu arfer diogelu

Mae Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ac Adrodd y Byrddau, sy'n cynnwys set ddata gynhwysfawr ochr yn ochr ag amserlen archwilio ranbarthol leol a thematig, wedi parhau i gynorthwyo dealltwriaeth y Byrddau o arfer diogelu proffesiynol. Mae gan y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol drosolwg cadarn ar arferion diogelu aml-asiantaeth lefel uchel ledled y rhanbarth, trwy graffu ar adroddiadau trosolwg chwarterol sy'n cynnwys dadansoddiad o dueddiadau rhanbarthol a lleol allweddol.




*Graff yn dangos nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal eleni yn ein rhanbarth*

Mae hyn yn cefnogi'r Byrddau yn eu hymrwymiad i herio a dwyn asiantaethau i gyfrif yn effeithiol pan fydd ymarfer diogelu a darparu gwasanaethau yn is na'r safonau disgwyliedig. Mae'r graff wedi bod yn arbennig o werthfawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth ddarparu ffordd o oruchwylio tueddiadau diogelu trwy gydol y pandemig. Mae casgliadau allweddol a dynnwyd o'r dadansoddiad hwn yn cynnwys sefydlogrwydd cyffredinol mewn data PDG trwy'r flwyddyn, heb unrhyw newidiadau sylweddol o ran niferoedd nac o ran tueddiadau lleol neu ranbarthol, sy'n gyson i raddau helaeth â data cyn-COVID.




*Graff yn dangos nifer y digwyddiadau domestig sy'n cynnwys oedolion eleni yn ein rhanbarth*

Roedd digwyddiadau domestig yn cynnwys oedolion yn un o'r materion penodol y canolbwyntiodd Grŵp Gweithredol COVID-19 arno, ac felly roedd y gallu i asesu tueddiadau yn erbyn pryderon a'r risgiau a ragwelwyd yn gymorth mawr i fonitro effaith a risg COVID-19 dros amser. Dangosodd y set ddata hon gynnydd cyson yn yr adroddiadau o ddigwyddiadau ar ddechrau'r pandemig, ac yna gostyngiad nodedig yn y mwyafrif o ardaloedd tuag at y gaeaf, gyda'r cyfraddau'n sefydlogi ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn ei gwneud yn bosibl i wneud ystyriaethau yn y grŵp hwn, ac ar lefel y Bwrdd Gweithredol, ynghylch a allai ffactorau eraill fod yn effeithio ar y data, ee tan-adrodd neu or-adrodd, newidiadau mewn capasiti ac arferion gwaith cyffredinol, neu faterion eraill y tu hwnt i COVID-19.

## • Adolygiadau Ymarfer

Mae nifer o Adolygiadau Ymarfer wedi cychwyn a gorffen yn ystod y flwyddyn. Mae'r themâu a nodwyd i'w hystyried o ganlyniad i'r adolygiadau hyn yn cynnwys:

- Yr angen am hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer ymarferwyr amlasiantaethol mewn perthynas â chwilfrydedd proffesiynol a chydymffurfiad cudd.
- Yr angen am well hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i ymarferwyr mewn perthynas â deddfwriaeth galluedd meddyliol, yn enwedig lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn arddangos ymddygiadau risg uchel.
- Pwysigrwydd siarad â phlant yn uniongyrchol fel rhan o asesiadau gofal a chymorth.
- Yr angen am ganllawiau polisi rhanbarthol lle mae rhieni'n arddangos safbwyntiau crefyddol eithafol.
- Gwell darpariaeth yn genedlaethol ar gyfer plant sydd angen llety diogel.
- Gwell canllawiau statudol cenedlaethol ar gyfer plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

# Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar Atebion

Mae pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol ledled y rhanbarth yn parhau i ddefnyddio model ymarfer Arwyddion Diogelwch (SoS) i raddau amrywiol. Mae Arwyddion Diogelwch yn ddull mwy cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac sy'n canolbwyntio ar atebion, o ymdrin â diogelu ac mae'n ceisio gwella ac annog mwy o gyfranogiad gan y defnyddiwr gwasanaeth.

Mae egwyddorion craidd y model yn ategu ysbryd ac ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n ceisio rhoi cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth wrth galon ymyrraeth broffesiynol gyda phlant, eu teuluoedd ac oedolion mewn perygl. Yn y flwyddyn i ddod, bydd y gwaith hwn yn cael ei wella ymhellach gydag adolygiad a diweddariad arfaethedig o'r Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol ranbarthol (MARF), a fydd yn ceisio ymgorffori'r model hwn mewn adroddiadau ac atgyfeiriadau a wneir ar gyfer plant ac oedolion sydd mewn perygl.



# (j) Pryd a sut mae plant ac oedolion wedi cael cyfle i gyfranogi yng ngwaith y bwrdd

## Presenoldeb yn y Bwrdd Gweithredol

Aelodau ifanc CADW: Mynychodd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Iau gyfarfod y Bwrdd Gweithredol unwaith eto yn gynnar yn 2021. Roedd y presenoldeb hwn yn rhithwir, gyda dau berson ifanc yn ymuno trwy gyswllt fideo ynghyd â'u Swyddog Cyfranogi i gynnig cefnogaeth. Cyflwynodd y mynychwyr ifanc gyflwyniad ynghylch eu cyflawniadau allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mynegodd y Bwrdd Gweithredol hyfrydwch mawr gyda'r gwaith clodwiw a wnaeth CADW yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan nodi nad oedd cynnydd a llwyddiant wedi eu rhwystro gan y cyfyngiadau oedd yn gysylltiedig â'r pandemig. Ar ben hynny, rhannodd y bobl ifanc eu profiad o'r Bwrdd Iau gan roi cyfle defnyddiol i ymgysylltu â'u cyfoedion ar gyfnodau o gyfyngiadau cymdeithasol a mwy o unigrwydd a diflastod.

> Adborth gan Gadeirydd y Bwrdd Gweithredol:
> *Dyma gyflwyniad calonogol a llawn ysgogiad gan y bobl ifanc*

> Adborth gan aelodau CADW:
> *Mae'r grŵp hwn wedi helpu fy hyder yn fawr*
>
> *Mae'r grŵp hwn wedi fy newid, ac wedi newid sut ydw i i bobl eraill.*

Roedd y Bwrdd Gweithredol yn teimlo'n galonogol o glywed yr effaith gadarnhaol y mae CADW yn ei chael ar ei aelodau, yn ychwanegol at y cyfraniad sylweddol y mae aelodau CADW yn ei wneud i'w gwaith ac yn ei dro, i'r Byrddau yn gyffredinol.

## Prosiectau CADW a blaenoriaethau pobl ifanc


Mae CADW wedi ymgymryd â sawl darn allweddol o waith eleni sy'n mynd i'r afael â'r materion diogelu sydd o'r pryder mwyaf iddynt. Aeth y bobl ifanc at y darnau hyn o waith mewn ffordd a oedd yn teimlo'n fwyaf hygyrch a diddorol, gan archwilio'r ffyrdd arloesol y gallant fynd i'r afael â materion dadleuol a'r problemau difrifol y mae eu cyfoedion yn eu hwynebu.

Mae cysylltiadau â'r Bwrdd Iau wedi cryfhau'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gydag Uned Fusnes y Bwrdd yn mwynhau'r cyfle i gwrdd â CADW yn aml trwy lwyfannau rhithwir, derbyn diweddariadau rheolaidd ar brosiectau parhaus, a chydweithio ar ffrydiau gwaith penodol.

Mae CADW yn cwrdd yn aml ar Zoom i drafod nifer o brosiectau y maent wedi parhau i weithio arnynt.

Ym mis Ebrill 2020, cynhaliwyd digwyddiad rhithwir Meic Agored i arddangos doniau plant a phobl ifanc, ac wrth wneud hynny, annog plant a phobl ifanc i fynegi eu hunain a chodi ymwybyddiaeth o sut i'w cadw'n ddiogel ar-lein.

Mynychodd pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gweithwyr proffesiynol y digwyddiad, a gynhaliwyd ar Zoom.



*Digwyddiad Meic Agored CADW a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2020*

Cymerodd y digwyddiad hwn agwedd hamddenol, hwyliog, a rhoddodd le i'r bobl ifanc ddod at ei gilydd a mwynhau eu hunain yn ystod amser heriol.

Cynhaliwyd cyfarfod rhanbarthol CADW ym mis Mehefin 2020 i rannu "gwaith y cyfnod clo" gyda'i gilydd a chael trafodaeth ar lefel ranbarthol. Roedd yn gadarnhaol iawn gweld y gwaith rhagorol yn parhau yn lleol ac yn rhanbarthol o fewn Byrddau Iau yn ystod y cyfnodau clo, ac roedd gwerth y cyfathrebu hwn ar adeg o ynysu cynyddol yn amlwg i bawb a gymerodd ran.

Er na chaniatawyd i Breswyliad blynyddol CADW gael ei gynnal eleni oherwydd COVID-19, yn lle hynny mwynhaodd y Bwrdd Iau "Breswyliad Gwahanol i'r Arfer" ym mis Hydref 2020. Defnyddiwyd Zoom ar gyfer y digwyddiad hwn, a oedd yn cynnwys gweithdai ffitrwydd, sioe gemau, ac arddangosiad coginio iach. Pwrpas y digwyddiad hwn oedd caniatáu i'r bobl ifanc ddod at ei gilydd ar gyfer digwyddiad pleserus, a oedd yn canolbwyntio ar ffyrdd cadarnhaol o gynnal lles iach ar adegau o gyfyngiad ac arwahanrwydd. Mwynhawyd y digwyddiad hwn yn fawr gan bawb a gymerodd ran, ac mae'n dangos y cymhelliant a'r positifrwydd diwyro o fewn CADW trwy gyfnodau eithriadol o anodd.




*Cyflwyniad CADW i'r Bwrdd Gweithredol*

Cafwyd cyllid hefyd gan CAVO i hyrwyddo iechyd a lles plant a phobl ifanc, a fydd yn cael ei ddefnyddio i greu sesiynau ffitrwydd cynhwysol a chardiau rysáit iach.


Eleni, mae CADW wedi cael y dasg o greu prosiect newydd sy'n deillio o Adolygiad Ymarfer Plant wedi'i gwblhau, a'i bwrpas yw datblygu adnodd sy'n amlinellu barn plant a phobl ifanc ar sut y gall ymarferwyr diogelu eu cefnogi a rhyngweithio â nhw'n well.

Mae'r bobl ifanc wedi penderfynu datblygu animeiddiad i gyfleu'r neges hon, y gellir ei gynnwys wedyn mewn ystod o becynnau hyfforddi diogelu ar lefel ranbarthol ac asiantaeth unigol.
Mae cynnydd rhagorol yn cael ei wneud yn y prosiect hwn, sydd hefyd yn arwain at ddatblygu cysylltiadau sylweddol gryfach gyda Bwrdd CADW a'i aelodau. Gobeithir y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau a'i lansio yn y flwyddyn i ddod.

Mae Grŵp Diogelu a Chyfranogi Iau 'Eat Carrots Be Safe from Elephants' Powys wedi dewis ailenwi eu hunain eleni, ac mae bellach yn cael ei alw'n swyddogol yn **Llysgenhadon Diogelu Ieuenctid Powys (PAYS)**, gydag un o'i aelodau'n dylunio logo newydd. Maent wedi rhoi ffocws ar hyrwyddo gweithredol eleni, gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad pobl ifanc ym Mhowys. Mae'r grŵp wedi nodi tri amcan allweddol drostynt eu hunain, sef: codi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig dros Hawliau'r Plentyn (UNCRC); diogelwch gartref, ysgol a chymuned; a phontio i fod yn oedolyn. Mae PAYS yn mynychu Grŵp Gweithredol Lleol Powys yn rheolaidd, gan ddarparu adborth ar ffrydiau gwaith cyfredol, ateb cwestiynau, a chymryd camau gweithredu yn ôl ac ymlaen i gyfarfodydd. Mae PAYS hefyd yn darparu cynrychiolaeth ar y Bwrdd StartWell Iau, gan adrodd yn ôl i'r grŵp ar feysydd cynnydd allweddol.

Chwaraeodd **'Sêr Saff' Ceredigion a Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion** ran ganolog mewn prosiectau CADW allweddol yn ystod 2020-21, a chwblhawyd amrywiaeth o brosiectau yn lleol. Creodd 'Sêr Saff' gerdd ym mis Mai 2020 i fynegi sut roedd pobl ifanc yn teimlo am COVID-19, a rannwyd yn eang ar draws y cyfryngau cymdeithasol. Lluniodd y grŵp eiriau i ddisgrifio'r sefyllfa a ddaeth yn sgil y pandemig, a chodi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod clo, yn ogystal â gwneud i bobl chwerthin a gwenu ar yr adeg anodd hon. Dyma enghraifft wych o sut mae 'Sêr Saff' yn cydbwyso materion difrifol sy'n berthnasol i bobl ifanc â mwynhad a hiwmor, i greu profiad cadarnhaol yn ogystal ag ymgymryd â gwaith pwysig o safon uchel ym maes diogelu iau.

Yn ddiweddarach yn 2020, creodd y 'Sêr Saff' fideo lle cafodd myg TGP Cymru ei "basio" o gwmpas yn rhithwir, i ddod â phobl ynghyd a



*Llun Cerdd COVID-19 'Sêr Saff'*


*Prif Swyddog Gweithredol TGP Cymru, Jackie Murphy, yn ymuno yn ymgyrch fideo "aros gartref, aros yn ddiogel, yfed te" 'Sêr Saff'*

defnyddio fformat ysgafn i rannu neges o aros yn ddiogel gartref. Roedd hwn hefyd yn gyfle i ailgysylltu â phobl sydd wedi cefnogi'r 'Sêr Saff' yn eu gwaith a'u gweithgareddau. Rhwng Mehefin ac Awst 2020, bu CADW yn cyfweld â gweithwyr proffesiynol fel y gallai'r plant a'r bobl ifanc ddod i adnabod y bobl sy'n eu diogelu. Dechreuodd y 'Sêr Saff' eu 'Her Hawl i Holi' trwy gwrdd â nifer o weithwyr proffesiynol ar Zoom. Gofynasant ddeg cwestiwn i bob person i ganfod ychydig mwy amdanynt a beth oedd eu prif gynghorion yn ystod y cyfnod clo. Gofynnodd y grŵp gwestiynau i weithwyr proffesiynol sy'n diogelu plant a phobl ifanc yn y sectorau iechyd, addysg, tai, elusennau a'r heddlu, yn ogystal â Chomisiynydd Plant Cymru.

Yn ogystal â defnyddio Zoom i gadw mewn cysylltiad yn rheolaidd, mae'r 'Sêr Saff' hefyd wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gynyddu cyfathrebu eleni, trwy rannu diweddariadau aml ar brosiectau cyfredol ar Facebook ac Instagram, a thrwy ddefnyddio "sgwrs grŵp" i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd.

Nid yw Cyngor Sir Gaerfyrddin yn comisiynu Bwrdd Iau lleol a chaiff materion a phroblemau diogelu pobl ifanc eu trin trwy **Gyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin (CYC)**, sy'n parhau i gynnal y cynllun Llysgenhadon Cymunedol Hawliau Plant.

Eu prif rôl fel Llysgenhadon yw hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), gweithredu fel llais i bobl ifanc leol a throsglwyddo eu barn i'r Comisiynydd Hawliau Plant yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd 2020, trefnodd y Llysgenhadon Hawliau Plant Cymunedol ddigwyddiad arbennig i ddathlu 31ain pen-blwydd UNCRC. Roedd y gweithdy rhithwir ar agor i bob person ifanc yn Sir Gaerfyrddin. Cafodd y mynychwyr gyfle i ddysgu mwy am hawliau plant a tharddiad UNCRC.

Yn ogystal, fe wnaethant gymryd rhan mewn gweithgareddau rhyngweithiol a chwisiau i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y ddogfen bwysig hon. Derbyniodd yr holl bobl ifanc a fynychodd y digwyddiad llwyddiannus hwn roddion eco-gyfeillgar CYC.

Ym mis Ionawr 2021, cymerodd aelodau Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin ran mewn ymgynghoriad a drefnwyd gan Wasanaeth Addysg Sir Gaerfyrddin. Fe wnaethant rannu eu barn ynghylch y trefniadau i gynnal Gwasanaethau Addysgol i ddisgyblion yn Sir Gaerfyrddin yn ystod pandemig COVID-19.

Cynhyrchodd y bobl ifanc ddogfen o'r enw 'Nodweddion dysgu cyfunol da' Rhannwyd eu barn a'u profiadau ag uwch reolwyr ac fel hyn fe wnaethant gyfrannu at newid cadarnhaol mewn addysg yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ym mis Chwefror 2021 yn ystod y cyfnod clo, cymerodd CYC ran mewn her rithwir 'Rhedeg i Baris'. Cerddodd / rhedodd y bobl ifanc 500 milltir i gyd (y pellter o Gaerfyrddin i Baris) mewn dim ond 10 diwrnod i godi arian ar gyfer dwy elusen: Shelter Cymru a Chychod Achub Glan y Fferi. Fe wnaethant annog ac ysgogi eu hunain ar hyd y ffordd, wrth wella eu sgiliau adeiladu tîm, eu lles a'u lefel ffitrwydd. Cwblhaodd CYC yr her yn llwyddiannus a chasglwyd £760 tuag at yr elusennau o'u dewis.



*Tynnwyd y ddelwedd yn ystod her "Rhedeg i Paris" CYC*

Cymerodd dau aelod o'r CYC ran mewn prosiect a gynhaliwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'u Fforwm Ieuenctid. Fe wnaethant weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu fideo / ffilm fer sy'n rhannu profiadau pobl ifanc o ddod i gysylltiad â'r Heddlu, i'w defnyddio fel adnodd hyfforddi sydd ar gael i swyddogion er mwyn iddynt glywed barn a phrofiadau pobl ifanc a dysgu ohonynt wrth symud ymlaen.




Mae **Diogelwyr Iau Sir Benfro** wedi cymryd rhan weithredol mewn ystod o brosiectau unwaith eto eleni, sydd o fudd i'w grŵp eu hunain ac i flaenoriaethau lleol a rhanbarthol. Ym mis Gorffennaf 2020, roedd aelodau o'r Gwarchodwyr Iau yn rhan o'r panel cyfweld ar gyfer Cyfarwyddwr Addysg Sir Benfro, ac ym mis Mehefin 2020 roedd y bobl ifanc hefyd yn ymwneud â recriwtio Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant.

Mae'r panel pobl ifanc yn rhan werthfawr o'r broses recriwtio. Mae'n datblygu amrywiaeth o sgiliau ar gyfer y bobl ifanc, y gallant eu defnyddio yn eu haddysg a'u cyflogaeth yn y dyfodol, ac mae'n rhoi cyfle iddynt gael eu llais a'u hargymhellion wedi'u clywed gan uwch reolwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r bobl ifanc yn mwynhau bod yn rhan o'r broses ac mae'n eu galluogi i ddatblygu ac adeiladu ar y perthnasoedd cynaliadwy a ddatblygwyd gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol. Mae aelodau o'r Gwarchodwyr Iau yn aelodau o'r Tîm Adfer Addysg yn Sir Benfro, ac o ganlyniad maent wedi mynychu cyfarfodydd ac wedi rhoi adborth ar farn cyfoedion. Mae'r rôl a chwaraeodd pobl ifanc yng nghyfarfodydd y Tîm Adfer Addysg yn ystod COVID-19 wedi dylanwadu ar sut y dychwelodd disgyblion i ysgolion yn Sir Benfro, gyda phobl ifanc yn cyfrannu at y canllawiau a luniwyd. Dyluniodd pobl ifanc boster 'Canllaw Goroesi Mynd yn ôl i'r Ysgol' sydd wedi'i ddefnyddio ym mhob ysgol. Dyma enghraifft wych o sut mae'r Diogelwyr Iau yn ymgymryd ag ansawdd uchel o waith gan bobl ifanc, i bobl ifanc, a'r budd ehangach a ddaw i'r gwasanaethau diogelu o ganlyniad i'r ymgysylltiad hwn.




*Detholiad o Fodiwl Diogelu Ar-lein Diogelwyr Iau Sir Benfro a lansiwyd yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu 2020 (gweler Adran F)*

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r aelodau wedi gallu mynychu cyfarfodydd amrywiol gydag Aelodau'r Senedd. Mynychodd un aelod gyfarfod gyda'r Prif Weinidog i drafod effaith COVID ar bobl ifanc a rhannu barn pobl eraill. Roedd hwn yn gyfle gwych i bobl ifanc, a oedd yn rhoi cyfle i'r Prif Weinidog holi pobl ifanc ac i bobl ifanc holi'r Prif Weinidog.
Ym mis Awst 2020, gweithiodd y Diogelwyr Iau mewn partneriaeth â Chymru Ifanc i ddarparu hyfforddiant Arolygwyr Ifanc ar-lein. Mae Arolygwyr Ifanc wedi'u hyfforddi i arolygu sefydliadau yn erbyn Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru. Bellach mae gan Sir Benfro 10 Arolygydd Ifanc newydd gymhwyso.

Mae aelodau'r grŵp hefyd wedi bod yn rhan o amryw o ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys:

- **Y Comisiynydd Plant Coronafeirws a Fi Mai 2020 a Ionawr 2021**
- **Parciau Cenedlaethol - Profiad i bawb**
- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Penfro 2020 - 2024**
- **Gwneud i Bleidleisiau @16 weithio yng Nghymru - prosiect ymchwil**
- **Canllawiau Ailagor Clybiau Ieuenctid Cyngor Sir Penfro**
- **Bwrdd Dros Dro Gwaith Ieuenctid Cymru - COVID-19**

# (k) Ceisiadau am ddiogelu oedolion a gorchmynion cefnogi

Gwnaed un cais llwyddiannus am Orchymyn Diogelu a Chefnogi Oedolion (APSOs) yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ystod 2020-21, y cais cyntaf yn y rhanbarth hwn ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.


Mae’r Byrddau’n ymwybodol fod y duedd hon yn adlewyrchu gweithgaredd mewn meysydd eraill ac yn croesawu unrhyw arsylwadau gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhesymau tebygol dros hyn.



# (l) Gwybodaeth neu ddysgu mae'r bwrdd wedi'i ddosbarthu a hyfforddiant a argymhellwyd neu a ddarparwyd

## Gwefan

Mae gwefan y Byrddau yn gweithredu fel canolbwynt canolog o wybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys sut i roi gwybod am bryder a'r hyfforddiant sydd ar gael a ddarperir yn y rhanbarth. Cyhoeddir holl adroddiadau'r Adolygiadau Ymarfer ar wefan y Byrddau, fel y mae Cynlluniau Blynyddol ac Adroddiadau Blynyddol cyfredol a blaenorol.




Eleni bu dros

**13,659**

Ymweliadau â gwefan CYSUR

Mae'r wefan yn adnodd sydd wedi parhau i dyfu eleni. Mae Hwb Adnoddau cynhwysfawr bellach yn gwbl weithredol, gydag opsiynau i bori trwy ystod o adnoddau yn ôl pwnc neu yn ôl defnyddiwr (ee rhieni / gofalwyr, plant, ymarferwyr). Defnyddir y wefan hefyd fel cyfrwng i hyrwyddo digwyddiadau diogelu ac i rannu dysgu ac arfer da.

Mae'r gwaith datblygu a wnaed ar y wefan eleni wedi paratoi'r ffordd ar gyfer ehangu'r adnoddau. Mae'r gwaith a wnaed ar y wefan eleni wedi bod yn sylweddol, a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y flwyddyn i ddod, wrth i'r Byrddau ddefnyddio dulliau digidol i wella mynediad at hyfforddiant a gwybodaeth am ddiogelu ledled y rhanbarth.

> Adborth o'r Diwrnod Datblygu:
> *Mae'r wefan yn glir ac mae'r wybodaeth yn hygyrch*

## Hyfforddiant

Fel yr amlinellwyd yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol sicrhau bod ymarferwyr yn eu hardal yn cael mynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt mewn gwaith amddiffyn plant ac oedolion ac yn ei dderbyn. Mae Strategaeth Hyfforddiant Ranbarthol amlasiantaethol y Byrddau a'r Cynllun Cyflenwi cysylltiedig yn parhau i ddarparu fframwaith sy'n cefnogi comisiynu a darparu hyfforddiant amlasiantaeth pwrpasol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol y Byrddau, ynghyd â rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd ac argaeledd yr hyfforddiant diogelu i ymarferwyr a rheolwyr ar draws y bartneriaeth.

Mae cyfoeth o hyfforddiant diogelu wedi'i ddarparu ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru eleni, fel yr amlinellwyd drosodd.**Cyflwynwyd Hyfforddiant Adolygu Thematig** ar draws y rhanbarth,

wedi'i hwyluso gan **Barbara Firth**. Pwrpas yr hyfforddiant hwn oedd archwilio rhai themâu allweddol sydd wedi codi mewn Adolygiadau Ymarfer a gwblhawyd yn rhanbarthol, yn ogystal â dysgu ehangach o adolygiadau cenedlaethol. Roedd chwilfrydedd, goruchwyliaeth a hyfforddiant proffesiynol ymhlith y themâu a archwiliwyd trwy'r hyfforddiant hwn, gydag ymarferwyr amlasiantaethol yn rhannu eu profiadau a'u heriau eu hunain i wella'r drafodaeth ynghylch sut y gellir ymdrin â'r themâu hyn.


**8.54**
Sgôr cyfartalog y mynychwyr ar i ba raddau y bydd yr Hyfforddiant Adolygu Thematig yn dylanwadu ar eu harfer, o 1 i 10

Cafodd sesiynau eu strwythuro i alluogi ymarferwyr i drafod y materion hyn gyda chydweithwyr amlasiantaethol, ac i'r trafodaethau hyn fod yn sail i'r sesiynau a gyflwynwyd yn ddiweddarach i reolwyr, gan ei gwneud yn bosibl i wneud archwiliad aml-lefel o'r heriau allweddol a wynebir a sut y gellir eu goresgyn. Derbyniodd y Bwrdd Gweithredol gyflwyniad gan Barbara Firth ar y sesiynau a'u canlyniadau ar ôl iddynt ddod i ben yn gynnar yn 2021, er mwyn sicrhau y gall y dysgu a gymerwyd o'i hymchwil ac a gafwyd yn ystod y sesiynau eu hunain gael ei ddilyn i fod yn sail i flaenoriaethau rhanbarthol yn y blynyddoedd i ddod, gan gefnogi'r gwaith o gyflwyno un o flaenoriaethau strategol y Byrddau sef dysgu thematig a datblygu arfer gorau.

**Sylwadau mynychwyr yr hyfforddiant ar Adolygiadau Thematig**
*Wrth symud ymlaen, byddaf yn defnyddio goruchwyliaeth i gael trafodaethau manwl ynghylch achosion penodol, gan ystyried mater chwilfrydedd proffesiynol ac addasu sgiliau er mwyn sicrhau nad wyf yn dibynnu'n llwyr ar hunan-adrodd.*

Cynhaliwyd gweithdai **Hyfforddiant Hunan-esgeuluso** trwy gydol a thu hwnt i'r Wythnos Diogelu Genedlaethol, a gyflwynwyd gan **Michael Preston-Shoot**. Mae mater hunan-esgeulustod wedi bod yn ganolbwynt yn y grŵp Arweinwyr Diogelu Oedolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o ganlyniad i angen a nodwyd ar y cyd i sefydlu proses glir sy'n rhoi'r awdurdod i ymarferwyr ymyrryd lle mae hunan-esgeulustod yn digwydd ac yn peri risg o niwed i unigolion sy'n byw yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith nad yw'r canllawiau cenedlaethol yn darparu'n benodol ar gyfer yr her hon. Roedd ymarferwyr yn gallu rhannu eu profiadau o drin achosion o hunan-esgeulustod yn yr hyfforddiant hwn, a chlywed arweiniad arbenigol ar sut i gefnogi unigolyn sy'n hunan-esgeuluso fel ymarferydd.

**8.6**
Sgôr cyfartalog gan fynychwyr ar y graddau y bydd yr Hyfforddiant Hunan-esgeuluso yn dylanwadu ar eu harfer, o 1 i 10.




*Lefel gwybodaeth gyfartalog a gafodd ei hunanasesu gan fynychwyr sesiynau hunan-esgeulustod ac Adolygiadau Ymarfer rhanbarthol, cyn ac ar ôl hyfforddiant, ar raddfa o 1 i 10.*

**Adborth mynychwyr am yr Hyfforddiant Hunan-esgeuluso:**
*Rwy'n teimlo bod gen i fwy o wybodaeth i herio ac uwchgyfeirio mewn sefyllfa arbennig. Rwy'n teimlo y gallaf awgrymu gwahanol ddulliau. Mae gen i fwy o ddealltwriaeth gyfreithiol. Roedd yn rhagorol ac rwy'n teimlo'n fwy hyderus i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth*

Cyflwynodd y **Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol** ddigwyddiad undydd sef **Hyfforddiant Cam-drin Plant yn Rhywiol** o fewn y Teulu yn rhithiol trwy Microsoft Teams ym mis Mawrth 2021. Arweiniodd y sesiwn archwiliad manwl o sut mae Cam-drin Plant yn Rhywiol rhyng-deuluol yn digwydd, ei effaith ar ddioddefwyr, y ffyrdd y gellir ei guddio, derbyn ac ymateb i ddatgeliadau, a'r heriau sy'n wynebu gweithwyr proffesiynol sy'n delio ag achosion o'r fath. Llwyddodd cyfranogwyr i dynnu ar eu profiadau eu hunain a chynnal trafodaeth mewn man diogel ynghylch yr heriau sy'n eu hwynebu wrth gefnogi dioddefwyr Cam-drin Plant yn Rhywiol rhyng-deuluol. Canmolwyd y digwyddiad yn eang am gynnig trosolwg trylwyr a sensitif o'r mater heriol hwn.

> Intra-Familial CSA Training Attendee feedback:
> *I feel more confident in being able to provide support if any of the young people I work with made a disclosure.*

Trefnwyd **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Stelcio** eleni hefyd gan Fwrdd VAWDASV, gyda'r **Athro Jane Monckton Smith** yn cyflwyno sesiwn rithwir i gynulleidfa ranbarthol fawr trwy Microsoft Teams. Rhoddodd yr hyfforddiant ffocws ar ymddygiadau stelcio a ffactorau risg cysylltiedig, ynghyd â throsolwg o'r "8 cam tuag at ddynladdiad" a nododd yr Athro Monckton Smith trwy ei hastudiaeth o dros 400 o achosion ledled y DU. Clywodd y mynychwyr sut y dylid asesu risg yn nhermau lefel yr amser a'r sylw y mae cyflawnwyr yn ei neilltuo i'w hymddygiad stelcio, gan ddarparu offer iddynt nodi ac ymateb i risg yn gynnar, gyda ffocws cryf hefyd yn cael ei roi ar brofiad dioddefwyr a'r angen i ganoli hyn wrth wneud penderfyniadau. Canmolwyd yr hyfforddiant hwn yn eang ledled y rhanbarth fel un hynod ddiddorol a gwerthfawr ar gyfer ymarfer.

Hwyluswyd **Diwrnod Datblygu Adran 47** ar gyfer y Byrddau yn gynnar yn 2021 gan **Gladys Rhodes White OBE**, fel rhan o ffocws ehangach y Byrddau ar arfer Adran 47 wedi'i lywio gan wahaniaeth rhanbarthol yn y maes hwn ac awydd ar y cyd i archwilio hyn ar draws asiantaethau ac ardaloedd. Cafodd y digwyddiad ei strwythuro gydag astudiaethau achos yn deillio o fywyd go iawn y sicrhawyd eu bod yn ddienw ac wedi'u cyflwyno gan asiantaethau partner, gyda chyfranogwyr yn adolygu achosion mewn grwpiau i benderfynu a oeddent yn cyfiawnhau ymchwiliad Adran 47. Fe wnaeth yr hyfforddiant hwn alluogi trafodaeth drylwyr ynghylch arfer diogelu ar draws sefydliadau a'r gwahanol ymagweddau at Adran 47, gan ganiatáu i gydweithwyr rannu eu profiadau eu hunain ac ystyried dulliau amgen a gymerwyd. Barnwyd bod y digwyddiad yn hynod lwyddiannus ac yn ddefnyddiol i gydweithwyr wrth archwilio eu harfer diogelu eu hunain a chefnogi amcan ehangach y Byrddau o ymdrechu i sicrhau arfer gorau a dysgu parhaus.

> Section 47 Development Day Attendee feedback:
> *Thank you for the opportunity to have a debate in a safe space.*

Mae meddyg a enwir **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** wedi cyflwyno **hyfforddiant diogelu plant clinigol Lefel 3**, a chynigiodd hwn i staff o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Heddlu Dyfed Powys. Mae eu tîm PDG wedi cyflwyno hyfforddiant i bob Ymwelydd Iechyd a Nyrs Ysgol ar Blant sy'n Derbyn Gofal a'r fframwaith asesu iechyd.

Mae **Heddlu Dyfed-Powys** wedi hyfforddi 80 o staff rheng flaen ychwanegol i ddarparu gwell cefnogaeth ar gyfer achosion o Blant sydd wedi cael eu Cam-drin yn Rhywiol. Mae'r staff hyn yn gweithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer yr ymateb tactegol. Mae hyfforddiant hefyd wedi'i ddarparu

i'r tîm INTACT sydd newydd ei ddatblygu, sy'n cwmpasu'r pedair ardal Awdurdod Lleol i ddatblygu llwybrau a gweithredu ynghylch ymyriadau cynnar. **Cyflwynwyd Cyflawni'r Dystiolaeth Orau - Ymholiad Cychwynnol ynghylch y Cwrs Cyswllt â Phlant** o fewn **Cyngor Sir Ceredigion** eleni. Roedd hwn yn gwrs undydd a fynychwyd gan staff Diogelu Plant ac Oedolion fel rhan o ddatblygiad y Gwasanaeth Diogelu Pob Oed. **Cynhaliwyd Gweithdai Protocol Gweithio ar y Cyd** yng **Nghyngor Sir Penfro** ar ddiogelu plant ac oedolion a chamddefnyddio sylweddau.

Eleni mae'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol wedi cyflawni'r dasg o ddarparu cefnogaeth ranbarthol i **Gwrs Cam-drin Plant ac Oedolion Heddlu Dyfed Powys**. Dyfeisiwyd deunyddiau o fewn yr is-grŵp, gan ganolbwyntio ar elfen ymarferol a gweithredol yr hyfforddiant hwn. Cynhaliwyd digwyddiad peilot llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, a chynhaliwyd sesiynau pellach gyda chefnogaeth yn cylchdroi ymysg yr Arweinwyr Diogelu Oedolion. Mae'r hyfforddiant hwn wedi cryfhau'r perthnasoedd gwaith amlasiantaethol sydd ar waith yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ymhellach, ac wedi datblygu amcan yr Is-grŵp Hyfforddi o ddarparu hyfforddiant amlasiantaeth o safon uchel ar draws yr ôl troed rhanbarthol.

Gwnaed cynnydd da mewn perthynas â gofynion hyfforddi o dan ddeddfwriaeth **VAWDASV** mewn perthynas â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mae Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol MWW yn parhau i oruchwylio darpariaeth grwpiau 1-3 a 6 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol. Mewn ymateb i COVID-19, datblygwyd pecyn rhanbarthol pwrpasol o hyfforddiant i'w gyflenwi ar-lein, a ddarperir ar draws y pedwar awdurdod lleol gyda chefnogaeth gan ddarparwyr gwasanaeth arbenigol. Er gwaethaf effaith y pandemig, gwnaed cynnydd da wrth gyflwyno Gofyn a Gweithredu a bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r llywodraethu sy'n cefnogi'r broses gyflwyno ranbarthol yn sicrhau darpariaeth gyson, cefnogaeth i hyfforddwyr ac ystorfa werthuso ganolog. Mae yna strwythurau adrodd clir i Lywodraeth Cymru yn ganolog, ac mae'r Bwrdd VAWDASV rhanbarthol yn gweithio'n agos gydag arweinwyr y Gwasanaeth Iechyd a Thân i gydlynu cyflenwi ar draws y tri phecyn hyfforddi.
Cwblhawyd dadansoddiad o anghenion hyfforddi hefyd ar draws darparwyr gwasanaethau arbenigol rhanbarthol, mewn perthynas â grwpiau 4 a 5. Defnyddir hwn i fod yn sail i fuddsoddiad mewn hyfforddiant, i fodloni gofynion grwpiau 4 a 5 o fewn y darparwyr gwasanaeth arbenigol. Bydd hyn ar y cyd â hyfforddiant arbenigol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Beth bynnag yw'r heriau a nodwyd, mae'r Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol wedi cefnogi'r gwaith o gyflwyno **Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Cymru** ar draws yr ôl troed rhanbarthol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hon yn dasg gymhleth ac ar raddfa fawr, gyda'r angen i ddarparu hyfforddiant ar y Gweithdrefnau newydd a newidiadau allweddol i arfer i reolwyr ac ymarferwyr diogelu ar draws holl asiantaethau partner y Bwrdd. Cyflwynwyd sesiynau cychwynnol gan **Llwybrau Newydd** i gydweithwyr rhanbarthol, a arweiniodd wedyn ar ddarparu'r hyfforddiant hwn yn eu hasiantaethau eu hunain. Defnyddiwyd Microsoft Teams ar gyfer y sesiynau hyn, gyda chefnogaeth gan Uned Fusnes y Byrddau i drefnu a hwyluso'r digwyddiadau ar-lein hyn. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan gyrraedd ymarferwyr rheng flaen i'w harfogi â'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn unol â chanllawiau cenedlaethol newydd.

Mae cyflwyno'r hyfforddiant hwn yn rhithwir wedi paratoi'r ffordd ar gyfer fformatau newydd o hyfforddiant diogelu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, yn benodol y defnydd o dechnoleg, i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a chreu cyfleoedd hyfforddi mwy cyfleus a hygyrch. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at ddatblygu fideos hyfforddi sy'n ymdrin ag agweddau diogelu plant ac oedolion ar Weithdrefnau Diogelu Cymru, sydd ar gael ar wefan y Byrddau i ddarparu mynediad at hyfforddiant diogelu sylfaenol i gynulleidfa ehangach, gan gynnwys yn arbennig sefydliadau'r trydydd sector a gwirfoddolwyr. Defnyddiwyd dull tebyg yn ddiweddarach yn y flwyddyn i gynhyrchu fideos hyfforddi ar gyfer y gweithdai **Hunan-esgeulustod** ac Adolygu Thematig, gyda'r deunydd hwn yn ffurfio'r "darllen blaenorol" wrth galon y trafodaethau ar ffurf Holi ac Ateb yn y sesiynau byw.

# (m) Sut mae'r byrddau diogelu wedi gweithredu cyngor gan lywodraeth cymru a'r bwrdd diogelu annibynnol cenedlaethol

Er na chyhoeddwyd unrhyw gyngor ffurfiol penodol gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i Fyrddau Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Cadeiryddion Byrddau Gweithredol CYSUR a CWMPAS yn parhau i weithio'n agos gydag uwch swyddogion LlC a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr, a lle y nodwyd y gellir gwneud gwelliannau i arfer diogelu proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys datblygu deddfwriaeth, polisi a chanllawiau.

Mae'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yn parhau i weithredu ac adrodd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cam-drin Plant yn Rhywiol fel y cyfarwyddir gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n parhau i ddarparu cynrychiolaeth a mewnbwn amlasiantaethol ynghylch nifer o ffrydiau gwaith ffurfiol y llywodraeth, gan gynnwys proses yr Adolygiad Diogelu Sengl Unedig sy'n parhau a Bil Plant Cymru.

Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru • CWMPAS • Mid and West Wales Safeguarding Adults Board

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru • CYSUR • Mid and West Wales Safeguarding Children Board

# Geirfa

- **AYO/AYP (APR / CPR)** - Adolygiad Ymarfer Oedolion / Adolygiad Ymarfer Plant
- **FfPA (MAPF)** - Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol
- **VAWDASV** - Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- **MACSE / CRhB (CSE)** - Camfanteisio Rhywiol ar Blant Aml-Asiantaeth / Camfanteisio Rhywiol ar Blant
- **GGLl** - Grŵp Gweithredol Lleol
- **WDG (NSGW)** - Wythnos Diogelu Genedlaethol
- **ERW** - Addysg trwy Weithio Rhanbarthol
- **ADdG (EHE)** - Addysg Ddewisol Gartref
- **BDAC (NISB)** - Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol
- **ADRh (DoLS)** - Amddiffynfeydd Diogelu Rhyddid
- **AGC (CIW)** – Arolygiaeth Gofal Cymru
- **IICSA** - Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol
- **PRUDiC** - Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl mewn Plentyndod
- **ACEs** - Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
- **BIAP (PTHB)** - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- **PPPI (CYPP)** - Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- **CAMHS** - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed
- **MARAC** - Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol
- **MAPPA** - Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd
- **ICC (PHW)** - Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **TDC (NST)** - Tîm Diogelu Cenedlaethol
- **YGAC (WAST)** - Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- **HDP** - Heddlu Dyfed-Powys
- **GCI** - Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- **GPC** - Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- **CAC (CRC)** - Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- **AD (SoS)** - Arwyddion Diogelwch
- **ABCh** - Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- **CCAC (ADEW)** - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru
- **LHDTC+ (LGBTQ+)** - Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwestiynu a Mwy
- **GDG (DBS)** - Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- **FfAA (MARF)** - Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol
- **ADD (DHR)** - Adolygiad Dynladdiad Domestig
- **CD (DA)** - Cam-drin Domestig
- **SARC** - Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
- **BAME** - Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- **CSPPI** - Digwyddiadau Diogelu Cymunedol a Diogelu’r Cyhoedd
- **BCI (YJB)** - Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- **CCUHP (UNCRC)** - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn
- **CSA / CSE** - Cam-drin / Camfanteisio Rhywiol ar Blant
- **CCE** - Camfanteisio Troseddol ar Blant
- **IRISi** - Menter gymdeithasol a sefydlwyd i hyrwyddo a gwella’r ymateb gofal iechyd i drais ar sail rhywedd.
- **UDD (DSP)** - Unigolyn Diogelu Dynodedig




# BYRDDAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU ADRODDIAD BLYNYDDOL 2020-21

*Cynhyrchwyd gan y Bwrdd Diogelu Canolbarth A Gorllewin Cymru*


**Julie Breckon**
*Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbartho*
**01437 776127**

**Stuart Hicks**
*Cydlynydd Busnes y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol*
**01437 775200**

**Rebecca Reynolds**
*Swyddog Datblygu Busnes Rhanbarthol*
**01437 776384**

CYSUR@pembrokeshire.gov.uk
CWMPAS@pembrokeshire.gov.uk


**www.cysur.cymru**

DESIGN yo! CREATIVE DESIGN & PRINT DY00356